Rhif: WG43105

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Papur Gwyn Amaeth (Cymru)

Crynodeb o'r Ymatebion

Gorffennaf 2021

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80195-637-6

Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey, Tony Jones, Grace Milner, Nina Sharp, Anna Burgess ac Eddie Knight

Cyfieithwyd gan Iwan Rhys

Mehefin 2021

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2-4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 2
1 Cyflwyniad 7
2 Safonau Gofynnol Cenedlaethol 11
3 Cyngor a Chanllawiau 18
4 Sancsiynau Sifil 24
5 Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Cymorth yn y Dyfodol 30
6 Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi 35
7 Casglu a Rhannu Data 38
8 Coedwigaeth a Choetiroedd 51
9 Tenantiaethau 57
10 Iechyd a Lles Anifeiliaid 65
11 Maglau 69
12 Asesiadau Integredig o Effeithiau 73
13 Y Gymraeg 75
14 Themâu Ychwanegol 79
15 Casgliadau 86
Atodiad 1: Cwestiynau Ymgynghori 87
Atodiad 2: Niferoedd yr Ymatebion 91
Atodiad 3: Ymatebion Sefydliadau 92

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Amaeth (Cymru). Mae'n disgrifio crynodeb o farn a safbwyntiau a gynigwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

Yr Ymatebion

Mae'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid sydd â budd mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth, ffyniant cymunedau gwledig, a chynnal a gwella'r amgylchedd naturiol. Derbyniwyd cyfanswm o 1,119 o ymatebion dros gyfnod yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys 232 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau, ac 887 arall a gyflwynwyd drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon.

Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Yn gyffredinol, mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr deimladau cadarnhaol tuag at y cynigion ynglŷn â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd hyn yn adlewyrchu, yn benodol ac ymhlyg, bwysigrwydd rhesymoli a symleiddio'r dirwedd reoleiddio bresennol ynghylch ffermio a rheoli tir i lawer o ymatebwyr. I rai, roedd hefyd yn adlewyrchu eu bod yn cytuno â theimlad a chyfeiriad cyffredinol y cynigion.

Roedd y themâu allweddol a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys pwysigrwydd y symlrwydd, yr hyblygrwydd a'r sefydlogrwydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion. Mynegodd yr ymatebwyr bwysigrwydd cynnal safonau uchel, neu fod angen i'r safonau fynd yn bellach, wrth weithio tuag at reoli tir mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Roedd ymatebwyr hefyd a oedd yn teimlo y dylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gydweddu â'r marchnadoedd allweddol a sicrhau bod cynnyrch o Gymru yn gystadleuol. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â chyflymder y symud i drefniadau newydd. O'r safbwyntiau hyn, roedd eglurder a pharatoi wrth symud i drefniadau newydd yn cael eu hystyried yn bwysig.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai mwy eglurder ar gynnwys penodol a chwmpas y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn werthfawr. Oddi mewn i'r ymatebion, yr oedd yn glir bod dehongliadau amrywiol o'r cynigion ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys union effaith y cynigion ar y llinell sylfaen reoleiddio, yr oedd rhai yn teimlo y byddai yn cael ei chodi ac yn cynyddu costau cydymffurfio.

Cyngor a Chanllawiau

Yn gyffredinol, roedd y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr tuag at ddarpariaethau ynghylch y Papur Gwyn a chyngor a chanllawiau yn dueddol o fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd lefelau uwch o gefnogaeth amodol, lle y nododd ymatebwyr feysydd penodol yn y ffordd o weithredu y gellid eu cryfhau. Roedd yr ymatebwyr a gynigiodd farn a safbwyntiau weithiau'n ystyried bod y cynigion yn cynnwys cyngor a chanllawiau ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Roedd llawer yn cydnabod pwysigrwydd cyngor a chanllawiau clir ac effeithiol er mwyn cefnogi'r symud i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. O'r safbwynt hwn, byddai cyngor a chanllawiau yn hanfodol i helpu i ddehongli a chydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio newydd. Nododd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod yr holl gyngor a chanllawiau yn hygyrch yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac roedd llawer hefyd yn teimlo y byddai hyn yn elwa o addasu gwasanaethau cynghori a chymorth presennol. Roedd pryderon, fodd bynnag, na ddylai darparu gwasanaethau cynghori a chymorth leihau mathau eraill o gymorth, gan gynnwys drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Sancsiynau Sifil

O ran y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r cynigion ynghylch cydymffurfio a defnyddio sancsiynau sifil, ar y cyfan roeddent yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys gogwydd cyffredinol y cynigion, gan gynnwys wrth geisio ymgorffori mwy o gymesuredd mewn fframweithiau cydymffurfio. Roedd rhai yn cynnig cefnogaeth amodol, lle'r oeddent yn cytuno â chyfeiriad cyffredinol y cynigion ond yn dymuno mwy o eglurder neu'n cynnig awgrymiadau penodol ar sut gallai'r cynigion gael eu gwella.

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo mai gwerthfawr yw'r ffordd eang o weithredu gan gynnwys cyfundrefn orfodi a fyddai'n cynnwys sancsiynau sifil. Roedd rhai'n teimlo y byddai mwy o gymesuredd yn werthfawr er mwyn adeiladu ymddiriedaeth ac yn cyfrannu at greu amgylchedd rheoleiddio anwrthdrawol. Yn gysylltiedig â chyngor a chanllawiau effeithiol, clir a dwyieithog yr oedd llawer yn teimlo eu bod yn werthfawr, nododd rhai eto bwysigrwydd helpu ffermwyr a rheolwyr tir i ymgyfarwyddo â'r gofynion sydd wedi'u disgrifio yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd eraill hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig cynorthwyo ac ymgysylltu â'r rhai a allai fod wedi torri'r rheoliadau.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Cymorth yn y Dyfodol

Er bod y teimladau cyffredinol a fynegwyd yn yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd y gefnogaeth rywfaint yn fwy amodol i'r cynigion ynghylch y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel yn achos meysydd eraill yn y Papur Gwyn. Roedd hyn yn dueddol o fod yn ymwneud â phwysigrwydd cael mwy o eglurder ynglŷn â'r cynigion, gan gynnwys gwybodaeth am y mathau o nwyddau cyhoeddus a chyfraddau talu y byddai'r cynllun yn eu cefnogi.

Lle'r oedd y gefnogaeth i'r cynigion ar ei mwyaf, roedd hyn yn dueddol o fod yn ymwneud â chyfeiriad cyffredinol y cynigion gan gynnwys troi oddi wrth gymhorthdal i gynhyrchu a thuag at ddarparu nwyddau cyhoeddus. Roedd pryderon hefyd y dylai cymorth yn y dyfodol fod yn hygyrch i bawb, yn arbennig i ffermydd llai. Nododd yr ymatebwyr hefyd ffactorau ychwanegol y dylid eu cynorthwyo drwy'r cynllun, gan gynnwys nwyddau cyhoeddus ychwanegol, megis amcanion diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal â pharhau i gynorthwyo cynhyrchu bwyd.

Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

Nifer cymharol is o ymatebwyr a gynigiodd eu barn ar yr agwedd hon ar y cynigion. O'r sawl a wnaeth, roedd y mwyafrif yn gefnogol i'r sylw mwy a roddir i ddiwydiant a chadwyni

cyflenwi. Roedd canfyddiad cyffredinol o bwysigrwydd cadwyni cyflenwi i iechyd economaidd ffermio yng Nghymru. O'r safbwyntiau hyn, roedd cynorthwyo diwydiant a chadwyni cyflenwi yn ehangach yn cael ei groesawu, gan gynnwys ysgogi arloesedd a thwf economaidd lleol. Ar y llaw arall, roedd pryderon y byddai'r cynigion yn taenu'r adnoddau sydd ar gael yn rhy denau, gan gynnwys o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Casglu a Rhannu Data

Roedd y teimladau cyffredinol ynglŷn â'r cynigion ynghylch casglu a rhannu data yn gadarnhaol. I rai, y teimlad oedd y dylai polisi ac arferion amaeth gael eu gyrru gan dystiolaeth a data cywir. Teimlwyd y byddai casglu a rhannu data yn elfen bwysig o sicrhau bod y cynigion yn cyflawni'u nodau arfaethedig yn effeithiol. Roedd eraill yn teimlo, er bod casglu data yn bwysig, na ddylai fod yn feichus. Roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi'r ymrwymiad i symleiddio'r broses i'w gwneud yn haws i ffermwyr a rheolwyr tir gasglu a lledaenu gwybodaeth. At hynny, roedd cefnogaeth eang i ddefnyddio data ar gyfer monitro cydymffurfiaeth a rheoleiddio, a defnyddio mwy o dechnoleg newydd megis data Arsylwi'r Ddaear.

Coedwigaeth a Choetiroedd

O ran teimladau cyffredinol tuag at y cynigion ynghylch deddfwriaeth coedwigaeth, nid oedd yma dueddiadau clir. Y mae hyn yn rhannol oherwydd y nifer isel o ymatebion a roddodd farn yn benodol ar gynigion ynghylch coedwigaeth a choetiroedd. O'r sawl a wnaeth ymateb, roedd cefnogaeth i fwriad cyffredinol y cynigion, sef cefnogi ac annog mwy o goetir. Fodd bynnag, roedd rhai'n teimlo y gallai maint yr uchelgais gael effeithiau negyddol ar weithgareddau a sectorau eraill, yn benodol o ran lleihau tir cynhyrchiol at ddibenion eraill. Yn fwy cyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i'r cynigion i hybu a denu buddsoddiad mewn plannu coed trwy farchnadoedd carbon.

Tenantiaethau

O ran teimladau cyffredinol tuag at y cynigion ynghylch tenantiaethau, unwaith eto nid oedd yma dueddiadau clir. Cyfeiriodd ymatebwyr at bwysigrwydd diogelu tenantiaid, gan gynnwys cael mynediad i gymorth a sicrhau y cânt eu gwobrwyo'n ddigonol am stiwardiaeth y tir. Roedd thema fwy ymylol yn cynnwys landlordiaid, a fynegodd bwysigrwydd cysoni'r cymorth a'i wneud yn gydnaws â gofynion penodol y landlord. Roedd cefnogaeth eang, fodd bynnag, ynghylch pwysigrwydd a gwerth y fframweithiau datrys anghydfodau sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion.

Roedd yr ymatebion hefyd yn gadarnhaol gan fwyaf ynghylch y cynigion a chytundebau Cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy, yn benodol wrth gyflwyno cytundebau cynllun ar y cyd fel opsiwn newydd sydd ar gael i denantiaid yn hytrach na'u bod yn disodli cytundebau presennol. Roedd y farn ar fanteision posibl yn canolbwyntio ar gynlluniau amgylcheddol hirdymor megis creu coetiroedd, a fyddai'n fwy hyfyw o dan gytundebau cynllun ar y cyd. Fodd bynnag, daeth pryderon i'r amlwg ynglŷn â'r angen i sicrhau bod taliad i denantiaid a landlordiaid yn adlewyrchu risg a llwyth gwaith yn briodol, a galwodd ymatebwyr am fwy o gymorth gan Gyswllt Ffermio i gynorthwyo i fabwysiadu'r cytundebau ar y cyd yma.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

O'r sawl a roddodd sylwadau ar y cynigion ynghylch pwerau ychwanegol ac Ardaloedd Rheoli Symudiadau, roedd y mwyafrif o blaid y dull gweithredu. Nodwedd allweddol o farn yr ymatebwyr oedd pwysigrwydd gweithredu ymatebion i achosion o glefyd yn gyflym. Roedd hyn yn awgrymu cefnogaeth i bwerau ychwanegol i ymateb mewn amgylchiadau penodol, a chyfeiriodd ymatebwyr yn aml at brofiadau clwy'r traed a'r genau fel sail resymegol i'r cynigion. Teimlwyd bod hyn yn bwysig i liniaru risgiau presennol a rhai a fydd yn codi. Roedd cydnabyddiaeth hefyd o bwysigrwydd deialog ac ymgynghori pan fyddai sefyllfaoedd yn codi lle byddai angen defnyddio pwerau. Dyma oedd barn llawer o ymatebwyr, a oedd yn galw am fwy o ymgysylltu â'r cyhoedd.

Maglau

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y dylid gwahardd defnyddio maglau yn llwyr. Mynegwyd barn gref ynglŷn â lles anifeiliaid, ac roedd rhai ymatebwyr yn galw am fwy o reolaeth/rheoleiddio ac eraill yn galw am waharddiadau llwyr, gan gynnwys ymatebion gan ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon. Roedd hyn yn aml yn canolbwyntio ar y ddealltwriaeth y gallai maglau niweidio rhywogaethau sydd heb eu targedu, yn ogystal ag effeithio ar les rhywogaethau a dargedir. Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo na ddylai'r cynigion effeithio ar allu ffermwyr i ddefnyddio maglau fel ffordd i ddiogelu da byw, gan fod maglau'n cael eu hystyried yn offeryn pwysig i reoli plâu.

Asesiadau Integredig o Effeithiau

Roedd amrywiaeth sylweddol i'w gweld yn ffocws a natur yr ymatebion mewn perthynas â gwerthuso effaith y cynigion. Roedd ystod sylweddol o faterion ac effeithiau yr oedd yr ymatebwyr yn ystyried y byddai'n werthfawr eu hystyried wrth fireinio'r cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Y Gymraeg
- Diwylliant a threftadaeth
- Mynediad cyhoeddus i dir gwledig
- Iechyd a lles ffermwyr
- Canlyniadau economaidd i gymunedau gwledig
- Pryderon amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd
- Olyniaeth a chyfleoedd i bobl ifanc
- Ffermio organig a chynhyrchu bwyd
- Diffinio 'ffermwr actif'

Y Gymraeg

Pan ofynnwyd iddynt ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg, thema allweddol a oedd yn rhedeg drwy'r ymatebion oedd y cyswllt rhwng cymunedau gwledig a'r Gymraeg. O'r safbwyntiau hyn, roedd cefnogaeth i amaethyddiaeth yn bwysig i sicrhau cymunedau gwledig bywiog, ac yn sgil hynny ar gyfer diogelu a hybu'r Gymraeg. Cynigiodd rai awgrymiadau ar sut gallai'r cynigion gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy annog mwy o

ddwyieithrwydd a phwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn Llywodraeth Cymru ac ar draws adrannau.

Themâu Ychwanegol

Daeth nifer o themâu ychwanegol i'r amlwg drwy'r ymatebion hyn. Roedd hyn yn cynnwys barn a safbwyntiau ar elfennau ychwanegol y cynigion, gan gynnwys pwerau ychwanegol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynigion. Ni archwiliwyd y rhain yn benodol yn y cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn nogfen ymgynghori'r Papur Gwyn.

Dywedodd yr ymatebwyr, er enghraifft, y dylai rôl bwysig tir comin dderbyn mwy o sylw ac ystyriaeth yn y ffordd y caiff ei reoli a'i gefnogi'n effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr y byddent yn croesawu parhau i gynnal trafodaeth a dadl ar sut i gefnogi tiroedd comin yn effeithiol drwy'r diwygiadau. Caiff y themâu hyn ac eraill eu harchwilio'n fanylach yn y bennod olaf ond un, Themâu Ychwanegol.

Ymgyfarwyddo â'r Ddogfen hon

Wrth gyfleu canfyddiadau'r dadansoddiad, mae'r adroddiad hwn yn dilyn strwythur cyffredinol y ddogfen ymgynghori ei hun. Ym mhob pob maes penodol o'r cynigion, caiff barn yr ymatebwyr ei dadansoddi'n fanwl mewn penodau unigol ar draws yr adroddiad. Caiff crynodeb trosfwaol cyffredinol ei ddarparu yn y Casgliadau.

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad annibynnol o ymatebion i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Amaeth (Cymru). Mae'n disgrifio crynodeb o farn a safbwyntiau a gynigwyd gan ymatebwyr mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

1.1 Cefndir

Ers pleidlais y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin 2016, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith y penderfyniad ar gymunedau, ffermwyr a rheolwyr tir ledled Cymru. Aeth Llywodraeth Cymru ati i archwilio sut orau i gynorthwyo ffermwyr a rhanddeiliaid amaethyddol eraill ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried amrywiaeth o ddiwygiadau i bolisi amaeth. Mae hyn wedi cynnwys datblygu fframwaith polisi Rheoli Tir yn Gynaliadwy a fydd yn disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn Amaeth (Cymru). Mae'n disgrifio gweledigaeth a chyfeiriad cyffredinol y cynigion, ac yn amlinellu'r deddfau a'r pwerau sy'n ofynnol gan Weinidogion i'w gweithredu. Mae'r Papur Gwyn yn benllanw gwaith ymgysylltu ac ymgynghori manwl â phobl a chymunedau ledled Cymru, gan gynnwys ar osod amcanion a chyfeiriad y diwygiadau.

Er mwyn deall barn a safbwyntiau ffermwyr, rheolwyr tir a'r sawl sydd â budd mewn materion gwledig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hefyd. Estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i randdeiliaid rannu eu barn er mwyn llywio'r gwaith parhaus o ddatblygu a mireinio'r cynigion. Bydd y Papur Gwyn wedyn yn sylfaen i Fil a gaiff ei gyflwyno i'r Senedd.

I weld amlinelliad manwl o'r cynigion penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn, cliciwch ar y ddolen fan yma.

1.2 Yr Ymatebion

Mae'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid sydd â budd mewn amaeth a choedwigaeth, bywiogrwydd cymunedau lleol, a chynnal a gwella'r amgylchedd naturiol. Derbyniwyd cyfanswm o 1,119 o ymatebion dros gyfnod yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys 232 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau, ac 887 arall a gyflwynwyd drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon.

Mae'r rhai a gyflwynodd ymatebion unigol neu sefydliadol yn cynrychioli amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau. Maent yn cynnwys unigolion a sefydliadau sy'n ymwneud â ffermio, coedwigaeth, hybu'r amgylchedd naturiol, neu materion gwledig a pholisi amaeth. Yr oedd hefyd yn cynnwys ymatebion gan sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff masnach a chyrff cynrychioliadol, ac academyddion:

Ffigur 1.1: Cefndir Ymatebwyr Unigol a Sefydliadol



I weld rhestr lawn o'r sefydliadau a gyfrannodd i'r ymgynghoriad, ewch i Atodiad 3.

Er bod yr wybodaeth hon yn rhoi syniad i ni o bwy a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn achos 39 y cant o ymatebwyr unigol a sefydliadol nid oedd modd i ni nodi'n iawn i ba grŵp o randdeiliaid y maent yn perthyn. Mae hyn oherwydd gwybodaeth goll neu anghyflawn a gyflwynwyd yn ymatebion yr ymgynghoriad, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd ar-lein a thrwy e-bost.

Darparwyd data lleoliad gan gyfanswm o 94 y cant o'r ymatebwyr. O'r rhain, roedd 80 y cant o'r ymatebwyr yn seiliedig yng Nghymru. Noder y gallai rhai sefydliadau yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu yng Nghymru fod wedi ymateb o'r tu allan i Gymru ac wedi'u cofnodi fel sefydliadau nad ydynt yn seiliedig yng Nghymru.

1.3 Ymatebion Ymgyrch

Derbyniwyd cyfanswm o 887 o ymatebion drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon. Grŵp eirioli yw'r Gynghrair sy'n ymgyrchu i roi terfyn ar hela, ymladd, a saethu, ac sy'n ceisio hyrwyddo a gwella lles anifeiliaid. Rhoddodd yr elusen eu cefnogwyr ar waith a'u hannog i ymateb i'r ymgynghoriad. O ymatebion yr ymgyrch a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad, cyflwynwyd 474 gan bobl sy'n byw yng Nghymru, 398 ymateb arall gan bobl sy'n byw ledled y Deyrnas Unedig, a 15 ymateb gan bobl yn rhyngwladol.

Yn y gwaith dadansoddi cyffredinol, mae ymatebion yr ymgyrch wedi'u trin ar wahân i ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Dadansoddwyd hapsampl o 25 y cant o'r rhai sy'n byw yng Nghymru i sicrhau bod yr ymatebion yn gyson ac nad oeddent yn trafod materion penodol y tu hwnt i'r ddeddfwriaeth ynghylch defnyddio maglau. Canfu'r dadansoddiad hwn fod ymatebion yr ymgyrch yn canolbwyntio'n gyson ar y farn y dylai maglau gael eu gwahardd yn llwyr. I weld disgrifiad manylach o farn benodol a fynegwyd yn ymatebion yr ymgyrch, gweler y bennod ar Faglau.

1.4 Dull Dadansoddi

Er mwyn deall y materion a'r themâu a godwyd gan ymatebwyr, ym mis Mawrth 2021 comisiynodd Llywodraeth Cymru sefydliad ymchwil annibynnol Wavehill i gynnal dadansoddiad o'r ymatebion. Bwriad y dadansoddiad oedd deall a mapio'r amrywiaeth o farn a safbwyntiau sydd gan yr ymatebwyr mewn perthynas â'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn.

Cynhyrchodd yr ymatebion amrywiaeth o wybodaeth ansoddol. Roedd yr holiadur ar-lein, er enghraifft, yn cyflwyno 21 o gwestiynau yn gofyn i'r ymatebwyr am eu barn, gan gynnwys ar effaith bosibl cynigion penodol. Roedd ymatebwyr eraill wedyn wedi cyflwyno eu hymatebion drwy e-bost, yn crynhoi eu barn gyffredinol ar y cynigion.

Er mwyn dadansoddi'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr, cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad thematig manwl. Mae'r dull hwn yn archwilio pob ymateb yn systematig ac yn tynnu sylw at y themâu a'r materion sy'n cael eu codi. O'r dadansoddiad hwn, mae modd i'r tîm wedyn archwilio pa mor gyffredin yw barn a safbwyntiau penodol.

1.5 Cyfyngiadau

Mae nifer o gyfyngiadau mewn perthynas â'r dadansoddiad hwn sy'n bwysig i'w nodi. Nid yw'r ymatebwyr a fu'n ddigon caredig i gyfrannu eu barn a'u safbwyntiau o anghenraid yn gynrychioliadol o'r gymuned ehangach o ffermwyr, sefydliadau neu unigolion sydd â budd mewn materion gwledig neu amgylcheddol. Mae'r tebygolrwydd uchel o hunan-ddewis a'r nifer cymharol fach o ymatebion gan grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn cynyddu'r posibilrwydd bod gan y rhai a ymatebodd farn a safbwyntiau sy'n wahanol yn ansoddol i farn a safbwyntiau sydd i'w canfod ymysg pobl a chymunedau ledled Cymru yn fwy cyffredinol.

Roedd hefyd amrywiaeth sylweddol yn y lefel a'r dyfnder y gwnaeth yr ymatebwyr ymgysylltu â'r cynigion. Gallai hyn yn rhannol fod oherwydd cwmpas eang y cynigion, ac am fod gwahanol agweddau ar y Papur Gwyn o bwysigrwydd amrywiol i'r ymatebwyr. Arweiniodd hyn at amrywiaeth fawr yn lefelau'r ymgysylltu â'r cwestiynau ymgynghori eu hunain. Ni wnaeth llawer o ymatebwyr ateb pob cwestiwn, ac nid oedd bob amser yn bosibl penderfynu'n iawn beth oedd eu safbwynt yn llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, nid yw absenoldeb data mewn ymateb yn awgrymu nad oes gan yr ymatebydd farn ar yr agweddau penodol ar y cynigion. I weld dadansoddiad o niferoedd yr ymatebwyr a gyfrannodd farn i bob cwestiwn, ewch i Atodiad 2: Niferoedd yr Ymatebion.

Mae'r ffactorau hyn hefyd yn cyflwyno heriau wrth ddadansoddi a chyfathrebu'r cydbwysedd barn. Oherwydd bod nifer fawr o ymatebwyr heb ateb pob cwestiwn, rhaid ystyried dehongliad o'r cydbwysedd barn felly yng nghyd-destun y cwestiynau a ofynnwyd. Mae cyflwyno crynodebau meintiol o'r themâu a'r materion a godwyd gan yr ymatebwyr felly yn debygol o gamgynrychioli'r cydbwysedd barn, ymysg y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ogystal â barn a chanfyddiadau rhanddeiliaid ehangach ledled Cymru.

Rydym felly wedi ceisio cyfathrebu'r cydbwysedd barn yn ansoddol. Dim ond pan fo patrymau clir yn codi y gwnaethom gyfeirio at ba mor gyffredin yw barn, megis pan fo themâu neu deimladau'n gyffredin ar draws ymatebwyr, neu os yw'n farn ymylol gan ychydig yn unig. Yn hyn o beth, mae'r termau ansoddol yn ddangosol o'r farn yn seiliedig ar y rhai a ymatebodd yn unig. Ni ddylid tybio felly bod gosodiadau ynghylch pa mor gyffredin yw barn yn cyfeirio'n ôl yn rhifiadol at gyfanswm nifer y bobl a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad, na'r boblogaeth yn ehangach. O ystyried y cyfyngiadau hyn, y nod fu cyfathrebu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o themâu a materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr yn effeithiol a chywir, yn ogystal â'r rhesymau am fod â barn benodol. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys meysydd posibl o gytuno ac anghytuno rhwng gwahanol grwpiau o ymatebwyr.

Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried bod y dadansoddiad hwn yn dangos rhywfaint o'r farn a'r safbwyntiau sydd gan bobl a chymunedau mewn perthynas â'r Papur Gwyn, yn hytrach na'i fod yn rhoi cyfrif pendant o farn pobl a chymunedau ledled Cymru.

Trown yn awr at amlinellu'r themâu penodol a godwyd ar draws yr ymatebion yn erbyn y meysydd polisi penodol a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

2 Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf am eu barn ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion (Cwestiwn 1).[1]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnwys pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru allu creu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth. Ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig crynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n sail i'r gofynion Trawsgydymffurfio mewn is-ddeddfwriaeth, gan ei haddasu ac ychwanegu ati ychydig lle bo angen. Bydd Llywodraeth Cymru am i'r pwerau fod yn ddigon eang i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn addas at y dyfodol a bod digon o bwerau archwilio i reoleiddwyr allu monitro cydymffurfiaeth.

Elfen allweddol o'r cynigion ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw na fyddant yn codi'r llinell sylfaen reoleiddio bresennol. Yn lle hynny, bydd y cynigion yn ceisio symleiddio'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch Trawsgydymffurfio. Bydd ymgynghoriad manylach ar gwmpas y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ategu'r is-ddeddfwriaeth hon.

Yn gyffredinol, mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr deimladau cadarnhaol tuag at y cynigion ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd hyn yn adlewyrchu, yn benodol ac ymhlyg, bwysigrwydd rhesymoli a symleiddio'r dirwedd reoleiddio bresennol ynghylch ffermio a rheoli tir i lawer o ymatebwyr. Roedd hefyd yn adlewyrchu, i rai, eu bod yn cytuno â chyfeiriad a theimlad cyffredinol y cynigion.

Symlrwydd

Barn gyffredin ymysg yr ymatebwyr oedd y ddealltwriaeth bod y cynigion yn symleiddio a chrynhoi gofynion rheoleiddio presennol. Teimlwyd bod hyn yn beth da i ffermwyr a rheolwyr tir, er enghraifft drwy ei gwneud yn haws i ddehongli rheoliadau'n gywir a chefnogi cydymffurfiaeth:

[1] C1. Beth yw'ch barn chi am: (a) Y ffordd rydym am fynd ati i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol? (b) Yr angen am hyblygrwydd i allu diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol pan fo angen? A oes angen ystyried unrhyw beth arall? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

> *Rydym yn cefnogi crynhoi nifer o reoliadau gwahanol i un darn cydlynol o ddeddfwriaeth. Bydd cael un lle i edrych i weld yr holl reoliadau sy'n cwmpasu amaeth yn ei gwneud lawer yn haws i ffermwyr wybod popeth y mae angen iddynt gydymffurfio ag ef a lleihau'r risg o beidio â chydymffurfio heb yn wybod iddynt.*
>
> Cynghrair Gweithwyr y Tir Cymru

Roedd amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid yn croesawu'r dull gweithredu cyffredinol, gan gynnwys ffermwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd hyn yn cynnwys unigolion a sefydliadau a oedd yn teimlo bod symleiddio ynghyd â mwy o bwyslais ar ffactorau fel amddiffyniadau amgylcheddol a lles anifeiliaid yn gam cadarnhaol:

> *Mae unrhyw gamau i symleiddio'r fframwaith rheoleiddio presennol a'i wneud yn fwy hygyrch a dealladwy yn gam pwysig ymlaen – ac o'r herwydd mae creu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer amaeth yn ddatblygiad i'w groesawu… Caiff ei dybio y byddai unrhyw Safonau Gofynnol o'r fath yn cynnwys cyfeiriad at ofynion statudol mewn deddfwriaeth lles anifeiliaid…*
>
> RSPCA Cymru

Mwy o Eglurder

Thema allweddol a gododd o'r ymatebion oedd pwysigrwydd cael mwy o eglurder ynghylch y cynigion. Roedd rhai'n teimlo nad oedd y Papur Gwyn yn rhoi digon o fanylion ar gynnwys penodol a chwmpas y Safonau Gofynnol i'w galluogi i ffurfio barn resymegol. I'r ymatebwyr hyn, roedd yn anodd dychmygu goblygiadau ymarferol y cynigion. Yn ymhlyg yn yr ymatebion hyn, mae awgrym y gallai fod pryderon ynghylch cwmpas y cynigion a'r effaith bosibl ar eu busnes.

> *Mae'r dull gweithredu yn rhy gyflym. Nid oes digon o fanylion wedi'u rhannu â ffermwyr a rhanddeiliaid er mwyn deall y disgwyliad.*
>
> Unigolyn, Ffermio Eidion

O'r safbwyntiau hyn, gallai'r Papur Gwyn gael ei gryfhau drwy ystyried goblygiadau'r cynigion yn ddyfnach a'u dadansoddi:

> *Y dasg gyntaf y mae'n rhaid ymgymryd â hi yw adolygiad ar raddfa lawn a dadansoddi'r bylchau yn y fframwaith rheoleiddio presennol y mae ffermwyr yn gweithredu ynddo. Mae angen i'r dadansoddiad ystyried y gyfundrefn reoleiddio lawn y mae ffermwyr yn ei dilyn ar hyn o bryd, mae angen iddo ystyried meysydd o ddyblygu, cydlyniad rhwng gwahanol reoliadau, a meysydd lle y mae gwahanol reoleiddwyr yn gweithredu yn yr un cylch. Rhaid iddo edrych ar gymhlethdod rheoleiddio a lle mae diffyg gwybodaeth a chamddealltwriaeth neu gamddehongli rheoliadau.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Nid oedd y rhai a fynegodd y pryderon hyn bob amser yn gwrthwynebu cyfeiriad cyffredinol y cynigion, ond roeddent yn teimlo bod cael eglurhad yn bwysig. Roeddent yn dueddol o gael eu codi gan y rhai sy'n ymwneud yn weithredol â chymunedau ffermio neu'n eu cynorthwyo.

Hyblygrwydd

Yn ogystal â symlrwydd, roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn mynegi cefnogaeth i hyblygrwydd yn y cynigion a'r gallu i addasu safonau'n gyflym. Roedd hyn yn bwysig er mwyn ymateb i heriau a risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ymateb i achosion o glefyd yn gyflym er enghraifft. Aeth rhai'n bellach, gan fynegi bod angen hyblygrwydd ar lefel leol er mwyn ymateb i risgiau lleol penodol, megis gorlifdiroedd ac achosion o glefyd.

> *Rwy'n credu bod gwir angen hyblygrwydd yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn addasu ac ymateb i risgiau a chyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg, ond hefyd blaenoriaethau newydd a allai godi – er enghraifft, i liniaru unrhyw effaith/effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol y newid yn yr hinsawdd.*
>
> Unigolyn, Ffermio

Sefydlogrwydd

Roedd pryderon ymylol hefyd gan rai y gallai'r hyblygrwydd yn y cynigion arwain at newidiadau parhaus i ddisgwyliadau a rheoliadau. O'r safbwyntiau hyn, roedd sefydlogrwydd a pharhad yn bwysig, gan gynnwys er mwyn deall y ddeddfwriaeth ac ymateb iddi:

> *Cytunwn fod angen hyblygrwydd i addasu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol. Rhaid i'r hyblygrwydd hwn gael ei gydbwyso â'r angen i ffermwyr allu cynllunio ar y sail nad ydynt yn ceisio cyflawni targed sy'n newid o hyd. Hynny yw, ni ddylai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol newid mor aml fel na all ffermwyr a rheolwyr tir ddal i fyny.*
>
> Canolfan y Dechnoleg Amgen, Sefydliad Trydydd Sector

Gwasgfa ar Safonau

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r hyblygrwydd yn y cynigion arwain at leihad graddol mewn safonau. O'r safbwyntiau hyn, gallai pwysau gwleidyddol arwain at Weinidogion yn ceisio lleddfu darpariaethau penodol a allai danseilio amcanion ehangach y diwygio, yn benodol mewn perthynas â hybu arferion rheoli tir mwy cynaliadwy:

> *Cytunwn y gallai fod angen hyblygrwydd cyhyd â nad yw hyn yn arwain at ddirywiad yn y safonau gofynnol yn y dyfodol.*
>
> Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn, Grŵp Amgylcheddol

Pwysigrwydd Cynnal Safonau Uchel

Yn gysylltiedig yn agos â'r pryderon hyn, roedd ymatebwyr yn ystyried ei bod yn bwysig cynnal safonau uchel o leiaf cyn uched â lefelau presennol. O'r safbwyntiau hyn, mae'r heriau a wynebwn, yn arbennig mewn perthynas â mynd i'r afael â dirywiad amgylcheddol a'i wrthdroi, yn golygu bod angen gweithredu sylweddol a bod angen i hyn gael ei ddiogelu yn y gyfraith. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ffactorau eraill, megis pwysigrwydd diogelu a chynnal treftadaeth wledig a diwylliannol gyfoethog Cymru:

> *Cefnogwn yn gryf yr ymagwedd gadarn at ddiffinio Safonau Gofynnol Cenedlaethol a fydd yn darparu llinell sylfaen reoleiddio glir a fydd yn berthnasol i ffermwyr yng Nghymru… Fodd bynnag, byddem yn gwrthwynebu unrhyw achos o leihau disgwyliadau o'r safonau trawsgydymffurfio presennol. Bydd yn hanfodol sicrhau bod unrhyw system newydd ar gyfer Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnal o leiaf yr un diogelwch i nodweddion yn y dirwedd nad ydynt yn destun diogelwch statudol arall, megis waliau cerrig, gwrychoedd, a nodweddion hanesyddol eraill...*
>
> Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a'r Cyngor Archaeoleg Brydeinig

Angen i Safonau Fynd Ymhellach

Thema sylweddol a gododd o'r ymatebion hyn oedd, yn gyffredinol, nad yw'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn mynd yn ddigon pell. O'r safbwyntiau hyn, canfyddiad ymatebwyr oedd y byddai'r cynigion a'r dulliau gweithredu y maent yn eu cynnwys yn aneffeithiol o ran cefnogi'r newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod tir yn cael ei reoli'n fwy cynaliadwy yn yr hirdymor:

> *[Rydym yn] cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau bod bwyd yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy ochr yn ochr â mynd i'r afael â nodau Sero-Net, bioamrywiaeth ac iechyd y cyhoedd … Fodd bynnag, mae gennym bryderon bod y dulliau presennol a awgrymir i ddatblygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn annigonol i wireddu'r uchelgeisiau polisi hynny ac yn colli cyfle enfawr i gyflymu'r gweithredu ar yr argyfyngau hinsawdd, natur ac iechyd a darparu dyfodol cynaliadwy i ffermio yng Nghymru.*
>
> Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad

Oddi mewn i'r thema hon, roedd amrywiaeth eang o faterion a ffactorau yr oedd ymatebwyr yn dymuno eu gweld yn amlycach yn y cynigion ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hybu bioamrywiaeth, a chynnal a hybu mynediad i'r tir:

> *Dylai Safonau Gofynnol Cenedlaethol gynnwys cydymffurfiaeth â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol ar y tir, gan gynnwys y rhai mewn perthynas â hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad.*
>
> Unigolyn, Amgylcheddol

Cydweddu Rheoleiddiol a Sicrhau Cystadleurwydd

Roedd safbwyntiau eraill mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau eu bod yn cydweddu â marchnadoedd allweddol ar gyfer cynnyrch o Gymru. O'r safbwyntiau hyn byddai cydweddu rheoleiddiol a chydraddoldeb â gwledydd eraill yn helpu i sicrhau mynediad i'r farchnad a chystadleurwydd. Yn benodol ac ymhlyg yn yr ymatebion hyn yr oedd y canfyddiad y byddai'r cynigion yn codi safonau o'u lefelau presennol, yn cynyddu costau, ac o bosibl yn golygu nad yw ffermydd yng Nghymru yn gystadleuol. Mae hyn yn awgrymu y gallai mwy o eglurder ynglŷn â'r cynigion a sut byddant yn effeithio ar y llinell sylfaen reoleiddio yn werthfawr. Bwriad Llywodraeth Cymru yw seilio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar reoliadau presennol.

> *Er y gallai cyfuno rheoliadau gael ei ystyried yn ffordd synhwyrol o weithredu, mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn yn ceisio codi'r llinell sylfaen reoleiddio i lefel lawer yn uwch na'r hyn y mae'n rhaid i'r ffermwyr hynny mewn gwledydd eraill – gan gynnwys yr Alban, Gogledd Iwerddon a gwledydd yr UE – gydymffurfio â hwy a'r rhai mewn gwledydd y gallai'r Deyrnas Unedig fod yn dymuno masnachu â hwy yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dilyn llwybr o ryddfrydoli masnach, felly bydd angen i ffermwyr Cymru gael eu diogelu yn erbyn y gystadleuaeth hon yn y farchnad fyd-eang a gartref. Ni fydd cynyddu cyfyngiadau a rheoliadau er mwyn 'gwahaniaethu' ein cynnyrch yn unig yn darparu'r diogelwch hwn ac yn anfwriadol yn creu sefyllfa annheg.*
>
> Undeb Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

> *Byddem yn bryderus pe byddai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn galw am fwy nag yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol i ffermwyr yng Nghymru weithredu ar yr un telerau â ffermwyr yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig a'r un mor hanfodol, os yw ein ffermwyr yn gweithredu yn ôl safonau uwch, eu bod yn cael eu diogelu mewn unrhyw gytundebau masnach ac y gallant gael eu gwobrwyo ar sail arian cyhoeddus am nwydd cyhoeddus.*
>
> Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, Ffermio

Y Goblygiadau o ran Cost

Yn gysylltiedig â chydweddu rheoleiddiol a chystadleurwydd, roedd thema ymylol yn cynnwys pwysigrwydd rhoi mwy o ystyriaeth i oblygiadau'r cynigion o ran cost. Yn ymhlyg, roedd hyn yn awgrymu mai canfyddiad rhai yw y gallai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gynyddu'r costau gweithredu i rai ffermwyr a rheolwyr tir, ynghyd â lleihau cymorthdaliadau a chymorth o'u lefelau presennol. Gallai'r safbwynt hwn fod wedi'i lywio gan y canfyddiad y bydd y cynigion yn codi'r llinell sylfaen reoleiddio.

> *…Mae pryder mawr y byddai'r cynnig yn rhoi ffermwyr Cymru dan anfantais sylweddol o gymharu â'u cystadleuwyr drwy dynhau'r rheoliadau, ac y byddai cynnydd mewn*

> *sancsiynau sifil a monitro a llinell sylfaen reoleiddio uwch yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar deuluoedd ffermio.*
>
> Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

Cydymffurfiaeth a Lles Ffermwyr

Mynegwyd pryderon perthynol y byddai'r cynigion yn cynyddu'r ansicrwydd sy'n wynebu ffermwyr a chymunedau gwledig, gan gynnwys wrth lywio amrywiaethau mewn incwm ac wrth ymateb i'r newidiadau i fframweithiau rheoleiddio. Yr oedd canfyddiad y byddai hyn yn cael effaith ar ffermwyr llai:

> *Busnesau bach a chanolig, neu ficrofusnesau hyd yn oed, yw mwyafrif busnesau fferm, ac nid oes ganddynt yr un lefel o gyfalaf ac adnoddau ar gael iddynt ag sydd ar gael i fusnesau mwy i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â myrdd o reolau cyfreithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut mae'n bwriadu ymgysylltu â'r holl ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Myfyriodd yr ymatebwyr ar yr effaith mae gofynion cyfnewidiol yn eu cael ar iechyd meddwl ffermwyr. Croesawyd cynigion am orfodaeth gyfrannol a symleiddio, ond roedd gan rai ymatebwyr bryderon ynglŷn â lefel y newid a allai effeithio'n negyddol ar les ffermwyr, gan gynnwys wrth ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd:

> *Mae ffermydd teuluol yn aml yn gweithredu heb staff ffurfiol ac felly mae'r ffaith bod gofyn cydymffurfio â rheoliadau cymhleth a chyfnewidiol sy'n cynyddu o hyd yn creu baich ychwanegol. Mae'r ofn o wneud camgymeriad syml sy'n arwain at gosb ariannol lem mewn busnes isel ei elw yn sefyllfa gyffredin. Mae Undeb Amaethwyr Cymru felly'n croesawu'r naratif ynghylch cosbau cymesur, gan gychwyn â hysbysiadau 'rhybudd'. Mae'r Undeb yn derbyn llawer o enghreifftiau o gosbau'n cael eu rhoi heb drafodaeth ac mae hyd yn oed asesiad effaith y Papur Gwyn Amaeth yn cydnabod bod i'r lefel o newid "y potensial i effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr"."*
>
> Undeb Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

O'r safbwyntiau hyn, roedd sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u dylunio'n dda mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, yn gydlynol a heb fod yn feichus, yn bwysig wrth ddatblygu a gweithredu'r cynigion.

Pontio i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Roedd pryderon hefyd ynglŷn â chyflymder y pontio i'r gofynion newydd yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. O'r safbwyntiau hyn, mae eglurder a pharatoi yn bwysig. Roedd y safbwyntiau hyn hefyd yn gysylltiedig iawn â phwysigrwydd bod cymorth digonol ar gael i deuluoedd a rheolwyr tir i'w helpu i ddeall y gofynion newydd a phontio iddynt, gan gynnwys drwy grantiau a chyngor a chanllawiau:

Cefnogwn y pwyslais yn y ddogfen ar integreiddio polisïau a symleiddio deddfwriaeth… Fodd bynnag, bydd angen cymorth yn ystod cyfnodau o bontio o'r fath, a bydd cymorth yn hanfodol er mwyn cyflawni'r pontio.

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ymchwil/Academia

Cyn eu creu dylid cael cyfnod hir i sicrhau eu bod yn addas i'r diben, ac ariannu ffermwyr i sicrhau cydymffurfiaeth cyn eu bod yn cael eu gosod.

Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru

Gwella Delwedd Ffermio

Roedd thema ymylol arall a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys pwysigrwydd gwella delwedd ffermio. O'r safbwyntiau hyn, roedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol ffermio, a photensial y diwygiadau i wella delwedd cynnyrch o Gymru.

Da i safonau bwyd a delwedd ffermydd yng ngolwg y cyhoedd.

Unigolyn, Ffermio Eidion

Gweledigaeth a Bwriad

Nododd llawer o ymatebwyr eu bod y teimlo bod y cynigion yn disgrifio gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. O'r safbwyntiau hyn, roedd y ffocws ar gynaliadwyedd yn cael ei groesawu, ac ystyriwyd bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol wrth weithio i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol a wynebwn, gan gynnwys o ran yr amgylchedd.

Croesawn yr awydd i symleiddio fframwaith reoleiddio Cymru. Mae angen i ni osod llinell sylfaen glir er mwyn gwella safonau amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd. Mae pontio i ddulliau rheoli mwy cynaliadwy a mynnu gwell canlyniadau i'n hecosystemau yn hanfodol er mwyn i ni fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol.

Plantlife, Trydydd Sector

3 Cyngor a Chanllawiau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ar y cyngor a'r canllawiau a ddylai fod ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cwestiwn 2). [2]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cyngor a chanllawiau priodol a hygyrch. Byddai hyn yn bwysig er mwyn hwyluso diwygio'r drefn reoleiddio a helpu'r diwydiant amaeth i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol a fwriedir trwy'r rheoliadau. Bydd angen rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau cynyddu dealltwriaeth o'r canlynol:

- Y gofynion cyfreithiol y bydd yn rhaid i bob ffermwr gydymffurfio â nhw.
- Y disgwyliadau o ran monitro cydymffurfiaeth.
- Y drefn orfodi, fel sancsiynau troseddol neu sifil, a ddefnyddir pan dorrir rheolau.

Unwaith eto, yn gyffredinol, roedd y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr tuag at ddarpariaethau ynghylch y Papur Gwyn a chyngor a chanllawiau yn dueddol o fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd lefelau uwch o gefnogaeth amodol, lle y nododd ymatebwyr feysydd penodol y gellid eu cryfhau yn y ffordd o weithredu. Roedd yr ymatebwyr a gynigiodd farn a safbwyntiau weithiau'n ystyried bod y cynigion yn cynnwys cyngor a chanllawiau ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Pwysigrwydd Cyngor a Chanllawiau

Thema allweddol a nodwyd gan lawer o ymatebwyr oedd pwysigrwydd cyngor a chanllawiau effeithiol i gynorthwyo'r pontio i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. O'r safbwyntiau hyn, byddai cyngor a chanllawiau yn hanfodol i gynorthwyo i ddehongli a chydymffurfio â'r fframwaith rheoleiddio newydd.

> *Mae'n holl-bwysig y dylai pob tirddaliadaeth ym mhob rhanbarth gael asesiad teg a chydradd o'u cydymffurfiaeth a'u cymhwysedd. Heb hyn bydd y ddeddfwriaeth, waeth pa mor dda y caiff ei drafftio, yn aneffeithiol… Bydd y cymorth a ddarperir mewn perthynas â chyflwyno'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn hanfodol i'w gweithredu a'u llwyddiant neu fethiant.*
>
> H W Forestry Ltd, Coedwigaeth

[2] C2. Beth yw eich barn chi ynghylch: (a) Sut gall cyngor a chanllawiau helpu ffermwyr i ddeall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; ac (b) Yr ystyriaethau eraill wrth roi cyngor a chanllawiau? Er enghraifft, ffurf y canllaw, pwy ddylai ei ddarparu, hyd a lled y canllaw a sut gallai gwasanaethau cynghori helpu ffermwyr. Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn.

> *Bydd llwyddiant y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a nod cyffredinol Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn dibynnu ar lefel, hygyrchedd ac ansawdd y cymorth, hyfforddiant a chyngor a gynigir.*
>
> Maint Cymru, Amgylcheddol

Roedd yr ymatebwyr a nododd y thema hon hefyd yn aml yn cyfeirio at faint a chwmpas y diwygiadau fel y rheswm allweddol am sicrhau cyngor a chanllawiau effeithiol:

> *Mae'n debygol mai gadael yr Undeb Ewropeaidd a fframwaith cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin fydd y newid unigol mwyaf y mae busnesau fferm wedi'i weld mewn mwy na chenhedlaeth, a bydd yn hanfodol darparu cyngor a chymorth o ansawdd da i helpu ffermwyr a rheolwyr tir i addasu i'r system newydd a'r fframwaith safonau newydd.*
>
> Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Trydydd Sector

Eglurder Cyfathrebu

Er mwyn i gyngor a chanllawiau ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu cyfathrebu'n effeithiol, teimlwyd hefyd y dylai fod y glir a manwl gywir. Roedd hyn yn aml yn golygu cyfathrebu'n gryno, ac mewn ffordd ymarferol, hawdd ei dehongli. Teimlwyd bod hyn yn bwysig i helpu ffermwyr a rheolwyr tir i ddeall ac ymateb i'r gofynion sydd wedi'i disgrifio yn y darpariaethau:

> *Dylai'r canllawiau fod yn glir ac wedi'u hysgrifennu heb jargon mewn ffyrdd y gall ffermwyr eu deall a'u dehongli. Dylai fod gwefan neu dudalen glir y gall ffermwyr ei defnyddio i ddod o hyd i unrhyw newidiadau. Dylai newidiadau mewn safonau gael eu hysbysebu'n eang gyda chymaint â phosibl o rybudd ymlaen llaw a chyngor ar ffyrdd ymarferol i gydymffurfio.*
>
> Rhwydwaith Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, Undeb Llafur

Cafodd y ddwy thema yma, gan gynnwys pwysigrwydd darparu cyngor a chanllawiau ac eglurder cyfathrebu, eu mynegi gan amrywiaeth eang o grwpiau rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys rhai a oedd yn ymwneud â ffermio ynghyd â rheolwyr tir eraill.

Pwysigrwydd Darpariaeth Ddwyieithog

Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod yr holl gyngor a chanllawiau'n hygyrch yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd darpariaeth a chyfathrebu dwyieithog wrth gynorthwyo pobl a chymunedau ledled Cymru:

> *Ag ystyried pwysigrwydd y Gymraeg i'r sector a'r ffaith mai'r Gymraeg yw iaith naturiol bob dydd canran uchel o amaethwyr yng Nghymru, byddwn am weld yr ymrwymiad i gyfathrebu yn Gymraeg fel prif iaith yn parhau ac yn cryfhau o dan unrhyw drefniadau newydd. Credwn y dylid datgan ymrwymiad clir y bydd y*

gwasanaeth cynghori yn mynd ati i wella capasiti a sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu amaethyddol a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector.

Comisiynydd y Gymraeg

Addasu Darpariaeth Cyngor a Chanllawiau Presennol

Wrth gyfathrebu goblygiadau'r diwygiadau i ffermwyr a rheolwyr tir eraill, roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai hyn yn elwa o addasu gwasanaethau cynghori a chymorth presennol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y trefniadau newydd ynghylch cyngor a chanllawiau'n adeiladu ar arferion gorau a pherthnasoedd presennol er mwyn helpu ffermwyr i ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd ynghylch y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

I lawer o ffermwyr yng Nghymru, eu cyswllt cyntaf yw'r Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio. Mae cael wyneb cyfarwydd y gallant droi ato am gymorth yn holl bwysig o ran gweithredu'r cynllun a hefyd o ran iechyd a lles ffermwyr. Trwy ddarparu gwybodaeth am y safonau trwy berson neu gorff mae'r ffermwyr yn ymddiried ynddo, mae'r ffermwyr yn fwy tebygol o ofyn am gyngor ac arweiniad er mwyn gweithredu'r safonau yn gywir.

Menter a Busnes

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at amrywiaeth eang o sefydliadau a allai gynorthwyo'r pontio a darparu cyngor a chanllawiau effeithiol ar faterion penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyngor a chanllawiau ar faterion megis lles anifeiliaid, treftadaeth, bioamrywiaeth, a choedwigaeth:

Mae gan Gymru fframwaith sefydledig o adnoddau a staff ag arbenigedd sydd mewn sefyllfa dda i ddarparu'r cyngor a'r canllawiau hyn, gan gynnwys Cadw, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol) a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru... Bydd sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol wedi'i ddiogelu'n ddigonol o dan y trefniadau newydd yn dibynnu ar weithredu gweithdrefnau clir ac effeithlon ar gyfer derbyn cyngor proffesiynol wedi'i ariannu'n briodol a gweithredu ar y cyngor hwnnw.

Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol: Cymru

Mae darparu cyngor a chanllawiau yn hanfodol er mwyn gwireddu dyheadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Byddem yn disgwyl gweld rhaglen ymwybyddiaeth yn cael ei hyrwyddo ledled y wlad drwy bob un o'r cyfryngau ynghyd â chyflwyniadau rhanbarthol a chymunedol wyneb yn wyneb lle y gellid mynegi pryderon yn y sicrwydd o dderbyn atebion credadwy. Byddai cynghorwyr annibynnol, undebau ffermio, grwpiau cadwraeth ac ati a fyddai'n dymuno cynnig eu gwasanaethau i'r sector yn derbyn briffiau manwl cyn i'r rhaglen gael ei lansio.

Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

Arloesi wrth Ddarparu Cyngor a Chanllawiau

Roedd thema allweddol arall yn cynnwys y canfyddiad y byddai mwy o arloesi o fudd i ddarparu cyngor a chanllawiau. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio mwy o ddulliau ymgyfranogol wedi'u harwain gan gymheiriaid i gynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir a lledaenu cyngor a chanllawiau. Teimlwyd y byddai hyn o fudd nid yn unig er mwyn cynorthwyo ffermwyr ynghylch cydymffurfiaeth, ond hefyd ar gyfer estyn amaethyddol, a chyfnewid a lledaenu gwybodaeth a syniadau newydd ynghylch arferion amaethyddol a rheoli tir effeithiol a chynaliadwy:

Mae angen i Gymru sicrhau bod dysgu rhwng cymheiriaid yn brif flaenoriaeth ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Llawer o'r bobl fwyaf cymwys i roi cyngor a chanllawiau ar Reoli Tir yn Gynaliadwy i reolwyr tir yw'r rhai sydd eisoes yn arfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae angen cymorth ar arloeswyr presennol ym maes Rheoli Tir yn Gynaliadwy i gofnodi a rhannu eu gwybodaeth, profiad a chyngor.

Y Gymdeithas Figan, Trydydd Sector

Rydym yn falch i weld bod pwysigrwydd cyngor a chanllawiau yn cael ei gydnabod yn y Papur Gwyn i sicrhau llwyddiant cynllun newydd. Dylai modelau cyflawni newydd adeiladu ar sianeli a dulliau presennol, a dylent fanteisio ar brofiadau a enillwyd, ac astudiaethau achos o brosiectau megis Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru (a'r prif bartneriaid) mewn meysydd gwaith perthnasol.

Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru, Trydydd Sector

Ehangu'r Cyngor a Chanllawiau a Ddarperir

Yn fwy ymylol, roedd rhai'n teimlo y byddai gweithredu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn elwa o ehangu'r modd y caiff cyngor a chanllawiau eu darparu ar hyn o bryd. Byddai hyn yn galw am ymrwymiad, amser ac adnoddau ychwanegol i lenwi bylchau amlwg lle y maent yn bodoli:

> *Y ffactor pwysicaf fan yma yw bod angen llawer mwy o gapasiti na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i ddarparu'r fath gymorth a chanllawiau, boed yn fewnol drwy staff ychwanegol yn Llywodraeth Cymru, neu drwy gontractio grwpiau cynghori ffermio a choedwigaeth.*
>
> Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin, Amgylcheddol

Y Goblygiadau o ran Cost

Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo bod goblygiadau o ran cost o ddarparu cyngor a chanllawiau ehangach neu ychwanegol. O'r safbwyntiau hyn, roedd rhai'n teimlo y gallai trefniadau cyngor a chanllawiau presennol gael eu symleiddio a'u gwneud yn fwy effeithlon. Yn benodol ac ymhlyg, roedd hyn yn cael ei yrru gan bryderon y byddai darparu gwasanaethau cynghori eang eu cwmpas yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi elfennau eraill y cynigion, gan gynnwys drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

> *Hoffem weld ffyrdd newydd o ddarparu cyngor a hyfforddiant sy'n lleihau costau a straen ar arian cyhoeddus. Ychydig o ffermydd a all fforddio cyngor ac mae yno hyder annigonol bod cyngor yn arwain at well perfformiad (yn gywir neu beidio). Rhaid i gymorth cynghori fod yn ddefnyddiol ac wedi'i dargedu, a heb fod yn defnyddio cyfran anghymesur o'r arian sydd ar gael. Nid ydym [eisiau] gweld canlyniad o gannoedd o ymgynghorwyr a chynghorwyr, a ffermwyr yn gweithio hyd yn oed yn galetach i aros yn llonydd.*
>
> Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol, Ffermio

Annibyniaeth y Cyngor a'r Canllawiau

Thema arall, fwy ymylol, oedd pwysigrwydd darparu cyngor ac chanllawiau annibynnol i ffermwyr a rheolwyr tir. O'r safbwynt hwn, byddai annibyniaeth y cyngor yn helpu i adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltiad â'r broses, ac yn hybu ymatebion i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

Dylai'r canllawiau fod yn ddwyieithog ac mewn iaith syml, gan osgoi jargon cyfreithiol a chynnwys enghreifftiau o gamau ymarferol y gellir eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth (gan ei gwneud yn glir pan fo rhywbeth yn enghraifft yn hytrach na'i fod yn ofynnol). Dylai canllawiau fod ar gael yn ysgrifenedig ac ar lafar, pan fo angen eglurhad ar ffermwyr. Dylai gael ei ddarparu gan wasanaethau cymorth megis Cyswllt Ffermio. Pe caiff ei ddarparu gan Gyfoeth Naturiol Cymru neu reoleiddwyr eraill, dylai'r elfen gynghori fod ar wahân i'r elfen reoleiddio fel nad yw ffermwyr yn osgoi gofyn am gyngor am fod arnynt ofn y canfyddir nad ydynt yn cydymffurfio.

Tyddyn Teg, Ffermio Garddwriaeth

4 Sancsiynau Sifil[3]

Mae agwedd arall ar y cynigion sy'n cael ei harchwilio yn yr ymgynghoriad yn cynnwys y dulliau a'r pwerau sylfaenol sydd eu hangen i gefnogi ac annog cydymffurfiaeth â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid a Rheoliadau Coedwigaeth (Cwestiwn 3).

Crynodeb o'r Cynigion

Drwy'r Papur Gwyn, mae Llywodraeth Cymru eisiau sefydlu system reoleiddio gymesur sy'n ceisio cefnogi ac annog cydymffurfiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai gorfodaeth fod yn gymesur ac am roi mwy o rôl i sancsiynau sifil oddi mewn i ddulliau gorfodi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan reoleiddwyr y gallu i ddefnyddio amrywiaeth eang o sancsiynau i orfodi cydymffurfiaeth, sy'n adlewyrchu difrifoldeb yr achos o ddiffyg cydymffurfio i orwedd ochr yn ochr ag erlyniadau presennol. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i sicrhau bod gan reoleiddwyr ddulliau effeithiol i atal y rhai sy'n parhau i beidio â chydymffurfio neu lle mae'r tramgwydd yn ddifrifol. Yn achos y tramgwyddau mwyaf difrifol, lle mae niwed difrifol wedi'i achosi, bydd erlyniadau troseddol yn dal i fod yn ofynnol.

Mae Llywodraeth Cymru felly yn cynnig mynd i'r afael â gorfodaeth fesul cam mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth i ddifrifoldeb yr achosion o ddiffyg cydymffurfio ac a ydynt yn ailadrodd:



Byddai'r cynigion yn cynnwys dulliau gorfodi mewn perthynas â'r:

[3] C3. Beth yw eich barn am y cynigion ynghylch sancsiynau sifil er mwyn gallu gorfodi'r rheoliadau mewn ffordd gymesur? A oes ystyriaethau eraill sydd eu hangen? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posib sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn.

- Safonau Gofynnol Cenedlaethol;
- Rheoliadau iechyd a lles anifeiliaid;
- Rheoliadau coedwigaeth a rheoli coetiroedd.

O ran teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr ynglŷn â'r cynigion ynghylch cydymffurfio a defnyddio sancsiynau sifil, ar y cyfan roeddent yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys gogwydd cyffredinol y cynigion, gan gynnwys wrth geisio ymgorffori mwy o gymesuredd mewn fframweithiau cydymffurfio. Roedd rhai yn cynnig cefnogaeth amodol, lle'r oeddent yn cytuno â chyfeiriad cyffredinol y cynigion ond yn dymuno mwy o eglurder neu'n cynnig awgrymiadau penodol ar sut gallai'r cynigion gael eu gwella.

Cymesuredd

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gweithredu mewn ffordd eang gan gynnwys cyfundrefn orfodi a fyddai'n cynnwys sancsiynau sifil yn werthfawr. O'r safbwyntiau hyn, byddai cyfundrefn o'r fath yn creu'r amodau iawn i gydymffurfio. Yn benodol ac ymhlyg, roedd pryder bod diffyg cydymffurfio weithiau'n ganlyniad i gamddeall y rheoliadau, yn hytrach nag ymgais bwriadol i fynd o'r tu arall i'r rheolau. Teimlwyd y byddai defnyddio mwy o sancsiynau sifil yn fesur mwy cost-effeithiol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth:

> *[Rydym] yn llwyr gefnogi'r cynigion ar gyfer sancsiynau sifil ac wedi bod yn annog hyn yn weithredol fel offeryn ychwanegol i ymdrin ag amgylchiadau lle nad yw troseddau yn cyfiawnhau sancsiynau mwy difrifol. Gallai hyn fod yn ymwneud â chostau erlyniadau a all fod yn afresymol yn enwedig yng nghyd-destun defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus neu yn sgil y math o drosedd a gyflawnwyd a chymesuredd.*
>
> Safonau Masnach Cymru, Sector Cyhoeddus

Creu Amgylchedd Cadarnhaol

Roedd rhai'n teimlo y byddai mwy o gymesuredd yn werthfawr er mwyn adeiladu ymddiriedaeth ac yn cyfrannu at greu amgylchedd rheoleiddio anwrthdrawol. O'r safbwyntiau hyn, mae'n werthfawr creu strwythurau sy'n ceisio gweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir eraill, gan gynnwys gweithredu'n fwy ar ffurf camau tuag at sicrhau cydymffurfiaeth. Mynegwyd hyn weithiau yn nhermau'r gofynion presennol, yr oedd rhai ymatebwyr yn teimlo eu bod yn anghymesur ac yn tanseilio ymddiriedaeth yn y system. O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o gymesuredd a gwelliannau eraill i gydymffurfiaeth yn fuddiol:

> *Cytunwn y dylai gorfodaeth fod yn gymesur â'r tramgwydd perthnasol, ac, mewn egwyddor, y dylai fod gan reoleiddwyr nifer o offer ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r amryw dramgwyddau a allai ddigwydd. Yn anffodus, mae gan ffermwyr yng Nghymru brofiad sylweddol drwy weithrediad cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru, o gyfundrefn orfodi nad yw, mewn llawer o achosion, yn gymesur. Yn cyd-fynd â hynny, matrics o gosbau sy'n arwain at gosbau sydd heb*

> *unrhyw berthynas â natur yr achos o diffyg cydymffurfio. Mae hefyd gennym brofiad sylweddol o gosbau'n cael eu rhoi'n anghywir, fel a ddangosir gan nifer y cosbau sy'n cael eu gwrthdroi drwy apêl. Prin yw hyder neu ymddiriedaeth ffermwyr yn y system orfodi, cosbi ac apelio sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Roedd yn ymddangos bod dehongliadau amrywiol o'r cynigion, wrth i rai ymatebwyr fyfyrio ar eu profiadau o orfodaeth mewn cynlluniau ffermio presennol, ynghyd â barn ar orfodi'r gyfraith. Fodd bynnag, mae'r ddwy elfen yn wahanol, ac oddi mewn i'r cynigion yr amcanion ynghylch gorfodi rheoleiddiol yw rhoi i reoleiddwyr amrywiaeth o ddulliau i wella cymesuredd y modd y caiff y gyfraith ei gorfodi.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn mynegi'r safbwyntiau hyn hefyd yn gwerthfawrogi'r egwyddor o weithio gyda'r rhai y canfyddir nad ydynt yn cydymffurfio. Mewn rhai achosion, gan gynnwys achosion o ddiffyg cydymffurfio amaethyddol ac amgylcheddol lefel is, teimlwyd bod archwilio ffyrdd i unioni'r sefyllfa yn hytrach na rhoi cosbau yn ffordd fwy effeithiol o gynyddu cydymffurfiaeth yn gyffredinol. O'r safbwyntiau hyn, er mwyn bod yn effeithiol byddai hyn yn galw ar i gosbau ariannol penodedig ac amrywiadwy fod yn seiliedig ar gost unioni'r broblem, ond yn uwch na chost cydymffurfio yn y lle cyntaf.

Cyfathrebu Effeithiol

Yn gysylltiedig â chyngor a chanllawiau effeithiol, clir a dwyieithog yr oedd llawer yn eu hystyried yn werthfawr, pwysleisiodd llawer unwaith eto bwysigrwydd helpu ffermwyr a rheolwyr tir i ymgyfarwyddo â'r gofynion sydd wedi'u disgrifio yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. O'r safbwyntiau hyn, mae'n bwysig sicrhau bod ffermwyr yn deall y rheoliadau newydd, ac yn eu cynorthwyo i gydymffurfio:

> *Mae sancsiynau sifil yn ymddangos yn ffordd synhwyrol ymlaen; fodd bynnag, byddwn yn gobeithio y caiff y cynnig hwn ei ddatblygu, a'i gyflawni yn y pen draw, law yn llaw â'r cynllun cynaliadwyedd fferm, fel bod achos posibl o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei weld a'i ddehongli ac y gweithredir arno, mewn perthynas â fferm a chyd-destun penodol… Nid yw unrhyw ran o'r system bresennol yn eglur i mi; nid wyf chwaith yn gwybod sut i ddod i wybod amdano. Unwaith eto, dylai canllawiau gael eu darparu fel uchod* [yn y cynigion ynghylch cyngor a chanllawiau]*, ar gyfer y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*
>
> Unigolyn, Ffermio

Cyfathrebu ac Ymgysylltu mewn perthynas â Thramgwyddau Posibl

Roedd eraill yn teimlo y byddai'n werthfawr cynorthwyo ac ymgysylltu â'r ffermwyr a'r rheolwyr tir hynny a allai fod wedi tramgwyddo. O'r safbwyntiau hyn, byddai cynnal deialog adeiladol a rhoi amser i ffermwyr a rheolwyr tir i unioni'r sefyllfa cyn gosod sancsiynau yn werthfawr. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion pan fo'r tramgwyddau posibl yn anfwriadol:

Manteision cadarnhaol datblygu sancsiynau sifil yw'r ystod fwy o offer gorfodi mwy addas, yn amrywio o orchmynion stopio a gwella i ddirwyon ar raddfa symudol. Bydd y system fwy cynnil hon heb os yn arwain at weithredu mwy o gamau gorfodi a gobeithio y byddant yn cyflymu gwelliannau. Mae pryderon y gallai'r gorfodi fod yn oreiddgar ynghyd ag anghydbwysedd mewn gwybodaeth a allai arwain at reolwyr tir yn cael eu targedu heb gymorth digonol i wella neu unioni tramgwyddau anfwriadol.

Confor: Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Y DU)

Cydymffurfio, Cydraddoldeb ac Atal

Roedd thema allweddol arall yn seiliedig ar bryderon na fyddai sancsiynau sifil o bosibl yn effeithiol o ran annog cydymffurfiaeth mewn amgylchiadau penodol. O'r safbwyntiau hyn, gallai rhai fod mewn sefyllfa i ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â sancsiynau sifil:

Dylai'r rheoliadau gael eu targedu'n well at dramgwyddwyr cyson a'r rhai sy'n torri'r rheolau'n ddigywilydd neu'n fwriadol. Er enghraifft, awgrymwyd bod rhai ffermwyr yn rhoi ystyriaeth i gosbau ariannol yn eu costau busnes. Mae hyn yn ffynhonnell enfawr o rwystredigaeth i ffermwyr sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cynhyrchu bwyd mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd.

Grŵp Llywio Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru

Gan grwpiau amgylcheddol y mynegwyd y pryderon hyn yn bennaf, ac roedd rhai ohonynt yn teimlo na fyddai defnyddio cosbau penodedig yn rhwystr digonol. Fodd bynnag, mae'r cynigion am roi amryw offer i reoleiddwyr sy'n gymesur â difrifoldeb y tramgwydd ac a yw'n ailadrodd, gan gynnwys cosbau ariannol amrywiadwy ac erlyniadau troseddol presennol. Roedd yr ymatebwyr a fynegodd y pryderon hyn yn teimlo bod ymagwedd o'r fath yn bwysig er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol ag arferion rheoli tir sy'n achosi niwed anadferadwy i'r amgylchedd a rhwystro arferion o'r fath. O'r safbwyntiau hyn, er mwyn i gyfundrefn orfodi fod yn effeithiol, gallai fod angen i gamau gorfodi ymestyn i erlyniadau troseddol mewn amgylchiadau penodol:

Un maes y mae aelodau'n teimlo a allai fod yn destun pryder yw'r opsiwn i ddarparu budd amgylcheddol cyfwerth, a allai fod ar ffurf rhodd i achos amgylcheddol, os oes niwed anadferadwy wedi'i wneud. Teimlwn fod hon yn egwyddor beryglus a allai fethu ag atal yr ymddygiadau anghywir. Dylai niwed anadferadwy a achosir gan weithred neu esgeulustod bwriadol yn hytrach arwain at erlyniad troseddol.

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Pryderwn nad yw sancsiynau sifil (h.y. dirwyon) yn dilysu cydymffurfio rheoleiddiol i'r sawl a all eu fforddio. Mae hyn yn berygl yn benodol pan fo manteision ariannol peidio â chydymffurfio lawer yn fwy na swm unrhyw ddirwy, er enghraifft yng nghaniatâd

> *cynllunio datblygiad. Dylai ailadrodd tramgwyddau a niwed anadferadwy arwain at erlyniad troseddol.*
>
> Coed Cadw, Amgylcheddol

Gorfodi

Teimlwyd bod sicrhau adnoddau digonol a dulliau i orfodi unrhyw gyfundrefn sancsiynau yn bwysig. Yn ymhlyg yn rhai o'r ymatebion hyn oedd y canfyddiad nad dyma oedd yr achos o dan y trefniadau presennol. Roedd ar gyrff rheoleiddio felly angen pwerau ac adnoddau digonol i orfodi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

> *Dylai sancsiynau fod yn gymesur â'r tramgwydd ond rhaid i'r rheoliadau gael eu cefnogi gan staff a gallu i ymchwilio i dramgwyddau a gorfodi sancsiynau.*
>
> Unigolyn, Ffermio Eidion

> *Ar hyn o bryd, fel a nodir yn y papur, nid oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru fynediad i'r un pwerau ag sydd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ymgymryd â gorfodi. O ystyried y cyfleoedd y mae'r bil hwn yn eu cyflwyno ar gyfer diwygiadau rheoleiddiol yn y dyfodol, byddai'n rhesymol disgwyl i unrhyw asiantaeth sy'n gorfodi rheoliadau yng Nghymru feddu ar y capasiti perthnasol i weithredu a monitro'r safonau cyfreithiol.*
>
> Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

O'r safbwyntiau hyn, a oedd yn thema a gododd dro ar ôl tro, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod monitro'n agwedd bwysig ar orfodi. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd ymrwymiad ac adnoddau i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio yn effeithiol, ynghyd â strategaethau adferol:

> *Ni fydd rheoliadau da ar eu pen eu hunain yn effeithiol os na chaiff y gorfodi ei ariannu neu'i flaenoriaethu'n briodol. Dylai rheoleiddwyr gael eu hariannu'n briodol ac ymgymryd â gorfodi ar sail risg, gan ganolbwyntio ar ffermydd sydd mewn risg arbennig o uchel megis unedau wedi'u gosod yn ddwys a rhai sydd â chymhareb uchel rhwng stoc a thir. Fodd bynnag, y dull cyntaf y dylid ei fabwysiadu yw meithrin hinsawdd o annog newid a hwyluso cyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys cymorth rhwng cymheiriaid.*
>
> Synnwyr Bwyd Cymru

Lleihau Beichiau Gweinyddol

Roedd thema fwy ymylol yn seiliedig ar bwysigrwydd lleihau baich gweinyddol cydymffurfio ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir. O'r safbwyntiau hyn, roedd cydymffurfio a fframweithiau rheoleiddio cyffredinol yn creu galwadau sylweddol, yn arbennig i ffermwyr llai. Gall fod i hyn oblygiadau negyddol i ffermwyr, gan gynnwys cynyddu ansicrwydd. Roedd dulliau sy'n ceisio lleihau neu symleiddio monitro a gorfodi yn cael eu hystyried yn werthfawr:

Credwn y dylai archwiliadau gwarant fferm gael eu derbyn i ddiffinio cydymffurfiaeth reoleiddio, er mai safonau preifat yw'r rhain ac nad yw cyrff gwarant yn asiantaethau gorfodi. Mae'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer gwarant fferm yng Nghymru ar yr un lefel neu ar lefel uwch na'r safonau rheoleiddio gofynnol presennol. Credwn y gall dibynnu ar warant fferm ysgafnhau'r llwyth rheoleiddio ar Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, a derbyniwn rôl archwiliadau ar sail risg a hap-archwiliadau i ysgogi cydymffurfiaeth. Yn gyffredinol, hoffem weld y defnydd o annog ac ysgogi cydymffurfiaeth – mwy o'r foronen na'r wialen.

Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru

5 Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Cymorth yn y Dyfodol[4]

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ynglŷn â natur ac amcanion cymorth a gyflawnir yn y dyfodol drwy fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Cwestiwn 4).

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai holl bolisi amaeth adlewyrchu egwyddorion trosfwaol cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiffinio Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel a ganlyn:

Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys pridd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, i gynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol pobl gan ddiogelu yr un pryd botensial tymor hir yr adnoddau hyn a chynnal a gwella'u manteision amgylcheddol.

Bydd y polisi hwn yn sicrhau y gall canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arferion rheoli tir gael eu cyflawni er lles tymor hir pobl Cymru. Bydd y cynigion yn ceisio cynorthwyo a gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir yn briodol am gynhyrchu nwyddau nad oes marchnad iddynt. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwella pridd, aer glân, dŵr glân, gwella bioamrywiaeth, a gweithredu i arafu cynhesu byd-eang. Dylai hyn lywio'r amrywiaeth o gymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorthdaliadau, buddsoddi mewn seilwaith, cyngor, datblygu sgiliau a hyfforddiant, ymchwil, a datblygu marchnadoedd. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru am hybu cydnerthedd a chynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol ar draws y sector amaeth.

Er bod y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr yn gymharol gadarnhaol, roedd y gefnogaeth rywfaint yn fwy amodol i'r cynigion ynghylch y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel ym meysydd eraill y Papur Gwyn. Roedd hyn yn dueddol o fod yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cael mwy o eglurder ynghylch y cynigion, gan gynnwys gwybodaeth am y mathau o nwyddau cyhoeddus a chyfraddau talu y byddai'r cynllun yn eu cefnogi.

Ffocws ar Ddarparu Nwyddau Cyhoeddus

Lle'r oedd y gefnogaeth i'r cynigion ar ei mwyaf, roedd hyn yn dueddol o fod yn seiliedig ar gyfeiriad cyffredinol y cynigion gan gynnwys troi oddi wrth gymhorthdal i gynhyrchu a thuag at ddarparu nwyddau cyhoeddus:

> *Rwy'n cytuno â'r dibenion sydd wedi'u hamlinellu ar gyfer cynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni nwyddau nad oes marchnad iddynt.*

[4] C4. Beth yw'ch barn am y dibenion a gynigir ar gyfer talu ffermwyr i SLM? A oes dibenion eraill yn eich barn chi sydd angen eu hystyried? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Unigolyn, Ffermio Eidion

> *Mae ymadawiad Cymru o'r Undeb Ewropeaidd – a diwedd Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru yn sgil hynny – yn gyfle delfrydol i symud i ffwrdd o system daliadau i ffermwyr sy'n ysgogi cynhyrchu dwys; tuag at un sy'n gwobrwyo safonau uchel o les anifeiliaid fferm.*

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid Cymru (RSPCA) Cymru, Trydydd Sector

O'r safbwyntiau hyn, roedd yr heriau mewn perthynas â'r amgylchedd yn golygu bod angen cymryd camau sylweddol. Dylai cymorthdaliadau cyhoeddus geisio cynorthwyo ac annog arferion rheoli tir mwy cynaliadwy, a byddai'r ymagwedd gyffredinol sydd wedi'i hamlinellu yn y Papur Gwyn yn effeithiol:

> *Rydym yn croesawu'r dibenion a gynigir ar gyfer ariannu i gefnogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gan gynnwys nodi pridd iachach, cynyddu lefelau deunydd organig pridd mewn tir amaeth wedi'i wella a pharhau i wella iechyd pridd. Rydym hefyd yn croesawu cysoni nwyddau'r farchnad a nwyddau nad oes marchnad iddynt a'r cynnydd yng nghydnerthedd hirdymor busnesau fferm. Mae pridd iach yn hanfodol i hyn; mae'n nwydd cymdeithasol ynddo'i hun ac yn ganolog i gyflawni canlyniadau eraill (aer glân, dŵr glân, gwell bioamrywiaeth, camau i leihau cynhesu byd-eang).*

Sustainable Soils Alliance

Ar draws yr ymatebion, roedd y gefnogaeth gryfaf i'r cynigion yn dueddol o ddod gan grwpiau amgylcheddol neu rai sydd â budd mewn arferion rheoli tir yn gynaliadwy.

Tegwch

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod tegwch o ran cael mynediad i'r cynllun hefyd yn bwysig, yn arbennig ffermwyr llai. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r cynllun gael ei drefnu fel ei fod yn hygyrch i bawb, gan waredu rhwystrau i ffermwyr a busnesau llai yn benodol:

> *Rhaid iddo fod yn deg i bawb. Gall ffermydd mawr fod â'r gallu ariannol gyda pherchnogion cyfoethog iawn a rheolwyr a staff penodol i gael mynediad i'r cyllid gorau ond gallai hyn fod yn anfforddiadwy i fusnesau bach.*

Unigolyn, Ffermio Eidion

> *Unwaith eto, mae'r cyfan yn seiliedig ar ffermydd mawr ac nid ffermydd mynydd bychain. Nid oes dim i gynhyrchwyr bach ar wahân i waith papur a straen. Dim budd i ni ond effaith enfawr.*

Unigolyn, Ffermio Defaid

Roedd pryder hefyd i rai ynglŷn â gallu newydd-ddyfodiaid i fyd ffermio i gael mynediad i'r cynllun:

> *Nid oes sôn am unrhyw gymorth wedi'i anelu at ffermwyr ifanc neu newydd-ddyfodiaid i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau i'r rhai hynny sy'n dod i mewn i'r diwydiant. Dim ond 3% sydd o dan 35 oed, ac oedran canolrifol ffermwr yng Nghymru yn 2016 oedd 61 oed, sy'n dangos bod angen annog olyniaeth.*
>
> Undeb Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Mwy o Eglurder

Unwaith eto, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn elwa o gael mwy o eglurder ynghylch union baramedrau'r cynllun, gan gynnwys mwy o ddiffiniad o'r cysyniad o nwyddau cyhoeddus. Roedd i hyn oblygiadau ymarferol pwysig i ymatebwyr er mwyn deall sut byddai'r cynigion yn effeithio arnynt. Roedd hon yn thema sylweddol, gan gynnwys i'r rhai a fynegodd gefnogaeth i'r dull gweithredu cyffredinol.

> *Mae uchelgais Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn enfawr; mae'r ergyd yn amlwg yn y manylion o ran sut mae pob fferm yn cael ei heffeithio gan yr ymadrodd "yn unol â gallu naturiol eu tir", a sut gall cyfyngiadau neu amodau gael eu troi'n gyfleoedd sylweddol ar fferm o faint cyfartalog o 49 ha.*
>
> Unigolyn, Ffermio Eidion

> *Cefnogwn egwyddor 'arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus' a chredwn y dylai hyn fod yn seiliedig ar fodel o daliadau sy'n rhoi gwerth i wella bioamrywiaeth ac adfer ecosystemau. Gobeithiem weld diffiniad mwy eglur o Reoli Tir yn Gynaliadwy yn y dyfodol agos – fodd bynnag, rydym yn ei gefnogi mewn egwyddor.*
>
> Plantlife, Trydydd Sector

Yn gysylltiedig â'r mater hwn, mynegodd rhai y dylid bod mwy o eglurder o ran sut mae nwyddau cyhoeddus yn cael eu hystyried a'u mesur. O'r safbwyntiau hyn, dylai cymorthdaliadau fod yn seiliedig ar ganlyniadau diriaethol, fodd bynnag roedd heriau ynghlwm wrth fesur llwyddiant yn gywir. Roedd goblygiadau pwysig i hyn o ran dyluniad y cynllun:

> *Er derbyn bod meysydd cyffredinol mesurau canlyniadau yn ymwneud â phridd, dŵr, carbon, cynefinoedd, ansawdd aer ac ati, y mae bylchau yn sut caiff y canlyniadau hyn eu mesur a'u priodoli a sut beth fyddai llwyddiant i ffermwr sy'n cyfranogi gan gofio y byddai'n anodd gweld llawer o'r cynnydd a ddisgwylir. Tra bo pridd yn parhau'n ddisymud (yn gyffredinol), gall ansawdd dŵr ac aer ar ddaliadau gael ei ddylanwadu gan weithgareddau lawer yn bellach yn i ffwrdd. Gan ystyried hyn, byddem yn cefnogi gweithredoedd dalgylch/rhanbarthol cydweithiol rhwng ffermwyr a thirfeddianwyr.*
>
> Lantra

Ymestyn Paramedrau Cymorth

Ar y llaw arall, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ffactorau neu nodweddion cymorth ychwanegol y tu hwnt i nwyddau cyhoeddus y dylid eu hystyried yn y cynllun. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys nwyddau cyhoeddus ychwanegol, yn ogystal ag amcanion diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Yn ymhlyg yn yr ymatebion hyn oedd y canfyddiad nad oedd y cynigion yn rhoi ystyriaeth i'r ffactorau hyn yn nhrefniant y cymorth:

> *Cefnogwn y dibenion a gynigir ar gyfer ariannu i helpu i gyflawni Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Fodd bynnag, anogwn yn gryf y dylid ychwanegu diben pellach: tirwedd. Dylai cynnal a gwella cymeriad, harddwch a rhinweddau nodedig ein tirweddau gael ei ychwanegu yn un o ddibenion y cynllun.*
>
> Cymdeithas Eryri, Trydydd Sector

> *[Rydym] yn credu bod diffiniad Llywodraeth Cymru o 'nwyddau cyhoeddus' yn rhy gul, ac yn seiliedig ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn unig, heb ystyried yr agweddau cymdeithasol ac economaidd ar ddatblygu gwledig cynaliadwy.*
>
> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cynorthwyo i Gynhyrchu Bwyd

Yn gysylltiedig â thema ehangu diffiniad nwyddau cyhoeddus, roedd eraill yn teimlo y dylai arian cyhoeddus barhau i gynorthwyo i gynhyrchu bwyd. Yn benodol ac ymhlyg, roedd y safbwyntiau hyn yn teimlo bod cynorthwyo i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn bwysig, gan gynnwys er mwyn diogelu'r cyflenwad bwyd a sicrhau cymunedau gwledig bywiog a chydnerth:

> *Mae dibenion SLM yn ddigon dilys am gynllun amaeth-gadwraethol, ond nid ydynt yn agos at gydnabod na darparu at anghenion amaeth y dyfodol yng Nghymru. Ymysg nifer o ystyriaethau eraill, mae angen ystyried cefnogi cynhyrchu cynradd yn uniongyrchol, gan gynnwys digolledi am yr anhafaledd masnachol a grëir o ganlyniad i gydymffurfiaeth â'r rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Dylid hefyd ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i gefnogi'r fferm deuluol a ffermydd cynhyrchiol bychain.*
>
> Unigolyn, Ffermio Defaid

> *Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r amgylchedd yn benodol o bwysig i ffermwyr ifanc Maesyfed. Gan ein bod mewn ardal ucheldir sy'n gynefin i fywyd gwyllt, rydym yn llwyr ddeall yr angen i gynnal ansawdd pridd a dŵr a lleihau'r carbon a gynhyrchir, ac rydym eisoes yn gwneud hynny. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid i ni gynhyrchu bwyd a chredwn nad yw Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn mynd yn ddigon pell i*

gynorthwyo cynhyrchwyr bwyd Cymru sy'n ceisio cynhyrchu bwyd fforddiadwy o ansawdd uchel i bawb yn y gymdeithas.

Clwb Ffermwyr Ifanc Maesyfed

I eraill, nid oedd cynorthwyo cynhyrchwyr o anghenraid yn dod ar draul arferion rheoli tir yn gynaliadwy. O'r safbwyntiau hyn, gall tir ffermio a reolir yn weithredol fod yn gynhyrchiol, gydag amryw fanteision i gymunedau lleol, gan hefyd fod yn ecogyfeillgar.

Mae'r system daliadau Nwyddau Cyhoeddus a gynigir yn rhy gul ac yn debygol o fod wedi'i hariannu'n annigonol i wireddu'r canlyniadau economaidd a chymdeithasol sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Yn benodol, nid ydym yn cytuno y gall cynhyrchu ac argaeledd bwyd, neu gynhyrchu bwyd i safonau uwch, gael eu gadael yn llwyr i fympwyon y farchnad. Mae diogelu'r cyflenwad bwyd yn gyffredinol, a chyfraniad bwydydd lleol ac artisan i'r economi wledig a thwristiaeth yn gysylltiedig â bwyd, yn ddiamheuaeth er budd y cyhoedd ac maent yn ei chael yn anodd gweithredu'n llwyddiannus heb ymyriad ariannol.

Fforwm Tiroedd Comin Cymru

6 Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi[5]

Roedd y Papur Gwyn hefyd yn disgrifio cynigion i gefnogi diwydiant a chadwyni cyflenwi yn ehangach drwy'r cynllun (Cwestiwn 5).

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol gael ei gyfeirio at ffermwyr drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gynigir. Gan gydnabod y rôl bwysig sydd i gadwyni cyflenwi ehangach wrth gefnogi economïau gwledig, mewn rhai achosion gallai fod angen i Lywodraeth Cymru hefyd helpu'r diwydiant ehangach a'r gadwyn cyflenwi bwyd y tu hwnt i gât y fferm. Mae Llywodraeth Cymru felly'n cynnig y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau a fydd yn ei gwneud yn bosibl darparu'r cymorth hwnnw.

Nifer cymharol is o ymatebwyr a gynigiodd eu barn ar yr agwedd hon ar y cynigion. O'r sawl a wnaeth, roedd y mwyafrif yn gefnogol i'r sylw mwy a roddir i ddiwydiant a chadwyni cyflenwi.

Pwysigrwydd Cynnal a Datblygu Cadwyni Cyflenwi

Roedd canfyddiad cyffredinol o bwysigrwydd cadwyni cyflenwi i iechyd economaidd ffermio yng Nghymru. O'r safbwyntiau hyn, roedd cefnogi diwydiant a chadwyni cyflenwi ehangach yn cael ei groesawu, gan gynnwys er mwyn ysgogi twf ac arloesi:

> *Fel y gwelsom yn ystod Covid-19, gall pwysau yn y cadwyni cyflenwi arwain at bryderon ynglŷn â rhannau o'r sector amaeth megis llaeth… Mae beth bynnag y gellir ei wneud i gynyddu cydnerthedd cadwyni cyflenwi i osgoi risgiau o sioc economaidd yn y sector a materion amgylcheddol ar y fferm i'w groesawu.*
>
> Cyfoeth Naturiol Cymru, Sector Cyhoeddus

Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o elfennau ar draws cadwyni cyflenwi y dylid eu cefnogi drwy'r cynllun. Roedd hyn yn cynnwys lladd-dai, pacwyr cig, a phroseswyr bwyd a diod, ymysg elfennau eraill o'r gadwyn gyflenwi:

[5] C5. Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

> *Un o'r heriau mwyaf i ffermwyr bridiau brodorol yw darganfod lladd-dy priodol i'w hanifeiliaid. Mae llawer sy'n cadw bridiau prin a brodorol yn gweld bod yn rhaid iddynt farchnata eu cynnyrch y tu allan i'r gadwyn gyflenwi gonfensiynol er mwyn i'w busnesau fod yn ariannol hyfyw. Mae angen iddynt ychwanegu gwerth a dod o hyd i'w marchnadoedd eu hunain, yn gyffredinol drwy werthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol.*
>
> Ymddiriedolaeth y Bridiau Prin

> *Dylai'r blaenoriaethau gynnwys cefnogaeth i gynhyrchu a chyflenwi cig anifeiliaid hela gwyllt ym marchnad bwyd a diod Cymru gan gydnabod saethu cynaliadwy fel rhan o'r diwydiant bwyd ehangach ac yn y gadwyn gyflenwi. Gyda chefnogaeth mae gan y diwydiant cig hela gyfle i ehangu a chaiff ei amcangyfrif bod saethu ar hyn o bryd yn cyfrannu £75 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.*
>
> Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn croesawu'r pwyslais yn y cynigion ar gynorthwyo cadwyni cyflenwi ar wahân i fwyd, gan gynnwys melinau coed a masnachwyr pren:

> *Gyda'r cynnydd a ragwelir yn nifer y coed a blannir a mwy o reoli coetir presennol, mae angen darparu cymorth integredig i gadwyni cyflenwi Rheoli Tir yn Gynaliadwy a all dderbyn cynnyrch o goed yn ogystal â da byw a chnydau. Mae llawer o'r cymorth i gadwyni cyflenwi ar gyfer ffermio yn canolbwyntio ar gynnyrch bwyd a phrin yw'r cymorth i gynnyrch ar wahân i fwyd.*
>
> Unigolyn, Coedwigaeth

> *Cymeradwywn y cynnig y dylai cadwyn gyflenwi coedwigaeth gael ei chefnogi. Mae economeg coetiroedd fferm yn dibynnu'n hanfodol ar farchnadoedd proffidiol i allbynnau coetiroedd a choed (pren, cynnyrch ar wahân i bren, gwasanaethau hamdden/twristiaeth/addysg). Dymunol fyddai integreiddio cadwyni cyflenwi coedwigaeth ac amaeth yn agos.*
>
> Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd

Pwysigrwydd Cefnogi Economïau Gwledig

At hynny, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod ehangu'r gefnogaeth i ddiwydiant a chadwyni cyflenwi yn werthfawr a phwysig er mwyn sicrhau cymunedau gwledig bywiog a gweithredol:

> *[Rydym] yn cytuno bod cefnogaeth i ddatblygu gwledig yn ymwneud â chyfrannu at ddatblygu sectorau ac economïau gwledig fel eu bod yn fwy cydnerth, cystadleuol ac arloesol.*
>
> Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru, Twristiaeth/Lletygarwch

Taenu Adnoddau'n Denau

Ar y llaw arall, roedd pryderon y byddai'r cynigion yn taenu'r adnoddau sydd ar gael yn rhy denau. Yn benodol ac ymhlyg, roedd hyn yn cynnwys y canfyddiad y byddai'r cynigion yn dargyfeirio adnoddau a chymorth oddi wrth ffermwyr a rheolwyr tir eraill:

> *Dylai taliadau uniongyrchol i 'ffermwyr actif' barhau fel y prif ddull ariannol i gefnogi ardaloedd gwledig.*
>
> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

> *Fel cynhyrchwr ŵyn wedi'u pesgi yn uniongyrchol i'r lladd-dy, mae llawer o ffermwyr yn deall beth mae'r defnyddiwr ei eisiau drwy ddeialog â lladd-dai lleol. Rwy'n cael trafferth â'r syniad o arian ar gyfer y gadwyn gyflenwi; a ydynt yn cael arian drwy sianeli eraill, a fydd hyn yn gwanhau'r arian sydd ar gael i ffermwyr i Reoli Tir yn Gynaliadwy?*
>
> Unigolyn, Ffermio Cymysg

Monitro Effeithiolrwydd Buddsoddiadau mewn Cadwyni Cyflenwi

Roedd thema arall yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gymorth a gaiff ei roi i gadwyni cyflenwi yn effeithiol ac effeithlon. O'r safbwyntiau hyn, roedd cefnogi cadwyni cyflenwi'n bwysig, ond oherwydd eu cymhlethdod a'u cwmpas, byddai buddsoddiadau a chymorth yn elwa o'u gwerthuso a'u monitro'n agos i sicrhau eu bod yn effeithiol o ran cryfhau economïau lleol a rhanbarthol.

> *Croesawn y disgwyliadau sydd wedi'u disgrifio ym mharagraff 2.87, hynny yw, y dylai unrhyw gynlluniau sy'n defnyddio arian domestig "Ganolbwyntio ar sicrhau gwerth am arian a sicrhau canlyniadau mewn ffordd sy'n gyson â fframwaith ac egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru" a dylent "Feddu ar systemau gwerthuso cadarn, gan gynnwys system ar gyfer gwerthuso gwerth am arian ceisiadau am arian".*
>
> Archwilio Cymru

Pwysigrwydd Cynaliadwyedd

Roedd eraill yn teimlo y dylai cymorth gydweddu'n agos ag amcanion cyffredinol y cynllun i gefnogi ac annog arferion cynaliadwy.

> *Mae angen i bolisi amaeth a blaenoriaethau ar gyfer cymorth i ddiwydiant a'r gadwyn gyflenwi gael eu targedu i sicrhau nad yw'n llithro'n ôl i fod yn gymorth cyffredinol heb ganlyniadau clir ar ffurf nwyddau cyhoeddus. Mae angen i'r rhain gydweddu â pholisïau eraill a dylent fod yn gyrru'r arfer o ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn ogystal â chefnogi cynhyrchu bwyd, cyflenwad bwyd, ac iechyd.*
>
> Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod

7 Casglu a Rhannu Data

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn disgrifio amrywiaeth o gynigion ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth. Nod hyn yw sicrhau bod datblygu a gweithredu polisi amaeth, rhaglenni a chydymffurfiaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth (Cwestiynau 6 i 10).

7.1 Casglu a Rhannu[6]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cynnig wedi cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth sy'n cynorthwyo i wella arferion casglu a rhannu data. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwell defnydd o dechnoleg newydd a all ehangu'r wybodaeth sydd ar gael i helpu i ffurfio polisi, prosesau cydymffurfio a gwerthuso rhaglenni. Mae'r cynnydd yn nhechnoleg Arsylwi'r Ddaear, er enghraifft, yn golygu bod modd cael delweddau o Gymru yn amlach (yn ddyddiol) ac yn llawer mwy manwl ac eglur nag o'r blaen. Gallai hyn ddarparu lluniau clir a mwy cyfoes i reoleiddwyr a rheolwyr cynlluniau er mwyn monitro cynlluniau a lefelau cydymffurfio yn fwy effeithiol.

Bydd hwyluso mynediad i ddata ar ffermydd a rhannu'r data yn lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr ac yn gwneud y gwaith o fonitro rheoliadau a chynlluniau cymorth ariannol yn fwy effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnwys pwerau yn y Bil i gasglu a rhannu data ar yr holl ffermydd a busnesau yng nghadwyn gyflenwi amaeth yng Nghymru.

Roedd y teimladau cyffredinol tuag at y cynigion ynghylch y dibenion ar gyfer casglu data yn gadarnhaol, ond cymharol brin oedd yr ymatebwyr a gynigiodd farn ac awgrymiadau ar y cynigion.

Pwysigrwydd Gwybodaeth y Gellir Gweithredu Arni

I rai, teimlwyd y dylai polisi ac arferion amaeth gael eu gyrru gan ddata a thystiolaeth gywir. Teimlwyd y byddai casglu a rhannu data yn elfen bwysig o sicrhau effeithiolrwydd y cynigion er mwyn cyflawni'u nodau:

> *Drwy ganolbwyntio ar ddata, bydd modd i Lywodraeth Cymru nodi mannau problemus allweddol o ddirywiad amgylcheddol a phenderfynu pa nwyddau cyhoeddus y dylid eu blaenoriaethu mewn rhanbarth penodol. Er enghraifft, bydd mesur y lefel o golli bioamrywiaeth neu lygredd aer ar lefel genedlaethol yn galluogi i fannau problemus gael eu nodi er mwyn eu targedu'n benodol.*
>
> Plantlife, Trydydd Sector

[6] C6. Beth yw'ch barn chi am y dibenion a gynigir ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Symleiddio Prosesau Casglu Data

Roedd eraill yn teimlo, er bod casglu data yn bwysig, na ddylai fod yn feichus. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r ymrwymiad i symleiddio prosesau er mwyn ei gwneud yn haws i ffermwyr a rheolwyr tir gasglu a lledaenu gwybodaeth:

> *Mae'r prif ddibenion ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data yn ymddangos yn synhwyrol. Croesawn yn benodol gynlluniau i leihau baich gweinyddol i ffermwyr a gwella effeithlonrwydd dulliau monitro rheoliadau a chynlluniau cymorth ariannol.*
>
> Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru, Ffermio

Roedd y thema hon hefyd yn cynnwys defnyddio ac ad-drefnu gwasanaethau data presennol i gynorthwyo â chasglu a rhannu data. Roedd hyn yn cynnwys addasu a manteisio ar systemau casglu data presennol a weinyddir gan sefydliadau megis Taliadau Gwledig Cymru, yn ogystal â chanolfannau cofnodion amgylcheddol lleol a allai fod eisoes yn meddu ar ddata biolegol ar gyfer daliadau ac a allai arwain ar gydlynu a chynghori ar arolygon biolegol seiliedig ar ffermydd.

> *Bydd casglu a rhannu data yn rhan bwysig o fonitro cydymffurfiaeth a chanlyniadau. Bydd yn arbennig o bwysig cael prosesau sy'n galluogi i olrhain anifeiliaid a darparu gwybodaeth am eu hiechyd a'u lles er mwyn monitro clefydau. Croesawn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i brosesu, a'i fwriad i ddefnyddio data i ddatblygu rhagor o asesiadau'n seiliedig ar risg. Mae casglu, prosesu a dadansoddi data yn galw am adnoddau sylweddol i'w ddatblygu; mae felly'n rhesymegol gweithio gyda sefydliadau a allai fod yn casglu data at ddibenion eraill i leihau costau fel a awgrymir.*
>
> Iechyd Da (Gwledig) Cyf

> *Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r angen i gasglu a rhannu data. Yn ychwanegol at y pedwar rheswm cynradd a nodir yn y ddadl dros newid, hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys cyflawni gofyniad adrodd statudol yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Mae angen i'r data gael ei integreiddio gyda data amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd presennol arall, sy'n cael ei ddal a'i reoli gan amryw asiantaethau, canolfannau cofnodion a chyrff anllywodraethol eraill. Bydd hyn yn ofynnol i alluogi i adrodd yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r dull gweithredu presennol yn wael iawn a datgymalog heb lawer o gysondeb oddi mewn i sefydliadau nac ar eu traws, os oes o gwbl.*
>
> Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynigiodd ymatebwyr eraill ddulliau eraill a allai helpu i resymoli arferion casglu a rhannu data. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio gwarant ffermydd i gynorthwyo monitro cydymffurfiaeth:

Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru yn cefnogi camau i symleiddio prosesau casglu data ac ymdrechion i leihau'r angen i gasglu data sawl tro. Bydd y data hwn yn allweddol i ddatblygu a hwyluso cynnal archwiliadau'n seiliedig ar risg a defnyddio technoleg ddigidol i dargedu a chynnal ymweliadau â ffermydd i fesur cydymffurfiaeth. Mae Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru yn credu y bydd y cysyniad o "gydnabyddiaeth ar sail perfformiad" yn chwarae rôl bwysig wrth gyflawni'r dull seiliedig ar risg a thrwy hynny leihau baich cydymffurfio â rheoliadau i'r ffermwr ac i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bydd angen i "gydnabyddiaeth ar sail perfformiad" gael ei fesur a'i ddyfarnu'n unig i gynhyrchwyr sy'n aelodau o gynlluniau gwarant ardystiedig annibynnol cydnabyddedig, neu sy'n cyfranogi ynddynt. Ni fydd hunan-ardystio "cydnabyddiaeth ar sail perfformiad" yn bodloni gofynion y gadwyn cyflenwi bwyd yn y Deyrnas Unedig na chwaith, mwy na thebyg, yn Ewrop.

Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf

Ymddiriedaeth a Thryloywder

Yn sail i'r dulliau casglu a rhannu data, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai fod tryloywder ac ymddiriedaeth ynglŷn â sut mae data'n cael ei ddefnyddio. Byddai hyn yn denu cefnogaeth ac ymgysylltiad gan randdeiliaid:

Bydd casglu, rhannu a chysylltu data metrigau amaeth yn rhan gynyddol bwysig o systemau a chadwyni cyflenwi amaeth yn y dyfodol. Elfen allweddol fydd adeiladu ymddiriedaeth ar bob cam gyda'r rhai sy'n darparu data (gan gynnwys eglurder ynglŷn â diben y data a gesglir), ond gallai (a dylai) y manteision i'r sector (ac felly i'r rhai sy'n darparu'r data) fod yn sylweddol.

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, Ymchwil/Academia

Mae i gronni a rhannu data y potensial i fod o fudd sylweddol i ffermio a gweithgareddau tir ledled Cymru a thu hwnt. Mae'r dibenion a amlinellir yn y papur yn cyflwyno dadl alluogi glir dros gasglu data ar lefel fawr a allai fod â fwy o werth y tu hwnt i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae yno gwestiwn ynglŷn â mynediad, perchnogaeth ac awdurdod mewn perthynas â'r data yma a sut y caiff ei ddefnyddio a'i ddehongli. Mae ymddiriedaeth sylweddol yn cael ei rhoi yn Llywodraeth Cymru i reoli'r data yma'n ofalus ac mewn ffordd briodol. Mae angen canllawiau pellach ar sut bydd Llywodraeth Cymru'n diogelu data a gwybodaeth y defnyddiwr rhag camddefnydd neu rhag i'r amcanion gynyddu'n raddol.

Unigolyn, Coedwigaeth

7.2 Cronfa Ddata Genedlaethol[7]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig y dylai gwybodaeth gael ei chasglu'n ganolog a'i rhannu rhwng rheoleiddwyr. Byddai hyn yn helpu i leihau dyblygu, yn ogystal â nifer y dogfennau y bydd gofyn i ffermwyr eu llenwi. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd eisiau adeiladu ar y platfformau TGCh presennol, nodi a mapio unrhyw ddata presennol, gwaredu lle ceir gorgyffwrdd neu ddyblygu, ac archwilio bylchau lle gallai gwybodaeth ychwanegol fod yn werthfawr. Bydd yn hanfodol bod holl ffermydd Cymru'n dod o dan y drefn hon. Gallai'r set ddata a gynigir gael ei chydlynu'n ganolog a'i rhannu â chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys rheoleiddwyr, sydd ar hyn o bryd yn gofyn am y data yma'n uniongyrchol oddi wrth ffermwyr.

Unwaith eto, ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chreu Cronfa Ddata Genedlaethol. Roedd y modd y dehonglwyd y cynigion yn amrywio'n sylweddol, yn arbennig ynglŷn â faint o wybodaeth fyddai'n cael ei chynnwys yn y Gronfa Ddata Genedlaethol. Gallai cynnwys materion megis monitro, cymorth ariannol, a chydymffurfio â rheoliadau, a gwell defnydd o dechnoleg, fod wedi arwain rhai i ddehongli'r cynigion yn helaethach neu'n fwy cul na'r hyn a allai fod wedi'i fwriadu'n wreiddiol gan y cynigion.

Pwysigrwydd ar gyfer Monitro Data

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr unwaith eto bwysigrwydd casglu data a rôl bosibl Cronfa Ddata Genedlaethol, gan gynnwys bod o gymorth i wneud penderfyniadau ynglŷn ag arferion amaeth, ffurfio polisi, a monitro ffactorau risg. Gallai gwybodaeth a gaiff ei chasglu drwy'r gronfa ddata fod yn werthfawr at ddibenion monitro, atebolrwydd ac ymchwil.

> *Cytunwn fod sefydlu cronfa ddata sy'n symleiddio'r broses o gasglu, monitro a rhannu data yn syniad da a gallai fod o fudd i ffermwyr, ymchwilwyr, llunwyr polisi a'r cyhoedd. Ar gyfer hyn, dylai cymysgedd o ddata Arsylwi'r Ddaear, sensoriaid ar y fferm a dulliau mwy confensiynol gael eu defnyddio'n bragmatig.*
>
> Paramaethu Sir Gâr

Rhesymoli a Symleiddio

Roedd rhai'n teimlo y byddai gan gronfa ddata genedlaethol y potensial i gymedroli a symleiddio prosesau casglu data a'u gwneud yn fwy effeithlon. Gallai cronfa ddata fod yn offeryn pwerus er mwyn deall materion sy'n effeithio ar ffermio a rheoli tir, gan gynnwys cadw golwg ar glefydau.

[7] C7. Beth yw'ch barn chi am sefydlu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer ffermydd a da byw? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

> *Cefnogwn wella darpariaethau i gasglu a phrosesu data, a chyflwyno technoleg newydd, a all helpu i symleiddio'r systemau. Gallai cronfa ddata genedlaethol wella hygyrchedd a chydymffurfiaeth. Gallai cronfa ddata genedlaethol newydd gynnig cyfleoedd i fonitro clefydau newydd yn well drwy gasglu, dadansoddi a rhannu data ar draws rhywogaethau, gyda manteision posibl i iechyd y cyhoedd ac iechyd a lles anifeiliaid.*
>
> Cymdeithas Milfeddygon Prydain – Cangen Cymru, Milfeddygaeth

> *Mae pob cronfa ddata genedlaethol yn helpu i leihau'r angen i gasglu data sawl tro ar sawl cost. Dylai fod llawer iawn o wybodaeth eisoes o gynlluniau presennol a blaenorol i adeiladu arni. Mae technoleg yn datblygu'n gyflym iawn ac yn cynnig cyfleoedd newydd, ond mae angen ei diogelu at y dyfodol.*
>
> Fforwm Coed Hynafol

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai'r gronfa ddata a thechnolegau newydd fod yn werthfawr ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys symleiddio prosesau ceisio am grant ac atebolrwydd:

> *Mae llawer o gyfleoedd i apiau sy'n cofnodi a gwirio gweithredoedd amgylcheddol cadarnhaol a allai fod yn sail i ddangos effaith gweithgareddau bach ar raddfa'r dirwedd, er enghraifft plannu coed ar raddfa fach, creu llawr caled i fwydo, plygu perthi ac ati. Gyda'r dulliau gweithredu cywir, a gychwynnwyd gan y ffotograffau â geotag ar Grantiau Bach, gallai hyn fod yn sail i system wirio dryloyw wedi'i symleiddio.*
>
> Coed Cymru

Gweithrediad ac Ymarferoldeb

Yn ychwanegol, mynegodd rhai bryderon ynglŷn â sut byddai'r gronfa ddata'n gweithredu, ac ymarferoldeb casglu elfennau penodol o ddata. O'r safbwyntiau hyn, roedd yn bwysig sicrhau bod y system yn syml i'w defnyddio, a'i bod yn deall ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol i gyflwyno gwybodaeth:

> *Mae fy nata fferm i eisoes ar Daliadau Gwledig Cymru, rhywfaint gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, ac mae fy ngwartheg ar y System Olrhain Gwartheg, a gwartheg, y llyfr meddyginiaethau ac ati ar Gynllun Gwarant Fferm Da Byw; gallaf weld y fantais o ran monitro clefydau o gael popeth mewn un lle, ond nid wyf yn frwdfrydig ynglŷn ag adrodd cyn symud, yn syml am fod ymarferoldeb bywyd fferm yn aml yn golygu nad yw symudiadau'n digwydd fel a fwriedir.*
>
> Unigolyn, Ffermio Eidion

> *Ymddengys y byddai system ar gyfer defaid yn anhylaw i ffermwyr, o leiaf ar y lefelau stocio cyfredol.*
>
> Parciau Cenedlaethol Cymru, Sector Cyhoeddus

Yn rhan o'r thema hon, er mwyn bod yn effeithiol a denu cefnogaeth, roedd yr ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai'r gronfa ddata yn elwa o fod yn ddefnyddiol i ffermwyr a rheolwyr tir. Byddai hyn yn galw am nodwedd sy'n galluogi ffermwyr i gael mynediad i'r system, ac i'r system ddarparu gwybodaeth werthfawr a allai gynorthwyo penderfyniadau'n lleol:

> *O ran cynigion penodol, rydym wedi ein bodloni y cyfeiriwyd at wella dulliau casglu a phrosesu data. Mae data yn adnodd pwysig i gynhyrchwyr a'r gadwyn gyflenwi ehangach ac ni ellir anwybyddu gwerth defnyddio data canolog. Mae'r e-Lyfr Meddyginiaethau yn enghraifft dda o hyn yn y sector moch gan ein bod wedi defnyddio'r arfer o gofnodi data defnyddio gwrthfiotigau i annog pobl i ddefnyddio meddyginiaethau'n gyfrifol a chynllunio iechyd yn rhagweithiol. Gallai'r camau i wella iechyd a lles moch gael eu cefnogi ymhellach drwy gasglu data perthnasol a defnyddiol.*
>
> Cymdeithas Foch Genedlaethol

Mynediad

Fodd bynnag, roedd pryderon ynglŷn â gallu cymunedau gwledig, ffermwyr a rheolwyr tir i gael mynediad i Gronfa Ddata Genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynglŷn â chysylltedd cyfyngedig mewn rhai ardaloedd:

> *Bydd llwyddiant yr uchelgais hwn yn ddibynnol ar gysylltedd.*
>
> Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru, Ffermio

> *Mae cronfa ddata genedlaethol yn ymddangos yn ddefnyddiol cyhyd â'i bod wedi'i chysylltu â systemau eraill, yn cyfrannu gwybodaeth ar sail y Deyrnas Unedig ac nid Cymru'n unig, ac yn caniatáu ar gyfer adolygu beichiau rheoleiddiol ar y diwydiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r systemau'n caniatáu adrodd amser real – rydym yn cefnogi casglu data'n well ond cyhyd â bod y systemau'n syml, yn ymarferol ac wedi'u hadeiladu mewn ffordd fel nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhai na all eu defnyddio, neu sydd heb gysylltedd.*
>
> Fforwm Tiroedd Comin Cymru

Y Goblygiadau o ran Cost

Roedd pryderon ynglŷn â goblygiadau o ran cost i adeiladu cronfa ddata genedlaethol. Unwaith eto, yn sail i'r rhain yr oedd pryderon y gallai hyn ddargyfeirio adnoddau prin.

> *A oes wir angen i ni greu cronfa ddata genedlaethol? Mae llawer o ffermwyr eisoes yn defnyddio eu meddalwedd eu hunain i gadw eu cofnodion eu hunain. Byddai hyn yn creu mwy o fewnbynnu data. Byddai hefyd oblygiadau sylweddol o ran cost i roi hyn ar waith.*
>
> Unigolyn, Ffermio Cymysg

Yn rhan o'r thema hon, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau nad yw'r arfer o gasglu data a'i fwydo i mewn i'r gronfa ddata yn feichus i ffermwyr a rheolwyr tir:

> *Bydd angen sicrhau bod unrhyw waith casglu data yn gwbl angenrheidiol a chymesur i'r dibenion y mae'r data'n ofynnol ar eu cyfer. Dylid ystyried y baich a roddir ar fusnesau fferm i ddarparu'r data. Os oes i'r data yma werth i'r Llywodraeth, er enghraifft i helpu'r Llywodraeth brofi ei bod yn bodloni rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol, mae Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru yn glir y dylai gwerth fod yn gysylltiedig â chyflenwi'r data yma.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

7.3 Rhannu Data[8]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae elfen allweddol o'r cynigion yn cynnwys pwysigrwydd caniatáu i reoleiddwyr, gwerthuswyr a rheolwyr cynlluniau rannu gwybodaeth rhyngddynt â'i gilydd. Byddai hyn yn galluogi systemau a phrosesau symlach sy'n lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr ac yn darparu mwy o werth am arian o safbwynt y cynllun. Bydd yn hanfodol chwalu'r rhwystrau i gymharu a rhannu data er mwyn lleihau'r baich monitro ar ffermwyr a rheolwyr tir.

Unwaith eto, yn gyffredinol roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor o rannu data gyda ffermwyr a rheolwyr tir ar draws yr ymatebion.

Gwerth Rhannu Gwybodaeth

Roedd hyn yn bennaf yn cael ei bwysleisio gan y ddealltwriaeth bod rhannu data gyda ffermwyr yn beth da yn ei hanfod. Gallai alluogi gwell dealltwriaeth o gynnydd a chydymffurfio, yn ogystal â chynorthwyo penderfyniadau ar y fferm neu'r tir. Mae hyn yn cynnwys meincnodi cynnydd a nodi meysydd o gryfder a ble i wella. Gallai hefyd fod yn werthfawr wrth ddarparu tystiolaeth o'u rhinweddau o ran cynaliadwyedd. Yn sail i'r canfyddiadau hyn yr oedd pwysigrwydd gwneud data'n fwy gwerthfawr i ffermwyr a rheolwyr tir er mwyn hybu ymgysylltiad a chefnogaeth.

[8] C8. Gan feddwl am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC): 8. O ran y cynllun arfaethedig, beth yw'ch barn chi am y cynigion i ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r data rydym yn eu casglu ar y fferm i dracio'u cynnydd a dangos eu bod yn gynaliadwy? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

> *Mae'r manteision yn glir y bydd deall ein sefyllfa yn ein galluogi i addasu a symud i lwybr gwell a mwy eglur.*
>
> Unigolyn, Sector Preifat

Roedd ymatebwyr eraill hefyd yn teimlo y byddai rhannu data yn cynorthwyo mwy o ddysgu a lledaenu gwybodaeth rhwng cymheiriaid, ac yn caniatáu i ffermwyr a rheolwyr tir rannu profiadau ac arferion effeithiol.

> *Mae rhannu gwybodaeth rhwng cymheiriaid hefyd yn bwysig. Y ffordd orau i reolwyr tir ddarganfod a mabwysiadu technegau arloesol buddiol yw rhwng cymheiriaid, gan ddysgu oddi wrth rywun sydd eisoes wedi bod yn arfer y technegau hyn.*
>
> Y Gymdeithas Figan

Strwythurau Cymhelliad

Mynegodd rhanddeiliaid ar draws y gymuned ffermio eu bod yn cydnabod gwerth casglu a rhannu data. Roeddent yn awyddus, fodd bynnag, i sicrhau bod unrhyw arfer o gasglu a rhannu data yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n dod â budd i'r sawl sy'n creu'r data, ac na ddylid ei wneud yn orfodol:

> *Rydym yn derbyn rôl casglu a defnyddio data, ac offer meincnodi i helpu ffermwyr i fesur eu busnesau a chanfod ble gallai enillion gael eu gwneud. Yn ychwanegol, gall data cyfanredol fod o ddefnydd i ddatblygu'r diwydiant a rhoi ffocws i ymchwil a datblygu. Credwn hefyd fod y dull hwn yn helpu i adeiladu enw da yn arbennig mewn marchnadoedd allforio. Fodd bynnag, mae angen i unrhyw system o'r fath fod yn syml a hawdd i'w defnyddio ac ni ddylai fod yn orfodol neu heb wobrwyo.*
>
> Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru

Ymarferoldeb

Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen i unrhyw systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda ffermwyr a rheolwyr tir fod yn syml i'w defnyddio:

> *Byddem yn cefnogi hyn os yw'r system yn gweithio ac yn caniatáu i ffermwyr dracio cynnydd a lanlwytho tystiolaeth. Byddem yn cefnogi pecyn cymorth hyfforddiant TG i ddefnyddwyr pan fydd y system hon yn barod i'w chyflwyno'n ehangach. Rydym yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried Grwpiau Profi Defnyddwyr wrth ddatblygu'r systemau hyn.*
>
> *Lantra*

7.4 Cydymffurfiaeth[9]

Crynodeb o'r Cynigion

Gallai symleiddio prosesau casglu a rhannu data hefyd wella'r arfer o fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Gallai cronfa ddata genedlaethol ei gwneud yn haws hefyd i reoleiddwyr allu cyfeirio achosion o ddiffyg cydymffurfio at y corff perthnasol er mwyn iddo gymryd camau gorfodi. Mewn rhai achosion, gall delweddau Arsylwi'r Ddaear ddisodli'r angen i ymweld â fferm. Er enghraifft, pe bai rheoleiddwyr yn cael gwybod bod ffermwr o bosibl wedi tramgwyddo, gellid defnyddio'r delweddau dyddiol i weld a oes tramgwydd ac a oes angen ymweld â'r fferm.

Prin oedd y sylw a roddodd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a wnaeth ymateb yn benodol i'r cwestiwn, roeddent ar y cyfan yn gadarnhaol ynglŷn â rôl data mewn monitro cydymffurfiaeth.

Gwell Monitro

Roedd y gefnogaeth hon yn deillio, yn rhannol, o'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd monitro wrth annog pobl i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol:

> *Mae Dŵr Cymru'n cefnogi'r cynigion ynglŷn â monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau yn well, gan gynnwys gwneud gwell defnydd o dechnoleg newydd megis data LIDAR, dronau a lloerenni. Teimlwn y bydd angen defnyddio offer goruchwylio amgylcheddol newydd i fonitro a gwirio dulliau rheoli tir sy'n cael eu defnyddio gan ffermwyr.*
>
> Dŵr Cymru

> *Cytunwn fod angen gwella'r modd y mae cyrff gorfodi sy'n ymdrin â rheoliadau amgylcheddol mewn perthynas â'r sector amaeth yn cael eu cydlynu, o ran ymweliadau â ffermydd ond hefyd o ran rhannu a chyfnewid data. Mae'r dull presennol o sawl corff yn cynnal ymweliadau â ffermydd i asesu cydymffurfiaeth ag amryw safonau yn cymryd amser i reolwyr tir ac asiantaethau archwilio. Byddai'n fuddiol datblygu system lle mae asiantaethau'n rhannu canfyddiadau gan ysgafnhau'r baich ar reolwyr tir a lleihau'r adnoddau sy'n ofynnol a gallai gael ei gyflawni drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg.*
>
> RSPB Cymru

Roedd y dull gweithredu a amlinellwyd yn y Papur Gwyn hefyd yn cael ei gefnogi gan rai yn y gymuned ffermio. O'r safbwyntiau hyn, gallai'r camau a gynigir i resymoli a symleiddio systemau wella'r profiadau, a'r ymrwymiad amser, sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio:

[9] C9. Gan feddwl am gydymffurfio â'r rheoliadau: Beth yw'ch barn am y cynigion ar gyfer monitro'n well y modd y cydymffurfir â'r rheoliadau? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

> *Cefnogwn y cynigion i gydweddu'r modd y caiff data ei ddarparu a galluogi i ddata gael ei rannu rhwng rheoleiddwyr er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr.*
>
> Cynghrair Gweithwyr y Tir Cymru

Roedd y cynigion hefyd yn cael eu croesawu gan y cyrff rheoleiddio eu hunain, a oedd yn ystyried bod potensial i'r cyfleoedd a gyflwynwyd yn y Papur Gwyn wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cyfundrefnau cydymffurfio:

> *Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi gwell monitro a rhannu data monitro i gynorthwyo Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i reoleiddio'n fwy effeithiol. Byddai'n ddefnyddiol i gyrff rheoleiddio ddeall sut gallai eu systemau presennol gael eu gwella a'u haddasu i ddarparu gwybodaeth ar berfformiad y cynllun a chyflwr yr amgylchedd yng Nghymru, yn ogystal â pharhau i ddarparu eu gofynion rheoleiddio. Bydd angen gweithio mewn partneriaeth i ddylunio'r system i sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i rannu data ar draws gwahanol sefydliadau.*
>
> Cyfoeth Naturiol Cymru

Dulliau Gweithredu Eraill

Roedd awydd hefyd i fanteisio ar systemau a dulliau gweithredu eraill, megis gwarant ac ardystio ffermydd, i gynorthwyo prosesau casglu a monitro data. Gallai hyn gynnwys hunanasesu a fframweithiau monitro o bell, gyda gwiriadau ychwanegol drwy archwiliadau ar y safle y gellid eu rhannu â rheoleiddwyr:

> *Credwn fod cyfleoedd enfawr i wella arferion monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau. Ar hyn o bryd, caiff ei gynnal gan sawl corff cyhoeddus gwahanol, sy'n aml yn gofyn am yr un wybodaeth. Os yw ffermwyr yn rhan o gynlluniau gwarant fferm ardystiedig, ac weithiau mwy nag un, wedyn does bosib y gallai'r archwiliad a gaiff ei gynnal at y diben hwnnw gael ei rannu â rheoleiddwyr a byddai'n dangos risg is o dorri rheoliadau.*
>
> Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

Systemau Cadarn

Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo bod angen i'r systemau fod yn gadarn, ac na ddylent ddibynnu ar unrhyw un ffynhonnell o ddata neu ddull monitro. O'r safbwyntiau hyn, roedd monitro fel ffordd i gefnogi cydymffurfiaeth yn fwyaf effeithiol pan all rheoleiddwyr greu darlun cyflawn o berfformiad amgylcheddol daliad neu ddarn o dir:

> *Mae defnyddio technoleg yn well yn ddull defnyddiol o fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau ond dylid ystyried hyn yn offeryn cynorthwyol i Gyfoeth Naturiol Cymru ac ni ddylai leihau'r monitro ar lawr gwlad. Gall defnyddio technoleg lloerenni fod yn ddefnyddiol i nodi achosion difrifol o lygredd ond mae'n llai defnyddiol i ddatrys materion llygru sy'n aml yn cael eu canfod wrth ymweld â dalgylch ar droed ac ar*

ymweliadau â ffermydd. Hefyd, gallai dibynnu'n helaeth ar fonitro o bell leihau'r presenoldeb rheoleiddiol yng Nghymru pe caiff hynny ei ddilyn â diffyg gorfodi.

Sefydliad Gwy ac Wysg

Cydlyniant

Mynegwyd pryderon ynglŷn â chydlyniant dulliau casglu data a sut roedd systemau a gwybodaeth wedi'u hymgorffori mewn fframweithiau cydymffurfio. O'r safbwyntiau hyn, roedd cymhlethdod ar draws y gwahanol ffynonellau data, technolegau newydd, a phrosesau, yn cyflwyno risgiau i sicrhau cysondeb, cydlyniant ac yn y pen draw effeithiolrwydd cydymffurfio yn y cynigion:

Mewn egwyddor, mae'r cynigion i wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau i'w croesawu. Fodd bynnag, mae ein haelodau'n pryderu ynglŷn ag arolygu'r rheoliadau a gallu'r Llywodraeth i arsylwi holl weithgareddau ffermydd bob amser. Er bod technoleg lloerenni a geo-ofodol yn gwella, dylid ei defnyddio fel rhan gymesur o system o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad, archwilio ffisegol a hunanddatgan. Mae rhai o'r technolegau eraill a amlinellir yn y Papur Gwyn ar gam eginol ac ni ddylai gweithlu wedi'i hariannu a'i hyfforddi'n briodol gael ei ddisodli'n llwyr gan dechnoleg.

Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru

7.5 Monitro Rheoliadau[10]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru hefyd am wella rôl casglu a rhannu data mewn gwaith monitro rheoliadau. Maent eisiau ystyried a fyddai mathau eraill o ddata a gesglir gan ffermwyr a chynlluniau gwarant fferm yn gallu cael eu defnyddio i helpu'r gwaith monitro. O ddefnyddio technoleg a data'n well, y gobaith yw targedu archwiliadau ar y fferm yn well at ddiben cydymffurfio â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac â rheoliadau.

Roedd y teimladau cyffredinol tuag at fonitro rheoliadau yn fwy cymysg nag agweddau blaenorol ar y cynigion, er bod y mwyafrif yn dal i fod yn gadarnhaol. Unwaith yn rhagor, ni wnaeth llawer o ymatebwyr ymateb yn benodol i'r agwedd hon ar y cynigion.

Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth

Thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd pwysigrwydd lefelau uchel o wybodaeth a dealltwriaeth o deimlad a disgwyliadau cyfundrefnau rheoliadol sy'n codi o'r cynigion. O'r

[10] C10. Beth yn eich barn chi sydd angen ei ystyried yn y dyfodol er mwyn i reoleiddwyr allu monitro rheoliadau'n effeithiol?

safbwyntiau hyn, byddai ar ffermwyr, rheolwyr tir a rhanddeiliaid eraill angen ymgysylltiad a chefnogaeth sylweddol, a byddai hyn yn galw am amser, sylw ac adnoddau:

> *Y risg unigol fwyaf bod y broses reoleiddio'n methu yn y dyfodol fydd diffyg adnoddau angenrheidiol i ymgysylltu a datblygu dealltwriaeth yn y diwydiant ffermio, a rheoli gwyliadwriaeth a gorfodi yn barhaus. Bydd angen buddsoddi'n sylweddol i gyflawni hyn, yn ogystal â thargedu adnoddau'n wahanol oddi mewn i Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn yr un modd, bydd angen ysgogi'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn benodol ynghyd â dulliau gorfodi newydd ar sail ymateb cyflym, er mwyn i bobl ystyried bod y safonau gofynnol newydd yn cael eu gorfodi mewn ffordd dryloyw.*
>
> Dŵr Cymru

Archwilio

Mynegwyd pryderon bod y cynigion yn tanbrisio pwysigrwydd archwilio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. O'r safbwyntiau hyn, mae archwilio ffisegol yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth.

> *Mae gennym bryder ynglŷn â'r awydd i leihau dibyniaeth ar ymweliadau â ffermydd. (Paragraff 2.114 yn y ddogfen ymgynghori) Gallai hyn yrru gorddibyniaeth ar ddata synhwyro o bell sydd heb ei wirio ac sydd wedi'i ddehongli'n wael, gan dreulio ymhellach unrhyw ddealltwriaeth go iawn o ffermio ac effaith polisi a rheoliadau yn y byd go iawn.*
>
> Coed Cadw, Amgylcheddol

Mwy o Adnoddau ar gyfer Monitro

Er mwyn cefnogi gwaith monitro effeithiol yn gyffredinol, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn galw am fwy o adnoddau. Roedd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ragor o staff, mwy o hyfforddiant, monitro o bell, a mwy o ddata amser real:

> *Digon o staff ac adnoddau i gynnal cyngor / patrolau / gwiriadau cydymffurfio digonol. Defnyddio arolwg o'r awyr a synhwyro o bell.*
>
> Parciau Cenedlaethol Cymru

Llai o Archwilio

Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo bod ymweliadau ar y fferm ac archwiliadau eraill yn feichus ac yn tarfu, a bod yr ymagwedd ehangach a amlinellir yn y Papur Gwyn yn gywir wrth geisio rhesymoli prosesau a manteisio ar ffynonellau gwybodaeth eraill.

> *Mae angen i ffermwyr fod yn llwyr ymwybodol o'r Safonau Gofynnol newydd, ac unrhyw newidiadau/diwygiadau iddynt, a chael eu briffio arnynt. Mae angen defnyddio mwy o dechnoleg i osgoi'r angen am gymaint o archwiliadau ar y fferm.*

Byddai ap neu wefan lle y gallai ffermwyr lanlwytho tystiolaeth eu bod yn cydymffurfio â gwahanol ofynion yn ddefnyddiol.

Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

8 Coedwigaeth a Choetiroedd

Mae'r Papur Gwyn hefyd eisiau gwella'r rheoliadau a'r prosesau presennol sy'n effeithio ar y ffordd y mae coetiroedd yn cael eu creu a'u rheoli yng Nghymru (Cwestiwn 11).

8.1 Deddfwriaeth Coedwigaeth a Choetiroedd[11]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae creu a rheoli coedwigaeth a choetiroedd yn rhan bwysig o'r cynigion. Mae Llywodraeth Cymru am weithredu darpariaethau a fydd yn:

- Cynorthwyo i greu coetiroedd, gyda system syml, hawdd ei rhagweld a chymesur ar gyfer cymeradwyo cynlluniau coetir;
- Er bod cwympo coed yn aml yn rhan o gynllun rheoli coetir cynaliadwy, mae rhai coed a choetiroedd mor amgylcheddol werthfawr, gallai eu torri'n anghyfreithlon fod yn arbennig o niweidiol. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ychwanegu amodau at drwyddedau cwympo coed a sicrhau bod anogaeth effeithiol i atal cwympo coed yn anghyfreithlon;
- Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn talu ffermwyr sy'n dewis darparu'r manteision a ddaw o blannu a rheoli coetir ar eu ffermydd. Rhaid parhau hefyd i gefnogi coetiroedd nad ydynt ar ffermydd.

O ran teimladau cyffredinol tuag at y cynigion ynghylch deddfwriaeth coedwigaeth, nid oedd yma dueddiadau clir. Mae hyn yn rhannol oherwydd y nifer isel o ymatebion a roddodd farn yn benodol ar y cynigion.

Teimlad y Cynigion

Roedd cefnogaeth i deimlad a ffocws cyffredinol y darpariaethau yn y cynigion, sef cefnogi ac annog mwy o goetir:

Dylai rheoli coedwigoedd a phlannu coed ar raddfa eang gael eu cefnogi ar sail y manteision amlwg.

Unigolyn, Sector Preifat

[11] C11. Beth yw'ch barn chi am y diwygiadau a gynigir i'r ddeddfwriaeth goedwigaeth? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Parhad y Dull Gweithredu

Fodd bynnag, roedd elfennau o anghytuno ynglŷn â'r union ddull gweithredu i gyflawni hyn. Roedd rhai, er enghraifft. yn dymuno gweld elfen o barhad o ofynion blaenorol, gan gynnwys er enghraifft mewn perthynas â rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol:

> *Cefnogwn y diwygiadau a gynigir i ddeddfwriaeth coedwigaeth, gan gynnwys cyflwyno pwerau i Weinidogion adolygu a diwygio trothwyon yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Fodd bynnag, rydym yn falch i nodi nad oes cynlluniau presennol i newid rheoliadau'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac ni fyddem yn cefnogi codi trothwyon yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.*
>
> Cynghrair Tirweddau Dynodedig Cymru

Mwy o Eglurder

Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd cael mwy o fanylion ynghylch y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fwy penodol am gwmpas y cynigion, a sut byddent yn cael eu cyflawni'n ymarferol:

> *Cefnogwn y cynigion i wella'r rheoliadau a'r prosesau presennol. Ar hyn o bryd, mae'r cynigion ar lefel uchel iawn ac nid ydynt yn cynnwys mesurau cynllunio penodol nac yn nodi ardaloedd penodol ar gyfer creu coetiroedd newydd.*
>
> Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Lleihau Tir Cynhyrchiol

Er bod llawer o ymatebwyr yn croesawu bwriad a chyfeiriad cyffredinol y cynigion, roedd rhai'n teimlo y gallai maint yr uchelgais effeithio'n negyddol ar weithgareddau a sectorau eraill. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio meintiau sylweddol o dir cynhyrchiol, gan arwain at ganlyniadau negyddol posibl i ffermwyr a chymunedau:

> *Mae Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru'n cydnabod bod creu coetiroedd ychwanegol am chwarae rôl er mwyn gwireddu ein huchelgais sero-net. Mae'r Papur Gwyn yn cyfeirio at darged o gynyddu coetiroedd o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn, gan godi i 4,000 hectar y flwyddyn cyn gynted â phosibl… Bydd coedwigo ar y raddfa a gynigir yn galw am goedwigo tua 1400 o ffermydd yng Nghymru yn gyfan gwbl. Nid yw Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru'n credu bod newid defnydd tir ar y raddfa hon yn dderbyniol nac yn ddymunol. Gwrthodwn yn bendant y syniad mai gyrru newid defnydd tir ddylai fod amcan polisi amaeth yn y dyfodol.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Ffocws ar Goedwigaeth Fasnachol

Roedd rhai'n teimlo nad oedd sylw digonol yn y cynigion i'r cyfleoedd i fasnacheiddio y mae creu coedwigaeth yn eu cynnig. O'r safbwyntiau hyn, gallai'r cynigion annog coetiroedd masnachol neu wedi'u rheoli.

> *Cefnogwn y cynigion i gynnwys creu coetiroedd ar ffermydd ac oddi ar ffermydd o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond mae angen uchelgais sylweddol uwch. Mae angen i'r ffocws fod ar gefnogi coetiroedd wedi'u rheoli a chefnogi datblygu'r marchnadoedd pren lleol ar raddfa fach.*
>
> Cynghrair Gweithwyr y Tir Cymru, Undeb Llafur / Cynrychiolydd

Coetir Brodorol

Ar y llaw arall, roedd rhai'n teimlo y dylid darparu mwy i annog buddsoddiad hirdymor, gan gynnwys cefnogi mathau o goetir brodorol presennol a chreu rhai newydd.

> *Rydym yn croesawu'r cynigion i wella rheoliadau a phrosesau presennol mewn perthynas â chreu a rheoli coetiroedd yng Nghymru, ac edrychwn ymlaen at ymgynghori pellach ar sut mae cyflawni'r canlyniadau cywir ar gyfer y rhan hon o'r cynllun. Er ein bod yn deall ac yn croesawu'r angen dirfawr i gael mwy o goetir yng Nghymru, dylid rhoi'r un statws i adfer a rheoli coetiroedd presennol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fathau o goetir brodorol.*
>
> Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru, Amgylcheddol

8.2 Marchnadoedd Carbon[12]

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn archwilio ffyrdd i hybu a denu buddsoddiad mewn plannu coed, gan gynnwys drwy farchnadoedd carbon (Cwestiwn 12).

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru'n archwilio ffyrdd i hybu a chefnogi plannu coed, gan gynnwys drwy ddenu mwy o fuddsoddiad na'r hyn y gall y Llywodraeth ei gyflawni ar ei phen ei hun. Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno ystyried sut gall ffermwyr a rheolwyr tir eraill yng Nghymru fanteisio'n llawn ar y farchnad sy'n tyfu ar gyfer dal carbon trwy goed. Gellir gwerthu'r unedau carbon hyn i unigolion a sefydliadau sydd am niwtraleiddio eu hallyriadau eu hunain neu fuddsoddi mewn datgarboneiddio. Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad y flwyddyn nesaf ar sut i helpu pob math o berchennog tir yng Nghymru i fanteisio ar y

[12] C12. Beth yw'ch barn chi ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi perchnogion tir yng Nghymru i elwa ar farchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed?

marchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed, gan gynnwys sut i ysgwyddo'r costau cyfalaf cychwynnol a chostau cyngor a allai fod yn ofynnol.

O gymharu â deddfwriaeth coedwigaeth yn gyffredinol, derbyniodd y maes hwn o'r cynigion fwy o sylw gan ymatebwyr. O ran teimladau cyffredinol, roedd y mwyafrif yn gefnogol.

Cam Cadarnhaol

Lle'r oedd y gefnogaeth ar ei mwyaf, roedd yn hyn dueddol o ddeillio o'r ddealltwriaeth y byddai marchnadoedd carbon yn datgloi cyllid ychwanegol i ffermwyr a rheolwyr tir, yn ogystal a hybu dal a storio carbon. Roedd cydnabyddiaeth, er enghraifft, o werth a photensial marchnadoedd carbon i ddod a ffrydiau refeniw ychwanegol i gymunedau gwledig:

> *Cefnogwn y cynigion ac awgrymwn fod y cymorth ariannol sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir hefyd ar gael i'r rhai sy'n gweithio ar Ystad y Goron neu sy'n denantiaid i gyrff cyhoeddus.*
>
> Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Roedd hefyd yn cael ei gydnabod y gallai marchnadoedd carbon, os ydynt yn effeithiol, hybu gweithredoedd a gweithgareddau sy'n cynyddu coetir ac yn hybu bioamrywiaeth.

> *Cefnogwn y camau i gynyddu coetir er mwyn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae lliniaru llifogydd a rheoli erydiad yn ddau faes penodol y dylid eu cefnogi. Cefnogwn y bwriad i ddiogelu a gwella rheolaeth coetiroedd presennol, yn arbennig coetiroedd hynafol lled-naturiol. Croesawn y gwaith a wnaed i ddiweddaru a gwella'r Map Cyfleoedd Creu Coetir fel offeryn gwerthfawr i wneud penderfyniadau ynglŷn â lleoli coetiroedd newydd. Dylid rhoi cymorth i brosiectau adfywio naturiol / dad-ddofi tir yn ogystal â phlannu coed a all arwain at fwy o gynnydd mewn bioamrywiaeth a thirwedd fwy amrywiol.*
>
> Paramaethu Sir Gar

Ymestyn i Ddulliau Eraill i Ddal a Storio Carbon

Thema gyffredin oedd gwerth dulliau eraill i ddal a storio carbon, megis diogelu carbon sydd yn y pridd, nid plannu coed yn unig. Galwodd llawer o ymatebwyr am i'r dulliau ychwanegol hyn gael eu cydnabod a'u gwobrwyo ochr yn ochr â phlannu coed.

> *Gall adfer amrywiaeth o gynefinoedd gan gynnwys mawndiroedd, gwlypdiroedd a chynefinoedd arfordirol fod â manteision cyfwerth neu fwy na phlannu coed mewn perthynas â dal a storio carbon. Rhaid ymdrechu i sicrhau bod cymhellion yn eu lle i annog adfer amrywiaeth o gynefinoedd sydd oll yn darparu buddion o ran carbon.*
>
> RSPB Cymru, Amgylcheddol

Darparu Cyngor a Chanllawiau

Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at yr angen am gymorth a chanllawiau ychwanegol i helpu ffermwyr i fanteisio ar y farchnad garbon a phlannu coed. Roedd hyn yn cynnwys cymorth i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i reoli coetir yn y tymor hir, yn ogystal â helpu ffermwyr i gael mynediad i farchnadoedd ac ymgyfarwyddo â hwy'n llwyddiannus.

> *Mae llawer o gynlluniau blaenorol wedi canolbwyntio ar blannu coed ond gan esgeuluso'r sgiliau a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen i reoli coed yn y tymor hir. Bydd angen adnoddau i ddarparu'r sgiliau a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen i alluogi ffermwyr i fuddsoddi mewn rheoli hirdymor.*
>
> Dŵr Cymru

> *Credwn fod potensial i dirfeddianwyr yng Nghymru gyfranogi yn y marchnadoedd carbon, ond mae'r bwlch gwybodaeth presennol yn y diwydiant yn rhwystr enfawr. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru naill ai i arwain ar hyn, neu drefnu i gorff annibynnol diduedd i gynorthwyo ffermwyr i archwilio'r marchnadoedd hyn. Ein pryder yw y gallai unrhyw un sydd â budd masnachol yn y marchnadoedd hyn gymryd mantais a gallai ffermwyr gael eu twyllo.*
>
> Menter a Busnes, Trydydd Sector

Gwaredu Rhwystrau i Greu Coetir

At hynny, mynegodd rhai ymatebwyr y farn bod gwaredu rhwystrau presennol i greu coetir yn hanfodol i alluogi ffermwyr i gymryd rhan yn hawdd mewn cynlluniau plannu coed. Roedd hyn yn cynnwys materion ynghylch Treth Etifeddiant, caniatâd i blannu, rheoliadau dryslyd a diffyg cymhellion ariannol digonol:

> *Un rhwystr mawr i blannu yw cael mynediad i gymhellion a chael caniatáu i blannu. Dylai rheoleiddwyr weithredu'n fwy cadarnhaol ac mae angen i'r broses fod yn haws.*
>
> Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Coedwigaeth

> *Y prif rwystr yw diffyg sicrwydd wrth gael mynediad i gymhellion ariannol i blannu a/neu ganiatâd i blannu. Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn parhau i fod yn heriol ac yn creu rhesymau i beidio â phlannu yn hytrach na'r agwedd fwy cadarnhaol o resymau i blannu.*
>
> Unigolyn, Coedwigaeth

Amheuaeth ynglŷn ag Effeithiolrwydd

Roedd rhai ymatebwyr yn wyliadwrus ynghylch gweithredu'r marchnadoedd carbon a'u heffeithiolrwydd cyffredinol o ran gwella canlyniadau amgylcheddol. Mae hyn yn deillio o'r dybiaeth benodol ac ymhlyg bod marchnadoedd yn annog dadleoli cyfanredol, sef nad yw marchnadoedd o anghenraid yn lleihau gweithgareddau sy'n llygru ac yn hytrach yn eu cynnal. O'r safbwyntiau hyn, mae atal a gwrthdroi dirywio amgylcheddol yn galw am gynyddu ardaloedd o goetir, a lleihau gweithgareddau sy'n llygru.

> *Er ein bod yn cytuno â'r angen taer i gynyddu coetiroedd ledled Cymru, mae gennym amheuaeth ynglŷn â dull y farchnad garbon o ariannu camau i greu coetiroedd, am nad yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r hyn sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd.*
>
> Bwyd Cynaliadwy Trefyclo, Amgylcheddol

Roedd pryderon hefyd ynglŷn â chreu coetir ar raddfa gyflym a bygythiadau posibl i fioamrywiaeth a'r amgylchedd ehangach.

> *Bydd yn hanfodol sicrhau y caiff marchnadoedd eu goruchwylio'n briodol a'u strwythuro mewn ffyrdd sydd ddim yn caniatáu ailadrodd y camgymeriadau a wnaed mewn planhigfeydd conifferaidd ungnwd graddfa fawr yng Nghymru, mewn degawdau a fu, a'r holl anfanteision a ddaeth yn eu sgil i bridd, dŵr a bioamrywiaeth.*
>
> Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol, Ymchwil/Academia

9 Tenantiaethau

9.1 Datrys Anghydfodau[13]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau pwerau gwneud rheoliadau er mwyn i denantiaid o dan denantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986) allu troi at drefniadau datrys anghydfod i benderfynu ar gais i landlord am ganiatâd i gynnal gweithgareddau. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau sydd wedi'u gwahardd o dan delerau eu cytundeb tenantiaeth neu gais i newid y telerau i'r tenant gael manteisio ar gymorth ariannol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau na fydd cyfyngiadau afresymol ar denantiaid rhag cael manteisio ar gymorth ariannol oherwydd telerau eu cytundebau tenantiaeth, ond gan sicrhau yr un pryd bod sefyllfa a buddiannau'r landlord yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses.

Yn gyffredinol, gwnaed llai o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn na chwestiynau eraill ac ni wnaeth llawer o ymatebwyr fynegi unrhyw farn benodol. Ni ddaeth patrymau clir i'r amlwg, ac mae cefnogaeth amodol yn ymddangos yn fwy cyffredin ymysg nifer fach o ymatebwyr.

Diogelu Tenantiaid

Gwnaeth Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru, corff cynrychioliadol sy'n cefnogi ac yn eirioli dros gymuned o ffermwyr tenant ledled Cymru, godi nifer o bryderon penodol ynglŷn â'r cynigion. Roeddent o'r farn bod y Papur Gwyn yn cynnig cyfle unigryw i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu ffermwyr tenant. Roeddent hefyd yn cydnabod a gwerthfawrogi teimlad cyffredinol y cynigion, gan gynnwys eu pwyslais ar gynorthwyo'r gymuned ffermio i gynnal a diogelu'r amgylchedd naturiol.

Fodd bynnag, roeddent yn teimlo y gallai'r cynigion gael eu cryfhau mewn nifer o feysydd. Byddai hyn yn sicrhau nad yw ffermwyr tenant yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y cynigion, ac y gallant wneud cyfraniad gwerthfawr i amcanion cyffredinol y diwygiadau.

[13] C13. A ydych chi'n credu y dylai'r trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir yn y cynigion gael eu hestyn i Denantiaethau Busnes Fferm (FBTs)? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

> *Er ein bod yn cytuno a'r cynllun i osod nodau ac amcanion polisi mwy eglur sy'n gwella'n uniongyrchol y ffordd mae arian cyhoeddus yn cael ei dargedu i gynhyrchu nwyddau cyhoeddus, bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod y Llywodraeth yn chwarae ei rôl ddilys yn ymdrin â methiannau'r farchnad ehangach yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r fframwaith ddeddfwriaethol a chyllidol y mae tenantiaethau fferm yn gweithredu ynddynt fel y gall y rhai sy'n gweithredu unedau dan denantiaeth chwarae eu rhan i ddarparu gwell nwyddau cyhoeddus a chael sylfaen deg i ddatblygu eu busnesau fferm.*
>
> Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru, 0806/EN/ORG

Mynegwyd pryderon penodol yn ymwneud â rôl tenantiaethau amaethyddol a diogelwch sydd wedi'i gynnwys yn y Papur Gwyn. Gall strwythur llawer o gytundebau tenantiaeth fod yn rhwystr i fuddsoddi yn y tir ac mewn seilwaith, a all atal tenantiaid rhag adeiladu eu busnesau. Gall hyn olygu bod ffermwyr tenant yn fwy dibynnol ar gymorthdaliadau a chymorth, a thanseilio cynaliadwyedd y sector tenantiaeth fel cyfanwaith. Roedd pryderon cysylltiedig y gallai'r cynigion ynghylch Rheoli Tir yn Gynaliadwy leihau'r cymorth ariannol cyffredinol i denantiaid. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â'r posibilrwydd o golli tir o sector amaeth tenantiaeth wrth i dirfeddianwyr geisio adennill meddiant o dir a osodwyd ar gytundebau tymor byr, er mwyn manteisio ar gynlluniau newid ar raddfa'r dirwedd, a phlannu coed yn benodol.

Am y rhesymau hyn ac eraill, roedd y Gymdeithas yn teimlo bod tenantiaid yn haeddu mwy o ddarpariaethau penodol sy'n diogelu a gwella eu sefyllfa fel stiwardiaid pwysig yr amgylchedd naturiol:

> *Er bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cyfres newydd o safonau gofynnol statudol ar gyfer amaeth, nid yw'n darparu unrhyw ddulliau i ffermwyr tenant sicrhau y gallant gydymffurfio â'r safonau hynny drwy orfodi neu leddfu'n briodol gyfyngiadau yn eu cytundebau tenantiaeth. Yn fwy sylfaenol, mae'r cynigion fel y maent wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyn yn fwriadol osgoi darparu cymorth angenrheidiol i denantiaid sy'n meddiannu ar Denantiaeth Busnes Fferm. Tenantiaethau o'r fath yw bron i hanner y sector tenantiaeth yng Nghymru bellach, gan gwmpasu 10 i 15% o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru.*
>
> Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru

Eiriolodd y Gymdeithas dros ddiogelwch cryfach i denantiaid. Roedd hyn yn rhannol er mwyn mynd i'r afael ag anghydbwysedd pŵer ymddangosiadol rhwng tenantiaid a thirfeddianwyr o ran gosod telerau cytundebau tenantiaeth:

> *Oherwydd y gwahaniaeth yn y farchnad, gall landlordiaid fynnu telerau heb roi cyfle i ddarpar denantiaid negodi'r telerau hynny. Mae angen i denantiaid o dan y cytundebau hyn gael yr un diogelwch â thenantiaid o dan fath hŷn o drefniadau.*
>
> Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru

Cynigiodd y Gymdeithas nifer o awgrymiadau ymarferol i fynd i'r afael â'r pryder hyn, gan gynnwys i ddiogelu ffermwyr tenant. Ymysg awgrymiadau eraill, roedd y rhain yn cynnwys creu Tenantiaethau Busnes Fferm tymor hwy drwy gyflwyno darpariaethau ar gyfer Tenantiaethau Busnes Fferm newydd gyda chyfnod cychwynnol o leiafswm o 10 mlynedd. Roedd yr awgrymiadau hefyd yn cynnwys cyflwyno darpariaethau statudol newydd i ganiatáu mwy o ryddid i landlord a thenant o dan denantiaeth y Ddeddf Daliadau Amaethyddol i wneud newidiadau i'r daliad mewn amgylchiadau pan fo'r partïon yn cytuno ar adleoli neu ad-drefnu a phan fo'r partïon yn cytuno bod y cytundeb newydd/diwygiedig am barhau yn denantiaeth y Ddeddf Daliadau Amaethyddol.

Roedd ymatebwyr a sefydliadau eraill hefyd yn teimlo y dylid diogelu buddiannau tenantiaid, ac roedd hynny'n cynnwys ceisio hybu'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y cynigion:

> *Mae angen i'r holl ffermwyr tenant gael eu diogelu rhag landlordiaid sy'n dymuno cael rheolaeth lwyr dros y ffordd y caiff y tir ei reoli, os yw arferion y tenant yn unol ag egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.*
>
> Bwyd Cynaliadwy Trefyclo, Amgylcheddol

> *Mae tenantiaethau yn gyfran fawr o'r ffordd mae ffermydd yn gweithredu yng Nghymru ac mae'n hanfodol na chaiff ffermwyr tenant eu rhwystro rhag gallu cael mynediad i'r cynlluniau hyn oherwydd eu cytundebau tenantiaeth. Felly mae darparu ffordd i ddatrys hyn ar gyfer pob ffermwr tenant yn synhwyrol.*
>
> Cynghrair Gweithwyr y Tir Cymru, Undeb Llafur / Cynrychiolydd

Dulliau Cymorth Eraill

Yn ychwanegol, awgrymodd rhai ymatebwyr ddulliau cymorth eraill a allai fod yn fuddiol ac a allai ddiogelu tenantiaid mewn ffordd sy'n fwy addas na'r hyn a nodir yn y cynigion:

> *Byddai proses o allu cynorthwyo 'lliniaru' yn adeiladol. Dylai'r Llywodraeth gyflogi mentoriaid a allai hwyluso sgyrsiau rhwng tenant a thirfeddiannwr, ac wedyn cael cynrychiolydd a gwybodaeth gyfreithiol yn bresennol i grynhoi'r sgyrsiau.*
>
> Unigolyn, Ffermio Defaid

> *Mae fframwaith Tenantiaeth Busnes Fferm wedi arwain at lai o anghydfodau ac felly llai o ddatrys drwy drydydd parti, a dylid ymddiried ynddo. Byddai darparu mwy o gymorth i bartïon i'w hannog i feddwl yn fanylach am delerau penodol eu cytundebau yn cael mwy o effaith ac effaith fwy cadarnhaol.*
>
> Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru

Pwysigrwydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Thema gyffredin yn yr ymatebion oedd pwysigrwydd arferion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r angen i'r cynigion fod ar gael i ffermwyr tenant i sicrhau y caiff yr amgylchedd ei ddiogelu:

> *Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi cynnwys Tenantiaethau Busnes Fferm yn y weithdrefn datrys anghydfodau ond mae'n rhaid iddynt gyd-fynd ag ethos deddfwriaeth Rheoli Tir yn Gynaliadwy a pheidio â chael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Dylai eithriadau fod yn eu lle i sicrhau na all manteision mesurau hirdymor megis plannu coed, adfer mawnogydd ac ati, gael eu dadwneud.*
>
> Sefydliad Gwy ac Wysg, Amgylcheddol

Pryderon Landlordiaid

Roedd thema fwy ymylol yn cynnwys landlordiaid a fynegodd bryderon ynglŷn â'r cynigion. O'r safbwyntiau hyn, roeddent yn teimlo y gallai amcanion y cynigion a sut gallai hyn effeithio ar ddefnydd tir wrthdaro â gofynion penodol y landlord. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â mwy o ansicrwydd i landlordiaid yn sgil cyflwyno darpariaethau newydd i ddatrys anghydfodau a allai fod yn rhwystr i osod tir:

> *Er ein bod yn cefnogi'r cynnig ac yn dymuno sicrhau bod gan ein tenantiaid fynediad llawn i'r arian sydd ar gael, mae'r cynigion hyn yn destun pryder i ni. Mae'n ofynnol gennym i'n tenantiaid ddefnyddio ystâd y Weinyddiaeth Amddiffyn mewn ffordd sy'n galluogi galluoedd milwrol, a allai gyfyngu ar ddefnydd y tenantiaid o'r tir. Caiff y gofyniad hwn ei adlewyrchu yn nhelerau eu cytundebau. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi i ddatblygu'r cynnig.*
>
> Y Weinyddiaeth Amddiffyn

> *Bydd darpariaethau newydd i drydydd parti ddatrys anghydfodau yn peri ansicrwydd i Landlordiaid ac yn debygol o annog Landlordiaid i beidio â chynnig Tenantiaethau Busnes Fferm hirdymor oherwydd y posibilrwydd o golli rheolaeth dros ddefnydd tir yn y dyfodol.*
>
> Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Diffyg Perthnasedd

Roedd thema fwy ymylol yn cynnwys y farn nad oedd y diwygiadau'n angenrheidiol. Roeddent yn teimlo bod strwythur tymor byr nodweddiadol Tenantiaethau Busnes Fferm yn golygu eu bod yn cael eu negodi'n amlach sy'n golygu bod y cynigion yn llai perthnasol. Roedd eraill yn teimlo bod dulliau gweithredu digonol eisoes yn eu lle ar gyfer Tenantiaethau Busnes Fferm, felly ni fyddai gweithdrefnau ychwanegol yn angenrheidiol:

O ystyried natur Tenantiaethau Busnes Fferm, ynghyd â'r ffaith eu bod yn cael eu negodi'n amlach na Thenantiaethau'r Ddeddf Daliadau Amaethyddol, nid oes angen i'r dull a ddisgrifiwyd o ddatrys anghydfodau gael ei hymestyn i Denantiaethau Busnes Fferm.

Unigolyn, Amgylcheddol

Ni chredwn fod y weithdrefn hon yn angenrheidiol ar gyfer Tenantiaethau Busnes Fferm gan fod dulliau gweithredu presennol eisoes yn eu lle.

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

9.2 Landlordiaid a Datrys Anghydfodau[14]

O'r nifer gymharol fach o ymatebion a gyfeiriodd at ddatrys anghydfodau, roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol.

Pwysigrwydd Datrys Anghydfodau

Thema allweddol oedd pwysigrwydd fframweithiau teg a chyson i ddatrys unrhyw anghydfodau. Roedd hyn yn gweithio er budd tenantiaid a landlordiaid i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid yr un mynediad i gynllun datrys anghydfodau pe byddai system yn cael ei chyflwyno:

Mae anghydfod fel arfer yn golygu nad yw dau berson yn cytuno a chredwn ei bod yn deg i landlordiaid a thenantiaid gael mynediad i gynllun datrys anghydfodau.

Fforwm Tiroedd Comin Cymru, Ffermio

Credwn y dylai fod gan landlordiaid a thenantiaid fynediad i gynllun datrys anghydfodau yn yr un modd. Credwn y byddai gwneud fel arall yn annheg.

Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

Diogelu'r Daliadau

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai ymestyn y cynllun datrys anghydfodau i gynnwys landlordiaid yn fuddiol mewn amgylchiadau pan fyddai tenantiaid yn camddefnyddio'r daliad neu'n niweidio'r ecosystem:

Ydym, os yw ffermwr tenant yn cam-drin y tir a thrwy hynny'n cyfrannu at niweidio'r ecosystem a chynyddu allyriadau.

Bwyd Cynaliadwy Trefyclo, Amgylcheddol

[14] C14. A ydych chi'n credu y bydd yna adegau pan fyddai'r landlord angen defnyddio'r un trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir uchod? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

9.3 Cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy – Cytundebau ar y Cyd[15]

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gadarnhaol gan fwyaf, yn benodol wrth gyflwyno cytundebau cynllun ar y cyd fel opsiwn newydd sydd ar gael i denantiaid yn hytrach na'u bod yn disodli cytundebau presennol. Roedd y farn ar fanteision posibl yn canolbwyntio ar gynlluniau amgylcheddol hirdymor megis creu coetiroedd, a fyddai'n fwy hyfyw o dan gytundebau cynllun ar y cyd. Fodd bynnag, daeth pryderon i'r amlwg ynglŷn â'r angen i sicrhau bod taliad i denantiaid a landlordiaid yn adlewyrchu risg a llwyth gwaith yn briodol, ac roedd galwadau am fwy o gymorth gan Gyswllt Ffermio i gynorthwyo i fabwysiadu'r cytundebau ar y cyd yma.

Rhaid i'r Taliadau Adlewyrchu'r Risg a'r Llwyth Gwaith

Roedd gan y rhai a oedd yn teimlo ei bod yn bwysig diogelu a sicrhau hawliau tenantiaid a landlordiaid farn gadarnhaol ynglŷn â'r cynigion, a'u bod yn elwa'n gydradd o'r trefniadau a'r cymorth sydd ar gael. Yn benodol, roedd llawer o ymatebwyr yn galw am i'r taliadau adlewyrchu llwyth gwaith, baich, risg a buddsoddiad yn briodol:

> *Ar diroedd comin, mae angen y gallu i wobrwyo'r rhai sy'n ymgymryd â gwaith rheoli ar y tir yn unol ag ysbryd neu reoliadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy a pheidio â gwobrwyo'r rhai nad ydynt yn rheoli'n weithredol nac yn pori a'u bod yn dal i allu hawlio eu cyfran o Gynllun y Taliad Sylfaenol.*
>
> Unigolyn, Ffermio Defaid

> *Byddai'n ymddangos yn synhwyrol galluogi dull partneriaeth o gyflawni nwyddau cyhoeddus rhwng landlordiaid a thenantiaid, cyhyd â bod darpariaethau ariannol manwl y cynllun yn sicrhau y caiff partïon eu gwobrwyo'n gymesur â'u gwaith a/neu fuddsoddiad.*
>
> Canolfan y Dechnoleg Amgen, Trydydd Sector

Cyfyngiadau Ymarferol

Roedd pryderon, fodd bynnag, yn ymwneud â sut byddai'r cytundebau'n gweithio'n ymarferol. O'r safbwyntiau hyn, gallai fod yn anodd negodi setliad rhwng tenant a landlord o ystyried y gallai eu buddion fod yn gwrthdaro. Mae llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gytundebau tenantiaeth ar y cyd fel opsiwn ychwanegol i ffermwyr gan ystyried pob achos yn unigol, ond maent yn rhybuddio na ddylai cytundebau o'r fath fod yn ddiofyn oherwydd y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrthynt:

[15] C15. Yn eich barn chi, a fyddai'n briodol caniatáu cytundebau SLM ar y cyd rhwng landlordiaid/tenantiaid? Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. maint yr angen, y manteision, yr anfanteision a'r effeithiau tebygol.

Er ein bod yn deall pam fod hyn yn cael ei awgrymu a gallai'n wir fod yn fuddiol a gwerthfawr mewn rhai amgylchiadau, byddem yn rhybuddio rhag gwneud hyn i fod y sefyllfa gyffredin. Bydd yn galw am negodi a thrafod sylweddol rhwng landlordiaid a thenantiaid i ddod i gytundebau mewn perthynas â sut byddai gofynion y cytundeb Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu rhannu rhyngddynt, ac ati, a gallai effeithio ar y perthnasoedd masnachol sydd eisoes yn eu lle rhyngddynt yn rhinwedd y cytundeb tenantiaeth neu'r ddeddfwriaeth sylfaenol ymhlyg.

Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

Ni ddylai cytundeb landlord/tenant fod yn ddigwyddiad cyffredin o ystyried y cymhlethdodau posibl, yn arbennig mewn perthynas ag atebolrwydd cydymffurfio. Fodd bynnag, y mae angen iddo fod yn opsiwn sydd ar gael o ystyried y dull gweithredu sydd ei angen i gyflawni rhai canlyniadau / nwyddau cyhoeddus.

Unigolyn, Amgylcheddol

Angen Mwy o Gymorth

Roedd rhai ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chytundebau ar y cyd, ond yn pwysleisio bod angen cymorth ychwanegol i ganiatáu i'r fath gynlluniau gael eu mabwysiadu'n llwyddiannus:

Byddai o gymorth pe byddai'r broses hon yn cael ei rheoli/cynorthwyo gan Gyswllt Ffermio, drwy ddarparu contractau templed ac yn y blaen, oherwydd gall Cyswllt Ffermio gynnig yr arbenigedd cyfreithiol ac arbenigedd ar sail profiad, na fyddai gan y ffermwr a'r tenant unigol.

Cynghrair Polisi Bwyd Cymru

Prosiectau Amgylcheddol Hirdymor

Thema gref ymysg yr ymatebion oedd y manteision y byddai cytundebau ar y cyd yn eu cynnig i brosiectau gwella amgylcheddol hirdymor, yn arbennig mewn perthynas â choedwigaeth a chreu coetiroedd. Dywedwyd bod tenantiaethau tymor byr a rhwystrau gweinyddol eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid yn rhwystro prosiectau hirdymor, ac roedd cytundebau ar y cyd, yn arbennig y tu hwn i oes tenantiaeth unigol, yn cael eu croesawu fel ateb posibl i hyn:

Caiff prosiectau hirdymor megis coedwigaeth, yn arbennig coedwigaeth ar gyfer credydau carbon, eu rhwystro oni bai bod manteision i'r tenant a'r landlord ill dau. Byddai hyn hefyd yn wir yn achos creu coetir ar gyfer lliniaru llifogydd a phrosiectau cynefinoedd hirdymor megis adfer rhosydd a gweirgloddiau.

Unigolyn, Sector Preifat

Gallai hyn fod yn fuddiol, yn arbennig ar gyfer canlyniadau hirdymor megis adfer cynefinoedd gan gynnwys mawndiroedd a chreu ac adfer coetiroedd... Gall caniatáu cytundebau Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar y cyd rhwng landlord a thenant chwarae rôl

wrth sicrhau'r ymrwymiadau hirdymor sydd eu hangen er mwyn adfer llawer o gynefinoedd.

RSPB Cymru, Amgylcheddol

10 Iechyd a Lles Anifeiliaid[16]

Crynodeb o'r Cynigion

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu bethau eraill, e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad newydd neu achos o glefyd anifeiliaid. Ar hyn o bryd, ni cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny. Bydd yn rhoi'r modd i Weinidogion Cymru ymateb ar fyrder i glefyd newydd a all ymddangos yn sydyn a lledaenu'n gyflym ymhlith anifeiliaid a phobl, er mwyn diogelu iechyd pobl ac anifeiliaid, ynghyd â'r economi wledig, yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig rhoi pwerau i Weinidogion Cymru enwi 'anifail', 'anifail a ffermir', 'da byw', 'anifail anwes', ac 'anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol', y tu hwnt i'r diffiniadau traddodiadol caeth presennol. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd. Dylai hynny leihau unrhyw amwysedd yn y mesurau rheoli clefyd presennol a chaniatáu ymateb cywirach a mwy cymesur i berygl newydd o glefyd neu sy'n ymddangos. Hefyd, dylai'r pwerau hyn alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno system orfodol ar gyfer tagio anifeiliaid yn achos rhywogaethau a gedwir, lle nad oes system yn bod eisoes a lle byddai hynny'n addas i allu olrhain anifeiliaid yn effeithiol a diogelu iechyd anifeiliaid a phobl.

O'r rhai a roddodd sylwadau ar y cynigion ynghylch pwerau ychwanegol ac Ardaloedd Rheoli Symudiadau, roedd y mwyafrif o blaid.

Pwysigrwydd Ymatebion Cyflym ac Effeithiol

Nodwedd allweddol o farn yr ymatebwyr oedd pwysigrwydd gweithredu ymatebion i achosion o glefyd yn gyflym. Roedd hyn yn awgrymu cefnogaeth i bwerau ychwanegol i ymateb mewn amgylchiadau penodol, a chyfeiriodd ymatebwyr yn aml at brofiadau clwy'r traed a'r genau fel sail resymegol i'r cynigion. Teimlwyd bod hyn yn bwysig i liniaru risgiau presennol a rhai a fydd yn codi:

> *Mae'r cynnig i roi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru yng nghyd-destun rheoli clefydau anifeiliaid mewn sefyllfa o epidemig i'w groesawu. Wrth ddefnyddio*

[16] C16. Beth yw'ch barn am y cynigion i roi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i: a) Sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu bethau eraill e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad o glefyd anifeiliaid arwyddocaol newydd lle na cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny ar hyn o bryd? B) Enwi 'anifail', 'anifail a ffermir', 'da byw', 'anifail anwes', ac 'anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol', y tu hwnt i'r diffiniadau traddodiadol caeth presennol i sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd? Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

> *enghraifft Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, byddai'n sicr wedi darparu ffordd mwy effeithlon i ddileu'r clefyd ynghyd ag arbedion economaidd ac effaith gymdeithasol ar y ffermwyr eu hunain pe byddai dulliau datganoledig wedi'u mabwysiadu i reoli clefydau.*
>
> Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

Roedd cefnogaeth hefyd i'r cynigion yn fwy cyffredinol, gan gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar ddulliau ataliol mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid. O'r safbwyntiau hyn, ystyriwyd bod gogwydd cyffredinol y cynigion yn briodol, a bod y pwerau a geisir drwy'r Papur Gwyn yn gymesur.

> *Cefnogwn yn gryf roi cydnabyddiaeth i egwyddor allweddol yn y Fframwaith, sef bod atal yn well na iacháu… Mae manteision amlwg i sefydlu safonau gofynnol cenedlaethol clir. Byddent o gymorth i gyfathrebu a dealltwriaeth ac yn darparu llinell sylfaen ddeddfwriaethol gadarn. Gwerthfawrogwn fod Llywodraeth Cymru eisiau pwerau ychwanegol i sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau pe byddai achos o glefyd anifeiliaid yn codi i alluogi'r Gweinidogion i ymateb ar unwaith a'u galluogi i bennu stoc y tu hwnt i'r diffiniadau llai hyblyg presennol. Nodwn fod cynnig i gyflwyno sancsiynau sifil mewn achosion o beidio â chydymffurfio â rheolaethau clefydau anifeiliaid a safonau lles anifeiliaid. Byddai hynny i'w groesawu a byddai'n gyson â sancsiynau sifil a gynigir i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd eraill.*
>
> Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Cynnal Safnau Lles Uchel

Cymerodd eraill hefyd y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd cynnal safonau lles uchel.

> *Cytuno y [dylem] sefydlu ardaloedd rheoli symudiadau i reoli lledaeniad haint. Rhaid peidio â gadael i safonau lles anifeiliaid ostwng.*
>
> Unigolyn, Garddwriaeth

Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng safonau lles isel a chynnydd mewn baich clefydau a risgiau cysylltiedig. Dyma'r farn yn benodol ymysg y rhai a oedd yn pryderu ynglŷn â nifer gynyddol o unedau cynhyrchu dwys:

> *Rydym yn bryderus iawn ynglŷn â'r nifer gynyddol o unedau dofednod, ffermydd moch ac unedau godro dwys. Nid oes yr un lle i'r rhain mewn system ffermio gynaliadwy ac maent yn cyfrannu at ddirywio'r amgylchedd yn sgil llygredd nitrogen, problemau lles anifeiliaid, a risgiau o glefydau.*
>
> Rhwydwaith Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, Undeb Llafur / Cynrychiolydd

Pwysigrwydd Deialog ac Ymgynghori

Roedd cydnabyddiaeth hefyd o bwysigrwydd deialog ac ymgynghori wrth i sefyllfaoedd godi pan fyddai angen arfer pwerau. Dyma oedd barn llawer o ymatebwyr, a oedd yn galw am fwy o ymgysylltu â'r cyhoedd. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd ymgynghori mwy, yn benodol ynglŷn â goblygiadau dosbarthiadau newydd i anifeiliaid, y tu allan i'r cyd-destun amaethyddol, megis ym meysydd cadwraeth ac yswiriant:

> *Cefnogwn greu pwerau cyffredinol i sefydlu ardaloedd symudiadau i reoli clefydau pe byddai bygythiad newydd neu achos o glefyd. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl bod yn rhan o fforwm i weithio ar y manylion ynglŷn â phryd a sut byddai ardaloedd o'r fath yn cael eu sefydlu. Credwn yn gryf y dylai ardaloedd symudiadau a'r dull o'u gweithredu fod yr un peth ar draws Cymru a Lloegr.*
>
> Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru, Ffermio

> *Mae hyn yn destun pryder ac mae angen ei ystyried yn ofalus gan ymgynghori â'r cyhoedd lawer yn llawnach a mwy penodol.*
>
> Unigolyn, Amgylcheddol

> *Mae posibilrwydd y gallai newidiadau i'r diffiniadau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori fod ag oblygiadau sylweddol i'r sector cadwraeth ac yswiriant. Bydd angen ystyried effaith newidiadau y tu allan i'r cyd-destun amaeth yn unig cyn gweithredu.*
>
> Cyfoeth Naturiol Cymru, Sector Cyhoeddus

Pwysigrwydd Cysondeb yn y Dull Gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig

Thema allweddol ar draws yr ymatebion oedd pwysigrwydd cynnal cysondeb ddeddfwriaethol â gweddill y Deyrnas Unedig, yn arbennig i ffermydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn ganolog i unrhyw ymateb effeithiol i achos o glefyd.

> *Rydym yn cydnabod pwysigrwydd pwerau i Weinidogion Cymru i addasu ac ymateb i fygythiadau sy'n codi. Y pryder allweddol y dymunwn dynnu sylw ato yw parhau i weithio gyda gwledydd eraill y Deyrnas Unedig i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw fygythiadau newydd neu fesurau rheoli ar y cyd gan adlewyrchu'r fasnach oddi mewn i'r Deyrnas Unedig mewn cynnyrch a sgil-gynhyrchion da byw.*
>
> Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru

Cytunwn â'r cynnig hwn, fodd bynnag, teimlwn y dylai penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru gydweddu â DEFRA ac APHA a pheidio â gwrthdaro â'r hyn mae rhanbarthau eraill yn ei wneud. Gall pwerau sy'n gwrthdaro fod yn anodd i ffermwyr sy'n gweithredu ar draws ffiniau.

Lantra

Mwy o reoliadau/cymhellion ar lefel ffermydd unigol

Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r newidiadau a gynigir hefyd yn pwysleisio bod angen mwy o fframweithiau rheoleiddio a chynlluniau cymhelliant i ddiogelu lles anifeiliaid a rheoli'r risg o glefydau ar raddfeydd llai. Rhoddwyd amrywiaeth o awgrymiadau megis polisïau newydd i'r fuches, deddfwriaeth i atal gorlenwi, ac achrediad ar gyfer bod heb glefyd:

Rydym yn argymell y dylai ffermwyr gytuno a gweithredu polisi'r fuches ar gyfer cyflwyno unrhyw anifeiliaid newydd ac ynysu gyda'u milfeddyg preifat fel rhan o'u cynllun iechyd y fuches.

Cymdeithas Milfeddygon Prydain, Milfeddygaeth

Mae cynyddu bioddiogelwch er mwyn lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo clefydau a chyflwyno clefydau a rhywogaethau estron yn hanfodol. Fodd bynnag, dylid canolbwyntio ar faterion megis cymell ffermwyr yn ariannol.

FWAG Cymru, Ffermio

11 Maglau[17]

Crynodeb o'r Cynigion

Cafodd deddfwriaeth bywyd gwyllt ei hystyried fel rhan o'r dadansoddiad yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith bywyd gwyllt. Barn Comisiwn y Gyfraith yw y gallai fod o fudd yn y dyfodol i gyflwyno rheoliadau ychwanegol ar sut i ddefnyddio ac archwilio maglau perthnasol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid gwahardd defnyddio maglau'n llwyr.

Pryder am Rywogaethau Heb eu Targedu a Lles Anifeiliaid

Daeth barnau cryf i'r amlwg ynglŷn â lles anifeiliaid, gyda rhai ymatebwyr yn galw am fwy o reolaeth/rheoleiddio ac eraill yn galw am waharddiadau llwyr. Yn ganolog i hyn yn aml oedd y ddealltwriaeth y gallai maglau niweidio rhywogaethau sydd heb eu targedu, yn ogystal â lles y rhywogaethau a dargedir:

> *Mae maglau'n achosi'r dioddefaint, trallod ac anafiadau mwyaf arswydus i fywyd gwyllt ac maent yn gwbl annerbyniol. Nid oes unrhyw ffordd i'w defnyddio heb greulondeb. Mae Codau Ymarfer honedig yn gweddu i fuddiannau diwydiant yn unig ac ni allant ddiogelu lles anifeiliaid – beth bynnag, cânt eu hanwybyddu'n helaeth.*
>
> Unigolyn, Arall

> *Mae angen i unrhyw offer a allai achosi dioddefaint a/neu faterion lles gael eu rheoli mewn rhyw ffordd os oes rhesymau dilys iddynt gael eu caniatáu yn y lle cyntaf.*
>
> Safonau Masnach Cymru, Sector Cyhoeddus

Gwahardd Maglau

Yn dilyn ymlaen o'r pryder hwn am les anifeiliaid, roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid gwahardd defnyddio maglau'n llwyr. Roedd hyn yn cynnwys ymatebion ymgyrch gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon, ond hefyd ymatebion eraill gan unigolion a sefydliadau.

> *Dylid gwahardd maglau'n llwyr.*
>
> Y Gydweithfa Tir Ecolegol, Trydydd Sector

[17] C17. Beth yw'ch barn am y cynnig i ddarparu pŵer er mwyn cael mwy o reolaeth ar faterion fel cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau? A oes angen pŵer o'r fath? Os nad oes, pam? Os oes, pa faterion yn eich barn chi y dylai'r pŵer fynd i'r afael â nhw?

Rwyf yn cefnogi gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio maglau, oherwydd y dioddefaint maith maent yn achosi i anifeiliaid. Credaf fod dulliau mwy priodol y gellid eu defnyddio i reoli plâu.

Unigolyn, Amgylcheddol

Ymgyrch y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon

Derbyniodd yr ymgynghoriad ymatebion drwy ymgyrch a drefnwyd gan y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon. Roedd y sefydliad yn annog cefnogwyr i rannu eu barn ar ddefnyddio maglau. Maent yn ystyried bod maglau'n greulon ac aneffeithiol, ac y dylai'r Papur Gwyn fynd ymhellach gan wahardd eu defnyddio. Roedd ymatebion nodweddiadol yn cynnwys:

Rwyf wedi byw yng Nghefn Gwlad gydol fy oes ac yn y blynyddoedd diwethaf gwelais â fy llygaid fy hun y niwed a achosir gan faglau a'u perygl i lwynogod, moch daear, ceirw, adar ysglyfaethus, cŵn/cathod anwes. Roedd cymydog blaenorol yn arfer dal llwynogod a'u cadw yn barod at helfa. Ni fu dim y gallwn wneud erioed ond teimlo trallod a dicter ac yn ddiymadferth yn erbyn pobl sy'n cyflawni'r gweithredoedd hyn. Byddai'n wych pe byddai'r gwaharddiad hwn yn cael ei gyflwyno a rhoi dirwyon sylweddol i unrhyw un a gaiff ei ddal â magl neu lwynog, ysgyfarnog, aderyn ysglyfaethus, carw neu fochyn daear yn ei feddiant.

Unigolyn

Dylai gweinidogion Cymru gael y pwerau i lunio deddfau ar bob agwedd ar faglau a maglu a dylent ddefnyddio'r pwerau hyn cyn gynted ag y bo modd i wahardd maglau a maglu. Dim ond gwaharddiad llawn ar weithgynhyrchu, gwerthu, meddu ar a defnyddio maglau all waredu'n llwyr y creulondeb a'r dioddefaint y maent yn achosi i'r anifeiliaid y bwriedir eu dal, ynghyd ag i fywyd gwyllt gwarchodedig ac anifeiliaid anwes. Ni fyddai rheoleiddio, trwyddedu nac unrhyw fesurau'n brin o'r gwaharddiad cynhwysfawr hwn yn cyflawni'r un canlyniad.

Unigolyn

Rheolaethau Tynnach

Hyd yn oed ymysg yr ymatebwyr hynny nad oedd yn galw am waharddiad llwyr ar faglau, roedd llawer yn cefnogi cyflwyno rheolaethau tynnach ynglŷn â'u defnyddio.

Rwy'n cefnogi'r cynnig i gynyddu rheolaethau. Mae taer angen pŵer o'r fath.

Unigolyn, Ffermio Cymysg

Yn gysylltiedig â hyn, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y mesurau sydd yn eu lle yn yr Alban a mynegwyd diddordeb mewn mabwysiadu rheolaethau tebyg yng Nghymru.

Rydym yn cefnogi'r dull gweithredu yn yr Alban i reoli a rheoleiddio'r defnydd o faglau, a hoffem i hyn gael ei fabwysiadu ledled y Deyrnas Unedig. Rydym felly'n cefnogi'r cynnig i gael pŵer i alluogi mwy o reolaethau dros weithgynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau.

Cymdeithas Milfeddygon Prydain, Milfeddygaeth

Diogelu Da Byw

Ar y llaw arall, roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo na ddylai'r cynigion wrthdaro â gallu ffermwyr i ddefnyddio maglau fel ffordd i ddiogelu da byw, gan fod maglau'n cael eu hystyried yn offeryn pwysig i reoli plâu:

Mae maglau'n offeryn pwysig i ddiogelu da byw a dofednod, ac o'r hyn wyddom ni, nid oes tystiolaeth na fu'r diwydiant yn dilyn y cod arferion gorau.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

O brofiad personol o adnabod ffermwyr sy'n cael problemau â chadnoid, heb y maglau byddent yn colli llawer o ŵyn dros y gaeaf a byddai hyn yn effeithio ar incwm eu fferm a'u hiechyd meddwl yn gyffredinol. Gyda'r gwaharddiad ar hela cadnoid, mae ar ffermwyr angen ffordd i allu ymdrin â'r rheoli pla yma heb orfod mynd drwy weithdrefn hir neu ddefnyddio trydydd partïon ar gost.

Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan

Deddfwriaeth Bresennol yn Ddigonol

Yn gysylltiedig â'r thema hon, roedd safbwynt ymylol yn cynnwys y canfyddiad bod deddfwriaeth bresennol yn ddigonol ac y dylid rhoi mwy o bwyslais ar wella gorfodaeth.

Nid oes gennym unrhyw broblem â deddfwriaeth ynghylch gwerthu a defnyddio maglau cyhyd â nad ydynt yn cyfyngu ar allu ffermwyr i'w defnyddio pan fo'n angenrheidiol... Mae hyn yn debygol o fod yn enghraifft arall mai angen gorfodi deddfwriaeth bresennol yn well sydd, yn hytrach na bod angen mwy o reoliadau.

Fforwm Tiroedd Comin Cymru, Ffermio

Pryder ynglŷn ag Effeithiau Negyddol Cynyddu Cyfyngiadau

Mynegodd rhai bryder ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol posibl cynyddu rheolaeth ar ddefnyddio maglau megis cynnydd mewn maglau wedi'u gwneud gan bobl eu hunain neu brynu/gwerthu ar draws ffiniau Cymru.

Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o reoleiddio cynhyrchu a gwerthu maglau, onid oes awgrym o sut gallai hyn gael ei orfodi neu'i reoli? Y mae risg y byddai pobl yn creu eu trapiau eu hunain, a all fod yn fwy peryglus. Sut byddai'r pwerau hyn yn cael eu gorfodi er mwyn cyfyngu ar eu defnydd yng Nghymru? A yw'n bosibl y gall maglau barhau i gael eu cynhyrchu a'u prynu y tu allan i Gymru?

Menter a Busnes, Trydydd Sector

Angen Mwy o Ymgynghori

Nododd grŵp o ymatebwyr fod angen ymgynghori mwy ar y mater cyn i unrhyw ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno, a bod angen mwy o fanylion ar orfodi unrhyw reoliadau newydd.

Dylid cynnal ymgynghoriad llawn a phriodol cyn cyflwyno unrhyw reoliadau newydd.

Cymdeithas Milfeddygon Prydain, Milfeddygaeth

Cyn cyflwyno deddfwriaeth bellach yn y maes hwn, dylid cyflwyno gwell dealltwriaeth o'r materion ynglŷn â dilyn Cod 2015. Pam nad yw'n gweithio? Nid yw'r Papur Gwyn yn egluro hyn.

Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol

O fod wedi darllen y cyfrif yn y papur ymgynghori, rydym yn dal i fod eisiau gweld y ddadl yn cael ei chyflwyno bod angen y fath bŵer ac wedyn, ar y briff yn y papur, y byddai modd iddo gael ei orfodi'n effeithiol, yn hytrach na'i fod yn arwydd ar y llyfr statud.

Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol

12 Asesiadau Integredig o Effeithiau[18]

Mae'n ymddangos bod ffocws a natur yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n sylweddol. Roedd ystod sylweddol o faterion ac effeithiau yr oedd ymatebwyr yn teimlo fyddai'n werthfawr eu hystyried wrth fireinio'r cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys ffactorau y dylid eu harchwilio'n fanylach mewn Asesiadau Integredig o Effeithiau. Mewn rhai achosion, yn benodol ac ymhlyg, cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at feysydd yr oeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar y materion hyn. Roedd y ffactorau a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys:

- Y Gymraeg
- Diwylliant a threftadaeth
- Mynediad cyhoeddus i dir gwledig
- Iechyd a lles ffermwyr
- Canlyniadau economaidd i gymunedau gwledig
- Pryderon amgylcheddol a'r newid yn yr hinsawdd
- Olyniaeth a chyfleoedd i bobl ifanc
- Ffermio organig a chynhyrchu bwyd
- Diffinio 'ffermwr actif'

Er enghraifft nododd amryw ymatebwyr bwysigrwydd diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg a'r angen i gynnal asesiad effaith manylach. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd dadansoddi pellach, yn ogystal â chanfyddiad o effeithiau negyddol y cynigion ar y Gymraeg a diwylliant Cymru:

> *Nid ydym yn ystyried bod yr asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn ddigonol. Nid yw'n cynnwys y math o fanylder y gobeithiem ei weld mewn asesiad effaith trwyadl. Mae i gyflwyno'r Bil oblygiadau pellgyrhaeddol i'r Gymraeg a rhai cynigion y credwn y bydd iddynt effaith andwyol ar yr iaith, felly byddem wedi disgwyl gweld pob cynnig a gyflwynwyd yn derbyn sgôr am statws ei effaith ar y Gymraeg, a bod mesurau lliniaru wedi'u nodi ar gyfer unrhyw effeithiau andwyol.*
>
> Comisiynydd y Gymraeg, Sector Cyhoeddus

> *Credwn fod y nod penodol i beidio â "[th]argedu diwylliant a threftadaeth yn benodol" drwy'r cynllun newydd yn atchweliadol ac y caiff effaith andwyol enfawr ar yr amgylchedd hanesyddol a'r nwyddau economaidd a chyhoeddus y bydd yn eu cynhyrchu... Byddai'n arwydd clir bod Llywodraeth Cymru'n rhoi llai o werth i'w threftadaeth wledig nag oedd yr Undeb Ewropeaidd, ac yn sgil hynny ei bod yn amharod i gefnogi na gwobrwyo ffermwyr am ei diogelu.*
>
> Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a'r Cyngor Archaeoleg Brydeinig, Amgylcheddol

[18] C18. Beth yw'ch barn chi am yr effeithiau rydym wedi'u nodi yn yr asesiad integredig o'r effeithiau? A oes angen ystyried effeithiau eraill?

Cyfeiriodd eraill at faterion penodol y credent ddylai gael mwy o sylw yn y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd cefnogi olyniaeth, a mwy o gefnogaeth i bobl ifanc i fyw a gweithio mewn cymunedau gwledig:

> *Hoffem weld mwy o sylw i bwysigrwydd olyniaeth mewn busnesau fferm a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n cael eu geni i'r diwydiant ffermio ac sy'n dod i mewn iddo.*
>
> Fforwm Tiroedd Comin Cymru, Ffermio

Roedd iechyd a lles ffermwyr a'r gymuned wledig ehangach yn bryder allweddol, a galwodd yr ymatebwyr am fwy o ystyriaeth i'r mater hwn:

> *Dylai effeithiau cymdeithasol gwahanol sefyllfaoedd – e.e. ar iechyd a lles ffermwyr, ar gydlyniant cymunedol gwledig a lleihau tlodi, ar adnewyddu rhwng y cenedlaethau ym myd ffermio ac ar gyfalaf cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig – oll gael eu hystyried yn llawnach mewn unrhyw asesiad integredig o effeithiau.*
>
> Prifysgol Swydd Gaerloyw – Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol, Ymchwil/Academia

> *Cytunwn â phryderon bod i'r lefel o newid a gynigir y potensial i gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl ffermwyr, ac felly bydd cyngor, canllawiau a chymorth clir yn bwysig i liniaru hyn.*
>
> Grŵp Llywio Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru, Ffermio

13 Y Gymraeg

13.1 Trin y Gymraeg yn Gyfartal[19]

Cymunedau Gwledig a'r Gymraeg

Thema allweddol yn yr ymatebion oedd y cyswllt rhwng cymunedau gwledig a'r Gymraeg. O'r safbwyntiau hyn, roedd cefnogi amaeth yn bwysig i sicrhau cymunedau gwledig bywiog, ac yn sgil hynny, diogelu a hybu'r Gymraeg. Roedd sicrhau bod pobl leol yn gallu dibynnu'n ariannol ar ffermio i'w cynnal eu hunain a'u teuluoedd yn cael ei ystyried yn hanfodol i ddiogelu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

> *Mae cymunedau gwledig, a'r sectorau ffermio a choedwigaeth yn arbennig, yn brif gynheiliaid i'r Gymraeg.*
>
> Unigolyn, Sector Preifat

> *Mae angen cydnabod statws y diwydiant amaeth fel 'lluosogydd ieithyddol' a sicrhau nad yw unrhyw newid mewn pwyslais masnachol o ganlyniad i'r polisi yn anfanteisiol i'r iaith.*
>
> Unigolyn, Ffermio Defaid

> *Bydd unrhyw leihad yn nifer y ffermwyr neu weithwyr fferm a phroffesiynau cysylltiedig yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg, cydlyniant cymunedol, treftadaeth a diwylliant. Bydd sicrhau taliadau realistig drwy'r cynllun newydd yn sicrhau y gall pobl leol barhau yn yr ardaloedd gwledig ac mae'r gallu i gadw'r genhedlaeth nesaf yn yr ardaloedd hyn yn dod yn nod y gellir ei gyflawni.*
>
> FWAG Cymru, Ffermio

Awgrymiadau ar gyfer Diogelu'r Gymraeg

Cynigiodd yr ymatebwyr amrywiaeth o awgrymiadau ar gyfer diogelu a hybu'r Gymraeg. Er enghraifft, cefnogi ffermydd bach a theuluol:

> *Bydd unrhyw beth y bydd polisi amaeth ac amgylcheddol yn y dyfodol yn ei wneud sy'n rhoi pwysau ar fusnesau fferm, yn arbennig camau sy'n bygwth ffermydd teuluol, yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg a'r diwylliant ehangach sy'n gysylltiedig â hi.*
>
> Fforwm Tiroedd Comin Cymru, Ffermio

[19] C19. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai cynigion y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Mae cefnogi ffermydd teuluol yn hanfodol i gefnogi ffyniant y Gymraeg yng Nghymru.

Unigolyn, Ffermio Defaid

Roedd hybu'r Gymraeg ymysg pobl ifanc hefyd yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth benodol:

Ffurfioli cefnogaeth i glybiau Ffermwyr Ifanc i hybu'r Gymraeg ar lefel sirol a chenedlaethol.

Unigolyn, Ffermio Defaid

Caiff y Gymraeg ei heffeithio gan niferoedd y bobl mewn cymunedau gwledig lle mai'r Gymraeg yw'r brif iaith a'r cyfleoedd i bobl ifanc gael eu magu yno.

Rhwydwaith Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, Undeb Llafur / Cynrychiolydd

Roedd galw hefyd am fwy o gefnogaeth drwy wasanaethau cyfieithu, hyfforddiant a chyngor i ddefnyddio'r Gymraeg:

Mae angen cynyddu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector drwy wasanaethau cynghori a chynlluniau datblygu sgiliau.

Comisiynydd y Gymraeg, Sector Cyhoeddus

Darparu gwasanaeth cynghori Cymraeg. Ar hyn o bryd mae costau cyfieithu yn go uchel felly mae angen mwy o gyllid.

Bwyd Cynaliadwy Trefyclo, Amgylcheddol

Roedd rhai ymatebwyr yn galw am fynd ati'n fwy bwriadol i gasglu data, monitro a chynllunio ar gyfer hybu'r Gymraeg fel rhan o'r ddeddfwriaeth:

Mae angen casglu data ar y Gymraeg yn y sector er mwyn gosod sylfaen dystiolaeth a fyddai'n llywio datblygiadau polisi yn y dyfodol.

Comisiynydd y Gymraeg, Sector Cyhoeddus

Mae unrhyw fudd i'r iaith a nodir naill ai'n sgil-effaith neu'n effaith anfwriadol neu arwynebol. O ystyried mai dyma'r ddeddfwriaeth a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y diwydiant sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg o'r holl ddiwydiannau yng Nghymru, nid yw hyn yn ddigon da.

Unigolyn, Ffermio Defaid

Roedd hyn wedi'i gynnwys hefyd mewn perthynas â darparu cyngor a chanllawiau:

Rydym yn cynnig bod angen i dargedau ar gynnydd / parhad ieithyddol gael eu gosod fel mesur penodol yn y polisi, gyda dull i asesu, adrodd ac adolygu effaith polisïau newydd ar ffyniant yr iaith.

Menter a Busnes, Trydydd Sector

Bygythiadau i'r Gymraeg

Nodwyd bod effaith ynysigrwydd cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig yn fygythiad i ddefnyddio'r Gymraeg:

Teimlaf nad oes gan y papur gwyn unrhyw effaith na newid buddiol i fywyd na'r iaith. Mae bywyd ffermio wedi newid o gwrdd yn y dafarn a chael sgwrs i fod yn unig ac yn rhannol ddigalon; mae hynny wedi lladd tafodiaith Gymraeg leol yr ardal.

Unigolyn, Ffermio Defaid

13.2 Sicrhau Effeithiau Cadarnhaol[20]

Derbyniodd y cwestiwn hwn ymatebion tebyg i'r cwestiwn blaenorol. Roedd llawer o'r atebion yn ailadrodd awgrymiadau am ffyrdd i ddiogelu a hybu'r Gymraeg. Yn ychwanegol, roedd defnyddio mwy o'r Gymraeg yn y llywodraeth, cymorth ychwanegol i ddysgwyr y Gymraeg, mwy o adnoddau a chyngor i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a normaleiddio dwyieithrwydd mewn bywyd bob dydd yn themâu cyffredin.

Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg yn y Llywodraeth

Pwysleisiodd un ymatebydd bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd yn Llywodraeth Cymru ac ar draws adrannau, ac y gallai hyn godi pwysigrwydd yr iaith.

Dylid mynd ati i weinyddu yn Gymraeg yn fewnol o fewn adrannau'r llywodraeth sy'n trafod amaeth a materion amgylcheddol a bioamrywiaeth. Nid yw peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ddigon da o gofio am rym neilltuol (cymdeithasol a gwleidyddol) y Saesneg. Gellid cychwyn yn y mannau Cymreiciaf a chynnwys Caerdydd maes o law.

Unigolyn, Arall

[20] C20. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Annog Dwyieithrwydd

Roedd rhai'n teimlo ei bod yn bwysig annog defnyddio'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg. O'r safbwyntiau hyn, teimlwyd y gallai cyfathrebu, gan gynnwys drwy ddeunyddiau cyfarwyddyd, adroddiadau a digwyddiadau, elwa o fwy o ddwyieithrwydd.

> *Mewn rhai ardaloedd (gogledd-orllewin Cymru er enghraifft), Cymraeg yw iaith gyntaf mwyafrif y ffermwyr. Gall cyflogi rheolwyr contractau / swyddogion rheoleiddio / swyddogion monitro dwyieithog helpu i bontio'n llyfnach i gynlluniau newydd a chwalu rhwystrau ymddangosiadol. Dylai cyngor a chanllawiau ysgrifenedig (yn ymwneud â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy) gael eu darparu'n ddwyieithog.*
>
> RSPB Cymru, Trydydd Sector

Mynegodd eraill awydd i gael mwy o adnoddau, cymorth ac anogaeth i'r rhai sy'n dysgu a defnyddio'r iaith fel ffordd i hybu dwyieithrwydd:

> *Darparu cyfleoedd i ddysgwyr y Gymraeg gyfathrebu'n Gymraeg mewn amgylchedd cefnogol.*
>
> Unigolyn, Coedwigaeth

> *A fyddai posibilrwydd cyflwyno amod / anogaeth i fewnfudwyr ddysgu'r iaith?*
>
> Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

> *Er bod llawer o ffermwyr yn rhugl yn y Gymraeg, efallai bydd llawer yn anghyfarwydd â safon y Gymraeg dechnegol sydd weithiau'n cael ei defnyddio mewn dogfennau ffurfiol. Mae'n bwysig bod dogfennau'n cael eu teilwra i'r gynulleidfa gan gynnwys defnyddio Cymraeg clir. Byddai cael cynghorwyr y cynllun sy'n siarad Cymraeg o fudd i ffermwyr Cymru a gallai leihau rhwystr i ddod i gytundeb.*
>
> Cyfoeth Naturiol Cymru, Corff Cyhoeddus

14 Themâu Ychwanegol

Daeth nifer o themâu ychwanegol i'r amlwg o'r ymatebion. Roedd y rhain yn cynnwys barn a safbwyntiau'n ymwneud ag elfennau ychwanegol o'r cynigion, gan gynnwys pwerau ychwanegol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar y cynigion. Ni archwiliwyd y rhain yn benodol yn y cwestiynau a oedd wedi'i cynnwys yn nogfen ymgynghori'r Papur Gwyn.

Rheoli Tiroedd Comin

Dywedodd yr ymatebwyr y dylid rhoi mwy o sylw ac ystyriaeth i rôl bwysig tiroedd comin yn y modd y cânt eu rheoli a'u cefnogi'n effeithiol. Meddai'r ymatebwyr y byddent yn croesawu parhau â thrafodaeth a dadl ynglŷn â sut i gefnogi tiroedd comin yn effeithiol drwy'r diwygiadau:

> *Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i adfer amgylchedd ffyniannus a chryf ar diroedd comin, gan alluogi i'r tir chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â heriau brys y newid yn yr hinsawdd, a helpu cymunedau i gydweithio yn awr ac at y dyfodol.*
>
> Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

> *Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod rôl tiroedd comin wrth gefnogi cynhyrchu amaethyddol, ond rhaid iddi hefyd gydnabod y budd cyhoeddus enfawr sy'n cael ei ddarparu gan diroedd comin – o ran eu harddwch naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, a budd hanesyddol a diwylliannol, ac o ran mynediad i'r cyhoedd. Nodwn nad oedd unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r cynigion ynghylch tiroedd comin a gobeithiwn y bydd sylwadau ar y rhain yn cael eu hystyried cyn i gynigion gael eu mabwysiadu.*
>
> Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Roedd rhai'n teimlo bod tiroedd comin yn wahanol i ffurfiau eraill o ddaliadau tir, ac y byddai angen atebion a dulliau gweithredu penodol:

> *Dylid caniatáu dull gweithredu llawer mwy hyblyg ac wedi'i deilwra ar gyfer tiroedd comin, gan ganolbwyntio mwy ar y canlyniadau sy'n ofynnol.*
>
> Ymddiriedolaethau Natur Cymru

> *Nodwn nad oes unrhyw gwestiynau ynghylch tiroedd comin. Mae'n hanfodol bod cynllun newydd yn gwobrwyo rheolaeth weithredol ar dir comin, yn hytrach na deiliaid hawliau nad ydynt yn rheoli tir comin yn weithredol. Dylai fod yn haws i ffermwyr ymgymryd â gwaith rheoli cadwraeth ar dir comin sy'n dod o dan waith cyfyngedig.*
>
> Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy

Ochr yn ochr â'r rhai sy'n dymuno sicrhau bod ffermwyr tenant yn cael eu cynorthwyo drwy'r trefniadau newydd, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r rhai sy'n defnyddio neu reoli tiroedd comin hefyd yn elwa o gymorth neu ddarpariaethau penodol sy'n gwella eu gallu i gynnal neu adfer cynefinoedd bioamrywiol:

> *Byddai'n fuddiol pe byddai cyfleoedd ar gyfer cytundebau cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar y cyd, yn arbennig mewn perthynas â thiroedd comin sy'n 8.5% o dir amaethyddol yng Nghymru. Mae tiroedd comin yn aml o werth bioamrywiaeth eithriadol ac mae gan lawer ohonynt goed arbennig yn fwy penodol, sy'n cael eu hesgeuluso ar hyn o bryd. Byddai'n ddelfrydol pe byddai'r systemau hyn yn cael eu cynorthwyo i gynnal pori gydol y flwyddyn, gyda bridiau prin, er enghraifft.*
>
> Fforwm Coed Hynafol, Amgylcheddol

Fodd bynnag, gallai fod i hyn oblygiadau i'r rhai sy'n cael mynediad i'r tiroedd comin. Felly, gallai fod yn werthfawr ystyried sut i gydbwyso'r galwadau cyferbyniol ar dir comin, gan gynnwys ei gapasiti cynhyrchiol a'i berfformiad amgylcheddol:

> *Mae tiroedd comin yn cynnal crynodiad uchel o gynefinoedd sy'n flaenoriaeth ond oherwydd y materion lu yn ymwneud â'u rheoli, mae'n aml yn broblemus sicrhau bod tiroedd comin yn cael eu rheoli'n dda. Mae cytundebau cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar diroedd comin yn debygol o alw am weithredoedd sy'n effeithio ar hawliau tirfeddianwyr a phorwyr.*
>
> Cyfoeth Naturiol Cymru, Sector Cyhoeddus

> *Dylai buddion rhai sy'n deillio incwm o dir comin (e.e. porwr) gyfri llawer mwy na buddion rhai sy'n defnyddio'r tir comin hwnnw at ddibenion hamdden. Nid yw Cynghorau Comin o dan unrhyw amgylchiadau yn foddion at bob clwy, ac mewn llawer o achosion byddent yn rhannu cymunedau ynghylch tiroedd comin, sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd o dan reolaeth cymdeithasau pori. Mae costau sefydlu a chynnal cynghorau comin yn eithriadol o uchel, fel a welwyd drwy'r gwaith ar y Cynghorau Comin a gynhaliwyd yn Lloegr.*
>
> Undeb Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Rhoddodd y Papur Gwyn amlinelliad o dri chynnig penodol ynghylch tiroedd comin. Roedd hyn yn cynnwys pwerau i adolygu'r gyfundrefn ganiatáu ar dir comin er mwyn diffinio'r gwaith y mae gwaith cyfyngedig, eithriadau ac achosion o ddyblygu pan fydd gofyn cael caniatâd o dan ddeddfwriaeth gynllunio. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd ar wahân i'w gilydd. Roedd rhai'n teimlo y gellid rhoi mwy o fanylion ar y cynigion, gan gynnwys union diffiniadau a hyd a lled gwaith cyfyngedig ac eithriadau. Roedd eraill yn teimlo bod teimlad cyffredinol y cynigion yn gadarnhaol, ond y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i sut mae cyfundrefnau caniatáu yn hwyluso gweithgarwch penodol sy'n cadw neu'n gwella tir comin:

> *Awgrymwn y dylai nod strategol o wella cyfleoedd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar dir comin lywio unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth tiroedd comin. Yn hyn o beth, croesawn y cynnig i gyflwyno diffiniad o waith cyfyngedig ac wedi'i eithrio ond cwestiynwn y ffocws ar 'ddyblygu' caniatâd. Dylid rhoi ystyriaeth i'r gweithiau hynny sydd angen eu gwneud i adfer natur, pridd a dŵr, ac i ddull sy'n cynnig prawf Rheoli Tir yn Gynaliadwy neu Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i benderfynu ar geisiadau am ganiatâd neu sy'n darparu manteision caniatâd i weithiau a ddaw o dan gontract y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.*
>
> Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Roedd y farn yn amrywio hefyd ynglŷn â mynd i'r afael â dyblygu yn y system. Roedd rhai'n teimlo bod hyn yn gam cadarnhaol ac angenrheidiol, gan gynnwys er mwyn creu dulliau mwy cydlynol a rhesymegol o gael caniatâd i chaniatâd cynllunio ar dir comin. Roedd eraill, fodd bynnag, yn teimlo y gallai cymhwyso Deddf Tiroedd Comin 2006 a chynnal cymeriad a nodweddion arbennig tiroedd comin gael eu tanseilio gan y cynigion:

> *Mae materion penodol y mae angen eu hystyried cyn cymeradwyo gwaith ar dir comin felly mae'n gwbl briodol cadw cyfundrefn ganiatáu baralel ar gyfer y meysydd hyn yn ychwanegol at ganiatâd cynllunio. Mae hyn yn adlewyrchu'r gyfundrefn ganiatáu mewn sefyllfaoedd eraill lle mae angen ystyried nodweddion penodol megis adeiladau rhestredig neu strwythurau morol. Byddai cadw'r gyfundrefn ganiatáu baralel hefyd yn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r gwaith hynny ar dir comin nad yw'n galw am ganiatâd cynllunio, megis ffensys rheoli stoc, ac i'r effaith y gallai unrhyw waith gael ar hawliau cominwyr, sy'n fater nad yw'r system gynllunio yn mynd i'r afael ag ef.*
>
> Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol

Mae'r cynigion hefyd yn galw am bwerau newydd a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru adolygu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau gorfodi ar dir comin wrth ymateb i achosion o fynd yn erbyn y broses ganiatáu trwy wneud gwaith cyfyngedig heb ganiatâd. Unwaith eto, roedd y farn yn amrywio ymhlith nifer fach o ymatebwyr. Roedd rhai'n teimlo bod angen cryfhau cyfrifoldebau gorfodi i weithredu yn erbyn gwaith anghyfreithlon ar dir comin. Roedd eraill yn teimlo y byddai i orfodi'n briodol oblygiadau o ran adnoddau, yn arbennig i Awdurdodau Lleol:

> *Os mai'r disgwyl yw y byddai Awdurdodau Lleol yn ymgymryd â phwerau gorfodi statudol ychwanegol, bydd angen clustnodi cyllidebau refeniw penodol i dalu am amser staff, yn arbennig o ystyried y pwysau ar adnoddau y mae timau Mynediad i Gefn Gwlad a Hamdden mewn awdurdodau lleol wedi'i wynebu yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd pwerau i gyflwyno hysbysiadau'n gwneud hyn yn haws ond unwaith eto, mae angen adnoddau.*
>
> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Roedd y cynigion hefyd yn cynnwys ehangu swyddogaethau a phwerau Cynghorau Comin i reoli tir comin a gwella'u gallu i gyfrannu at amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y polisi fframwaith ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy. Unwaith eto, cymysg oedd yr ymatebion i'r cynnig hwn. Roedd rhai'n teimlo y byddent yn sicrhau y gallai cominwyr elwa o'r cynlluniau rheoli tir yn y dyfodol ac y byddai'r buddion yn cynnwys plannu coed. Fodd bynnag, er y pŵer i greu Cynghorau Comin yn Neddf Tiroedd Comin 2006, roedd pryderon nad oes yr un wedi'i greu yng Nghymru hyd yma. O'r safbwyntiau hyn, byddai effeithiolrwydd y cynigion yn cael ei danseilio heb fwy o ymrwymiad i gymorth ac anogaeth i'w creu:

> *Nid ydym yn cefnogi'r cynnig i ehangu swyddogaethau a phwerau Cynghorau Comin... Nid oes unrhyw Gynghorau Comin yn eu lle yng Nghymru hyd yma er i'r pŵer i'w creu gael ei gyflwyno yn Neddf Tiroedd Comin 2006, a phrin iawn yw'r flaenoriaeth a roddwyd iddynt hyd yma. Llawer gwell fyddai canolbwyntio ar flaenoriaethu a hwyluso camau i gyflwyno Cynghorau Comin, yn hytrach na cheisio rhoi mwy o bwerau iddynt. Gallai defnyddio'r pwerau hynny gymhlethu ac o bosibl danseilio'r budd cyhoeddus sydd i diroedd comin.*
>
> Cymdeithas Eryri

Arferion Busnes Amaethyddol Cynaliadwy

Mae'n ymddangos na wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymateb yn benodol i'r cynigion ynghylch arferion busnes cynaliadwy. Mae'r teimladau cyffredinol a fynegwyd ar draws yr ymatebion yn awgrymu bod y rhan fwyaf o grwpiau rhanddeiliaid ar y cyfan yn derbyn y nod cyffredinol o hybu cydnerthedd a chynaliadwyedd ar draws meysydd rheoli tir, cynhyrchu bwyd a chadwyni cyflenwi ehangach. Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebion hyn yn mynd i'r afael â'r cynigion penodol ynghylch pwerau ychwanegol i sicrhau bod ffermwyr yng Nghymru, ac eraill yn y gadwyn gyflenwi amaethyddol a'r gadwyn cyflenwi bwyd yng Nghymru, yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a thryloyw ac ar sail deg.

Roedd yn nodweddiadol i'r rhai a gyfeiriodd yn benodol at y pwerau ychwanegol fod yn gefnogol ond gan fynegi pwysigrwydd bod yn eglur a gofalus ynglŷn â'r dulliau gweithredu:

> *Mae cydnerthedd busnesau amaethyddol yn hollbwysig i'r diwydiant amaeth yng Nghymru ac nid yw Hybu Cig Cymru felly yn gwrthwynebu'r cynigion i Weinidogion Cymru gyflwyno dulliau i gefnogi cydnerthedd busnesau amaethyddol, sy'n fregus yn wyneb prisiau cyfnewidiol, a gwella busnesau a chynhyrchu amaethyddol. Fodd bynnag, mae angen bod yn eglur ynglŷn â pha ddulliau fyddai'n cael eu defnyddio, a sut byddent yn cael eu cymhwyso.*
>
> Hybu Cig Cymru

Amodau Eithriadol yn y Farchnad

Lle y gwnaeth ymatebwyr fyfyrio'n benodol ynghylch y pwerau ychwanegol wrth ymateb i amodau eithriadol yn y farchnad, roedd y rhan fwyaf yn eu hystyried yn werthfawr a chymesur:

> *Cefnogwn y cynnig i roi pwerau ychwanegol i ymyrryd mewn marchnadoedd gan ddefnyddio ymyriadau megis cymorth storfeydd preifat lle y caiff ei ddatgan bod amodau'r farchnad yn eithriadol.*
>
> Fforwm Tiroedd Comin Cymru

> [Gan gyfeirio at '[B]werau i gadw'r cymorth amaethyddol presennol a datgan bod amodau'r farchnad yn eithriadol ac ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol'] *O ystyried y bydd y Bil yn darparu'r sail ddeddfwriaethol i bolisi amaeth a thir Cymru, ac y bydd y pwerau a gymerwyd ar gyfer Gweinidogion Cymru drwy Ddeddf y Deyrnas Unedig yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024, mae'r cynigion i gymryd pwerau cyfwerth neu debyg yn y Bil ar gyfer Gweinidogion Cymru yn ymddangos yn briodol.*
>
> Hybu Cig Cymru

> *Mae Undeb Amaethwyr Cymru'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru allu ymyrryd yn ystod argyfwng, am eu bod ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni drwy reoliadau Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yr Undeb Ewropeaidd.*
>
> Undeb Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Roedd rhai'n teimlo, pe byddai angen arfer y pwerau, y dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso'n gydlynol er mwyn cefnogi pobl a chymunedau:

> *Nodwn fod y Papur Gwyn hefyd yn cynnig bod gan Weinidogion Cymru bwerau i ddatgan bod amodau'r farchnad yn eithriadol ac ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol lle y bo achos o aflonyddwch difrifol ar y farchnad neu fygythiad o aflonyddwch difrifol ar y farchnad. Byddem yn pwysleisio bod sefydlu ardaloedd rheoli clefyd yn ddigwyddiad a allai aflonyddu'n ddifrifol ar y farchnad ac felly os yw Gweinidogion Cymru am ddefnyddio pwerau i sefydlu ardaloedd rheoli clefyd, mae'n hanfodol bod hefyd yn rhaid iddynt fod yn barod i ddefnyddio pwerau i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol, os yw sefydlu'r ardaloedd hyn yn effeithio ar farchnadoedd.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Safonau Marchnata a Chategoreiddio Carcasau

Yn yr un modd, mynegi cefnogaeth oedd y rhan fwyaf o sylwadau ynglŷn â safonau marchnata a chategoreiddio carcasau, ynghyd â chyfeiriadau at bwysigrwydd cysondeb ar draws ffiniau.

> *Cefnogwn y cynnig ynghylch safonau marchnata a chategoreiddio carcasau ond byddem yn disgwyl i hyn gydweddu â Lloegr a chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig.*
>
> Fforwm Tiroedd Comin Cymru

> *[Nid oes gennym] wrthwynebiad i Weinidogion Cymru gymryd pwerau mewn perthynas â chategoreiddio carcasau buchol a moch a gwneud newidiadau fel y bo angen. Fodd bynnag – mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn cydweithrediad â'r Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig eraill – ni allwn weithredu systemau categoreiddio sy'n wahanol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.*
>
> Kepak St Merryn Merthyr, Cadwyni Cyflenwi Bwyd a Phren

Cynnyrch Organig

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn trafod cynhyrchu ac ardystio bwyd organig yn siarad yn gyffredinol am ei bwysigrwydd a'i rôl wrth gyflawni bwyd o ansawdd uchel a sicrhau'r effeithiau lleiaf ar yr amgylchedd.

> *Mae'r rhain yn ddymunol yn gyffredinol. Mae dulliau cynhyrchu organig eisoes yn cyflenwi llawer o'r canlyniadau sydd eu hangen ar Reoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'n bwysig bod Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cefnogi cynhyrchwyr sydd eisiau troi at gynhyrchu organig, yn arbennig yn ystod y cyfnod o droi'n organig pan fo'r enillion o'r farchnad yn debygol o fod yn is.*
>
> Unigolyn, Ffermio Cymysg

O'r rhai a gyfeiriodd yn benodol at y cynigion ynghylch pwerau datganoledig a gallu Gweinidogion Cymru i ddargyfeirio o ddeddfwriaeth bresennol y Deyrnas Unedig, roedd rhai'n teimlo y gallai hyn danseilio hyder a chystadleurwydd cynnyrch organig o Gymru:

> *Cefnogwn weledigaeth Llywodraeth Cymru o reoli tir yn gynaliadwy a chredwn y bydd rheoleiddio ac ardystio organig yn chwarae rôl allweddol ynddi... anogwn Lywodraeth Cymru i lawn ystyried oblygiadau dargyfeirio rheoliadau organig oddi wrth genhedloedd eraill y Deyrnas Unedig, a fyddai'n andwyol i fasnach ryngwladol cynnyrch organig o Gymru a gallai fod yn faich diangen ar adnoddau Llywodraeth Cymru*.
>
> Cymdeithas y Pridd

Roedd eraill yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal trefniadau presennol yn y dyfodol agos, gan gynnig sefydlogrwydd i gynhyrchwyr:

> *Mae Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru'n deall pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru ddewis cymryd rhai pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac rydym yn falch bod y pwerau hyn wedi caniatáu ar gyfer parhau i weithredu'r cymorth presennol i ffermio y tu hwnt i 2020. Mae hyn wedi darparu ac yn parhau i ddarparu sicrwydd a sefydlogrwydd mawr eu hangen yn ystod cyfnod o anwadalrwydd a newid.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Rheoliadau Da Byw

Roedd y rhai a gyfeiriodd yn benodol at gynigion ynghylch darpariaethau nodi ac olrhain anifeiliaid yn dueddol o gefnogi cyfeiriad cyffredinol y cynigion. Fodd bynnag, roeddent yn tynnu sylw at bryderon ynghylch cydweddu rheoliadau:

> *Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ystyriol yn benodol o sut bydd unrhyw benderfyniadau ynglŷn â safonau cynhyrchu cynradd yn effeithio ar safle gystadleuol ffermwyr Cymru (yn arbennig os nad oes modd i'r rhain gael eu gwobrwyo'n briodol yn y farchnad) a chynnal maes cymharol wastad yn nhermau'r safonau cynhyrchu sy'n berthnasol yng Nghymru mewn perthynas â'n cystadleuwyr mwyaf ac agosaf.*
>
> Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Corff Cynrychioliadol

Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth

Mae'r cyfeiriadau at y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth yn gyffredinol gefnogol o'i waith presennol. Mynegwyd mân bryderon ynglŷn â materion megis pwysigrwydd cefnogi datblygiad gyrfa ehangach ym maes amaeth ynghyd â mynd i'r afael â materion ynghylch cyflog. Roedd pryderon hefyd ynghylch sut byddai'r Isafswm Cyflog yn gweithio'n ymarferol:

> *Cefnogwn waith presennol y Panel ond credwn y dylai fod cyllideb gyflawni ar gael i gefnogi gwaith Gyrfaoedd arloesol ar gyfer sector amaeth a'r tir. Bydd y pwyslais yn y dyfodol ar Reoli Tir yn Gynaliadwy yn galw am sgiliau newydd a newydd-ddyfodiaid felly byddai hwn yn bwynt amserol i gychwyn ar y gwaith hwn.*
>
> Lantra

> *Mae'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth yn cyflwyno categorïau safonau isafswm cyflog o ffermwyr profiadol i ddibrofiad ac rydym wedi ein bodloni bod y panel hwn yn ddigonol a theg. Cefnogwn Isafswm Cyflog i'r sector ond cwestiynwn sut byddai'n cael ei reoli a'i reoleiddio.*
>
> Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

15 Casgliadau

Yn gyffredinol mae'r dadansoddiad o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn gyffredinol gadarnhaol tuag at y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn. Roedd llawer yn croesawu gogwydd a theimlad cyffredinol y cynigion. Roedd hyn yn aml yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o'r materion a'r heriau penodol sy'n gyrru'r diwygiadau. Roedd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion megis y newid yn yr hinsawdd a hybu bioamrywiaeth, yn ogystal â chefnogi cymunedau ffermio a gwledig bywiog a threftadaeth Cymru. Roedd llawer yn teimlo bod y Papur Gwyn yn cyflwyno cam i'r cyfeiriad cywir.

Lle'r oedd meysydd o anghytuno, roedd y rhain yn dueddol o fod yn ymwneud ag union fanylion y cynigion. Roedd rhai, er enghraifft, yn teimlo bod yr heriau sy'n wynebu'r amgylchedd mor sylweddol fel eu bod yn galw am weithredu sylweddol ar unwaith. Roedd y safbwyntiau hyn yn dueddol o ffafrio rôl gryfach i ddeddfwriaeth a rheoleiddio wrth ddiffinio amcanion a gyrru newid yn y ffordd y caiff tir ei reoli. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn credu hyn yn dueddol o gefnogi mwy o ffocws ar nodau amgylcheddol, safonau uwch wrth hwyluso ac annog newid, a mwy o weithredu ar unwaith.

Ar y llaw arall, roedd ymatebwyr sy'n dymuno hybu eglurder, sicrwydd a sefydlogrwydd. Roedd y safbwyntiau hyn yn dueddol o ffafrio datblygu'r amgylchedd rheoleiddio a chyllido yn raddol, ac yn cefnogi pontio'n arafach ac mewn modd mwy ymgynghorol i drefniadau newydd. Roeddent yn dueddol o flaenoriaethu amcanion economaidd ochr yn ochr â nodau amgylcheddol, a mynegwyd pryderon y gallai'r cynigion gynyddu'r ansicrwydd sy'n wynebu llawer o ffermwyr a rheolwyr tir. O'r safbwyntiau hyn, byddai gofyn ystyried y cynigion yn ofalus i sicrhau eu bod yn effeithiol ar gyflawni'u hymrwymiadau ehangach i gefnogi cymunedau gwledig.

Roedd yn amlwg yn yr ymatebion y dehonglwyd y cynigion mewn ffyrdd gwahanol. Gallai hyn gael ei esbonio, o leiaf yn rhannol, gan natur gymhleth ac eang y cynigion. Mewn rhai achosion, roedd achosion o gamddealltwriaeth ynglŷn â bwriad cyffredinol neu union fanylion darpariaethau penodol. Roedd eraill yn dymuno gweld mwy o fanylion ar sut beth fyddai'r cynigion yn ymarferol. Gallai parhau i egluro a chynnal deialog rhwng Llywodraeth Cymru a'r rhanddeiliaid fod yn werthfawr wrth weithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o union amcanion a natur y diwygiadau. Gyda chefnogaeth sylweddol i ogwydd a theimlad cyffredinol y cynigion ar draws y grwpiau rhanddeiliaid, y mae yma sylfaen gadarn i fireinio'r cynigion cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Senedd.

Atodiad 1: Cwestiynau Ymgynghori

Diwygio Rheoliadau

1. Beth yw'ch barn chi am:

   (a) Y ffordd rydym am fynd ati i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol??
   (b) Yr angen am hyblygrwydd i allu diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol pan fo angen? A oes angen ystyried unrhyw beth arall?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

2. Beth yw'ch barn chi ynghylch:

   (a) Sut gall cyngor ac arweiniad helpu ffermwyr i ddeall y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; ac
   (b) Yr ystyriaethau eraill wrth roi cyngor ac arweiniad? Er enghraifft, ffurf yr arweiniad, pwy ddylai ei ddarparu, hyd a lled yr arweiniad a sut gallai gwasanaethau cynghori helpu ffermwyr.

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn.

3. Beth yw'ch barn am y cynigion ynghylch sancsiynau sifil er mwyn gallu gorfodi'r rheoliadau mewn ffordd gymesur? A oes ystyriaethau eraill sydd eu hangen?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn.

Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) – Cymorth yn y Dyfodol

4. Beth yw'ch barn am y dibenion a gynigir ar gyfer talu ffermwyr i SLM? A oes dibenion eraill yn eich barn chi sydd angen eu hystyried?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

5. Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau a gynigir ar gyfer cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Casglu a rhannu data

6. Beth yw'ch barn chi am y dibenion a gynigir ar gyfer casglu, rhannu a chysylltu data?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

7. Beth yw'ch barn chi am sefydlu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer ffermydd a da byw?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Gan feddwl am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC):

8. O ran y cynllun arfaethedig, beth yw'ch barn chi am y cynigion i ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r data rydym yn eu casglu ar y fferm i dracio'u cynnydd a dangos eu bod yn gynaliadwy?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Gan feddwl am gydymffurfio â'r rheoliadau:

9. Beth yw'ch barn am y cynigion ar gyfer monitro'n well y modd y cydymffurfir â'r rheoliadau?

   Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

10. Beth yn eich barn chi sydd angen ei ystyried yn y dyfodol er mwyn i reoleiddwyr allu monitro rheoliadau'n effeithiol?

Coedwigaeth a choetir

11. Beth yw'ch barn chi am y diwygiadau a gynigir i'r ddeddfwriaeth goedwigaeth?

    Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

12. Beth yw'ch barn chi ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi perchnogion tir yng Nghymru i elwa ar farchnadoedd carbon ar gyfer plannu coed?

Tenantiaethau

13. A ydych chi'n credu y dylai'r trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir yn y cynigion gael eu hestyn i'r FBTs?

    Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

14. A ydych chi'n credu y bydd yna adegau pan fyddai'r landlord angen defnyddio'r un trefniadau datrys anghydfodau a ddisgrifir uchod hefyd?

Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. i ba raddau y mae hon yn broblem ar hyn o bryd, y manteision a'r effeithiau tebygol.

15. Yn eich barn chi, a fyddai'n briodol caniatáu cytundebau SLM ar y cyd rhwng landlordiaid/tenantiaid?

    Rhowch dystiolaeth i ategu'ch barn e.e. maint yr angen, y manteision, yr anfanteision a'r effeithiau tebygol.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

16. Beth yw'ch barn am y cynigion i roi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i:

    a) Sefydlu Ardaloedd Rheoli Symudiadau i reoli symudiadau anifeiliaid, semen, embryonau, cynnyrch anifeiliaid, sgil-gynhyrchion anifeiliaid a/neu bethau eraill e.e. offer a chyfarpar, pan geir bygythiad o glefyd anifeiliaid arwyddocaol newydd lle na cheir fawr o bwerau os o gwbl i wneud hynny ar hyn o bryd?
    b) Enwi 'anifail', 'anifail a ffermi', 'da byw', 'anifail anwes', ac 'anifeiliaid a fwriedir at ddibenion amaethyddol', y tu hwnt i'r diffiniadau traddodiadol caeth presennol i sicrhau y rhoddir mesurau rheoli clefydau anifeiliaid ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg mewn perthynas ag unrhyw rywogaeth o anifail cadw lle ceir perygl posibl o glefyd?

    Rhowch sylwadau i ategu'ch barn e.e. manteision ac effeithiau posibl.

Maglau

17. Beth yw'ch barn am y cynnig i ddarparu pŵer er mwyn cael mwy o reolaeth ar faterion fel cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau? A oes angen pŵer o'r fath? Os nad oes, pam? Os oes, pa faterion yn eich barn chi y dylai'r pŵer fynd i'r afael â nhw?

Asesiad Integredig o Effeithiau

18. Beth yw'ch barn chi am yr effeithiau rydym wedi'u nodi yn yr asesiad integredig o'r effeithiau? A oes angen ystyried effeithiau eraill?

Y Gymraeg

19. Hoffem wybod eich barn ar effeithiau y byddai cynigion y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

    Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau hynny? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

20. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Unrhyw sylwadau eraill

21. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Atodiad 2: Niferoedd yr Ymatebion

Roedd ymgysylltiad yr ymatebwyr â chwestiynau ar draws yr ymgynghoriad yn amrywio'n sylweddol. Mae'r graff a'r tabl canlynol yn dangos yr amrywiad yn yr ymgysylltiad â phob cwestiwn, gan gynnwys gan sefydliadau ac unigolion:



	Sefydliadau	Unigolion	Ymatebion Gwag (N)	Ymatebion Gwag (%)
C1	94	44	94	41%
C2	91	39	102	44%
C3	82	40	110	47%
C4	98	49	85	37%
C5	79	26	127	55%
C6	69	26	137	59%
C7	54	26	152	66%
C8	57	23	152	66%
C9	53	25	154	66%
C10	59	25	148	64%
C11	84	43	105	45%
C12	64	41	127	55%
C13	26	11	195	84%
C14	22	7	203	88%
C15	42	17	173	75%
C16	38	20	174	75%
C17	30	29	173	75%
C18	40	14	178	77%
C19	29	17	186	80%
C20	29	12	191	82%
C21	74	39	119	51%

Atodiad 3: Ymatebion Sefydliadau

Mae'r adran hon yn rhestru'r sefydliadau a gyfrannodd ymatebion i'r ymgynghoriad.

Archwilio Cymru
Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth
Border Woodlands
Bwyd Cynaliadwy Trefyclo
Cadw
Cadwraeth Eogiaid a Brithylliaid Cymru
Canolfan y Dechnoleg Amgen
Cerddwyr Ardal Gogledd Cymru
Cerddwyr Cymru
Cerddwyr Eryri
Cerddwyr Llanelli
Cerddwyr Meirionnydd
Clwb Ffermwyr Ifanc Maesyfed
Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
Coed Cadw
Coed Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Confor: Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Y DU)
Continuous Cover Forestry Group – Pwyllgor Cymru
Cycling UK Cymru
Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol
Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynghrair dros Dirluniau Dynodedig Cymru
Cynghrair Gweithwyr y Tir Cymru
Cynghrair Polisi Bwyd Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Gwynedd
Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth y DU
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru
Cymdeithas Eryri
Cymdeithas Foch Genedlaethol
Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru
Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol
Cymdeithas Genedlaethol y Contractwyr Amaethyddol
Cymdeithas Gŵyr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Milfeddygon Prydain – Cangen Cymru
Cymdeithas Porwyr Dwyrain y Mynydd Du

Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru – Gweithgor Rheoli Hawliau Tramwy Cymru
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru
Cymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru
Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol
Cymdeithas y Mannau Agored
Cymdeithas y Pridd
Cymorth i Anifeiliaid
Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Dŵr Cymru
Ecodyfi
Ein Bwyd Bannau Brycheiniog a Sir Fynwy
Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin
Fforwm Coed Hynafol
Fforwm Ewropeaidd ar Gadwraeth Natur a Bugeilyddiaeth
Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Fforwm Organig Cymru
Fforwm Tiroedd Comin Cymru
Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt Cymru
Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru
Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Grŵp Llywio Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru
H W Forestry Ltd
Hybu Cig Cymru
Iechyd Anifeiliaid Cyngor Sir Fynwy
Iechyd Da (Gwledig) Cyf
Iwan Lloyd-Williams
Kepak St Merryn Merthyr
Lantra
Maint Cymru
Meatwise International
Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog
Menter a Busnes
Merched Mewn Amaeth Cangen Llanbedr Pont Steffan
Morris Marshall & Poole
MSD Animal Health UK Ltd
Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd
Paramaethu Sir Gar
Parciau Cenedlaethol Cymru
Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru
Plantlife
Prifysgol Swydd Gaerloyw – Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol
Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru
Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru
Rewilding Britain
Rheoli Coedwigoedd yn Gynaliadwy
Rhwydwaith Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned
Rhwydwaith Calon Cymru
Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Safonau Masnach Cymru
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol Cymru
Sefydliad Gwy ac Wysg
Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a'r Cyngor Archaeoleg Brydeinig
Sefydliad Tirwedd Cymru
Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig
Sustainable Soils Alliance
Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid (NOAH) Ltd
Synnwyr Bwyd Cymru
Tasglu Pryfed Peillio – Cynllun Gweithredu
Tilhill Forestry Ltd
Tîm Myfyrwyr Her Fawr Prifysgol Caerdydd
Tyddyn Teg / Franklin Scrase
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
WWF Cymru
Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
Y Gydweithfa Tir Ecolegol
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon
Y Gymdeithas Figan
Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid Cymru (RSPCA) Cymru
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent Cyf
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt Cymru
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod

Ymddiriedolaeth Diogelu Castell Rhiwperrau
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
Ymddiriedolaeth y Bridiau Prin
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol

wavehill™

social and economic research

ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711
wavehill@wavehill.com
wavehill.com